OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 103

Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd (Cymru) 2026

Gwnaed *25 Mawrth 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2), (3) a (4)

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 103

The Deposit Scheme for Drinks Containers (Wales) Regulations 2026

Made *25 March 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2), (3) and (4)

£40.70

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea, ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company, and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839874-8

9 780348 398748

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 103

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Y Rheoliadau hyn yw'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 54 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30) ac Atodlen 8 iddi. Maent yn sefydlu cynllun ernes yng Nghymru ar gyfer cynwysyddion diodydd, gan gefnogi cynnydd mewn ailddefnyddio ac ailgylchu a lleihad mewn taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae poteli a chaniau caeedig wedi eu gwneud o blastig polyethylen tereffthalad ("PET"), dur, gwydr neu alwminiwm, sy'n dal rhwng 150ml a 3 litr o hylif, yn dod o fewn cwmpas y cynllun ernes.

O 1 Hydref 2027, rhaid i unrhyw un yng Nghymru y cyflenwir iddo ddiod yn y mathau o gynhwysydd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt dalu ernes i'r person sy'n cyflenwi'r cynhwysydd diod. Bydd gan berson sy'n dychwelyd cynhwysydd diod gwag i gasglwr hawlogaeth i ad-daliad. O dan y cynllun, bydd hefyd yn bosibl dychwelyd cynwysyddion diod gwag penodol a brynwyd y tu allan i Gymru a hawlio ad-daliad amdanynt.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a darpariaeth drosiannol.

Mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaethau ar ddehongli.

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu cynllun ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru. O dan y cynllun, mae person y darperir eitem ernes iddo yn talu ernes, a gaiff ei had-dalu pan ddychwelir yr eitem i gasglwr cynllun. Mae'r Rhan hon hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan nad oes gan berson hawlogaeth i ad-daliad am eitem y gellir ei dychwelyd.

Mae Pennod 1 o Ran 4 yn cynnwys darpariaethau sy'n gosod gofynion cofrestru ar gynhyrchwyr cynllun a rhwymedigaeth ar y sefydliad rheoli ernes i gadw cofrestr o gynhyrchwyr cynllun cofrestredig. Mae'n ofynnol i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig gadw

cofnodion sy'n ymwneud â chyflenwi cynwysyddion diodydd. Rhoddir pwerau i'r sefydliad rheoli ernes hefyd i gael gwybodaeth gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig, a phwerau sy'n ymwneud â chanslo cofrestriad cynhyrchydd cynllun. Mae Pennod 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â llinellau swmp isel. Mae Pennod 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau gan gynhyrchwyr cynllun i'r sefydliad rheoli ernes. Mae Atodlen 1 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cofrestru cynhyrchwyr cynllun.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chyflenwyr cynllun, gan gynnwys gwaharddiad ar gyflenwi cynwysyddion diodydd perthnasol a weithgynhyrchir, a fewnforir neu a lenwir gan gynhyrchydd cynllun nad yw wedi ei gofrestru, a darpariaethau sy'n ymwneud â labelu eitemau ernes, pecynnau aml-gynnwys cynllun a chynhyrchion swmp isel cofrestredig. Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr cynllun godi ernes am bob eitem ernes a gyflenwir gan y cyflenwr cynllun i'r cwsmer, ac arddangos gwybodaeth am y cynllun ernes a chynhyrchion swmp isel cofrestredig. Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys pwerau i'r sefydliad rheoli ernes gael gwybodaeth gan gyflenwyr cynllun.

Mae Rhan 6 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â dychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd. Mae Pennod 1 o Ran 6 yn cynnwys darpariaethau ar eitemau sy'n ddarostyngedig i gynlluniau tramor. Mae Pennod 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â mannau dychwelyd mandadol ar gyfer cynwysyddion diod, ac mae Pennod 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â mannau dychwelyd gwirfoddol. Mae Pennod 4 yn cynnwys darpariaethau ar wybodaeth sydd i'w darparu mewn mannau dychwelyd, ac mae Pennod 5 yn cynnwys darpariaethau ar wasanaethau cymryd yn ôl ac ar gasglu neu dderbyn eitemau y gellir eu dychwelyd gan y sefydliad rheoli ernes. Mae Pennod 6 yn cynnwys darpariaethau ar y gofrestr o fannau dychwelyd, y gofrestr o esemptiadau man dychwelyd a'r gofrestr o ddarparwyr gwasanaeth cymryd yn ôl, ac mae Pennod 7 yn cynnwys darpariaethau ynghylch y rhwymedigaethau cyffredinol ar gasglwyr cynllun i gynnig taliad am eitemau y gellir eu dychwelyd ac i gadw'r eitemau y gellir eu dychwelyd hynny i'w casglu. Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cofrestru yn weithredwr man dychwelyd mandadol ac mae Atodlen 3 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch esemptiadau man dychwelyd. Mae Atodlen 4 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch awdurdodiadau i weithredu mannau dychwelyd gwirfoddol.

Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rôl y sefydliad rheoli ernes fel gweinyddwr cynllun. Mae Pennod 1 o Ran 7 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer penodi'r sefydliad rheoli ernes a llywodraethiant y sefydliad hwnnw, ac mae Pennod 2 yn cynnwys darpariaethau ynghylch y trefniadau dyroddi a gweinyddu ar gyfer logo cynllun, logo pecynwaith cynllun a chod dychwelyd cynllun. Mae Pennod 3 yn nodi gofyniad ar y sefydliad rheoli ernes i gyhoeddi dogfennau templed ar gyfer darparu mathau penodol o wybodaeth cynllun. Mae Pennod 4 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r ernes ar eitemau ernes, gan gynnwys penderfynu swm yr ernes a'r defnydd y gellir ei wneud gan y sefydliad rheoli ernes o symiau sy'n dod i law ar ffurf ernesau. Mae Pennod 5 yn nodi darpariaethau ynghylch ffioedd ar gyfer cofrestru sy'n daladwy gan gynhyrchwyr cynllun, ac mae Pennod 6 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chasglu eitemau y gellir eu dychwelyd, gan gynnwys adolygiadau o weithrediad mannau dychwelyd. Mae Pennod 7 yn cynnwys darpariaethau ynghylch ailgylchu deunyddiau a gwmpesir o gynwysyddion diod ac ailddefnyddio eitemau ernes sydd wedi eu dychwelyd. Mae Pennod 8 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae Pennod 9 yn rhoi pwerau i'r sefydliad rheoli ernes i weithio gyda'r gweinyddwyr cynllun eraill yn

Lloegr a Gogledd Iwerddon, yr Alban neu dramor. Mae Pennod 10 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag adolygu'n fewnol benderfyniadau a wneir gan y sefydliad rheoli ernes. Mae Pennod 11 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes. Mae Pennod 11 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru (neu berson arall) yn gweithredu fel gweinyddwr cynllun interim hyd nes y penodir person yn sefydliad rheoli ernes. Mae Atodlen 5 yn cynnwys darpariaethau ynghylch penodi'r sefydliad rheoli ernes a materion cysylltiedig.

Mae Rhan 8 yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â thargedau casglu ar gyfer y sefydliad rheoli ernes.

Mae Rhan 9 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gorfodi. Mae Pennod 2 o Ran 9 yn nodi pwerau gorfodi ac yn cynnwys darpariaethau sy'n gwneud darparu gwybodaeth yn ofynnol. Mae Pennod 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau ac mae Pennod 4 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â sancsiynau sifil. Mae Pennod 5 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chyhoeddi camau gorfodi mewn cofrestr gyhoeddus. Mae Atodlen 6 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch sancsiynau sifil.

Mae Rhan 10 yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud â'r hawl i apelio a'r weithdrefn ar apêl.

Mae Rhan 11 yn nodi swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 103

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd (Cymru) 2026

Gwnaed *25 Mawrth 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2), (3) a (4)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 54 a 143(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021(**1**) ac Atodlen 8 iddi.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 143(6)(b) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd (Cymru) 2026.

(2) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (3) a (4), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2027.

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn—

(a) y Rhan hon;

(b) Rhan 2 (dehongli);

(c) rheoliad 12 (gofyniad i gynhyrchwyr cynllun fod wedi eu cofrestru i gyflenwi diodydd cynhwysydd CC) i'r graddau y mae'n ymwneud â chofrestru cynhyrchwyr cynllun;

(d) Pennod 1 o Ran 6 (eitemau sy'n ddarostyngedig i gynlluniau tramor);

(e) rheoliad 35 (gofyniad i fanwerthwyr nwyddau groser sy'n cyflenwi eitemau ernes i weithredu man dychwelyd mewn mangre MDM neu ohoni) dim ond at ddibenion—

(**1**) 2021 p. 30.

(i) cofrestru manwerthwyr a gwmpesir yn weithredwyr man dychwelyd mandadol, a

(ii) ceisiadau am esemptiadau man dychwelyd;

(f) rheoliad 36 (esemptiad ar gyfer manwerthwyr a gwmpesir bach mewn ardaloedd trefol);

(g) rheoliad 38 (man dychwelyd gwirfoddol);

(h) Rhan 7 (y gweinyddwr cynllun: y sefydliad rheoli ernes), ac eithrio rheoliad 73;

(i) Rhan 9 (gorfodi), i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau'r sefydliad rheoli ernes o dan Ran 7;

(j) Rhan 10 (apelau), i'r graddau y mae'n ymwneud â phenodi'r sefydliad rheoli ernes a dirymu unrhyw benodiad o'r fath.

(4) Daw rheoliad 73 (ailddefnyddio eitemau ad-daliad a ddychwelwyd) i rym ar 1 Hydref 2030.

Rhychwant a chymhwyso

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn rhychwantu Cymru a Lloegr.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Ond nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) cyflenwi diodydd cynhwysydd mewn siopau allforio,

(b) cyflenwi diodydd cynhwysydd presennol, nac

(c) y poteli neu'r caniau y cyflenwir neu y cyflenwyd unrhyw un o'r diodydd hynny ynddynt.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "diod gynhwysydd presennol" ("*existing container drink*") yw diod gynhwysydd a gyflenwir am y tro cyntaf mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig cyn 1 Hydref 2027;

mae i "siop allforio" yr ystyr a roddir i "export shop" yn rheoliad 2(2) o Reoliadau Nwyddau Ecséis (Siopau Allforio) 2000(**2**).

Trefniadau trosiannol ar gyfer eitemau ernes gwydr

3.—(1) Yn ystod y cyfnod trosiannol—

(a) pan fo person yn darparu cynhwysydd gwydr o eitem ernes wydr i gasglwr cynllun, mae rheoliad 11(2)(a) i'w ddarllen fel pe bai "(gan gynnwys pan na fo'n dangos logo cynllun neu god dychwelyd cynllun)" wedi ei hepgor,

(b) pan fo cyflenwr cynllun yn cyflenwi eitem ernes wydr ni waeth a gyflenwir yr eitem ernes wydr, neu a fwriedir ei chyflenwi, i dreulwyr mewn pecyn aml-gynnwys cynllun, nid yw rheoliad 25 yn gymwys,

(c) nid yw rheoliadau 61, 62 a 63 yn gymwys mewn cysylltiad ag eitem ernes wydr, a

(d) swm yr ernes mewn cysylltiad ag eitem ernes wydr yw 0 ceiniog.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cyfnod trosiannol" yw'r cyfnod sy'n dechrau â 1 Hydref 2027 ac yn dod i ben â 30 Medi 2031.

(**2**) O.S. 2000/645, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

RHAN 2

Dehongli

Ystyr "diod"

4.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "diod" yw—

(a) dŵr sy'n addas i'w yfed gan bobl;

(b) diod sy'n addas i'w hyfed gan bobl, gan gynnwys diod chwaraeon;

(c) hylif sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff (2).

(2) Mae hylif yn bodloni'r amodau yn y paragraff hwn os yw'n ffurfio diod sy'n addas i'w hyfed gan bobl os yw—

(a) wedi ei wanedu,

(b) wedi ei gyfuno ag iâ mâl, neu wedi ei brosesu er mwyn creu iâ mâl,

(c) wedi ei gyfuno â charbon deuocsid, neu

(d) wedi ei baratoi drwy broses sy'n cynnwys unrhyw gyfuniad o'r prosesau a grybwyllir yn is-baragraffau (a) i (c).

(3) Mae hylifau sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff (2) yn cynnwys hylifau megis cordialau ffrwyth neu sgwash.

(4) Ond nid yw hylif yn bodloni'r amodau ym mharagraff (2) os na chaiff ond ei ddefnyddio mewn diod sy'n addas i'w hyfed gan bobl at un neu ragor o'r dibenion a ganlyn (pa un a ganiateir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall ai peidio)—

(a) i ychwanegu blas at ddiod,

(b) i wella blas y ddiod, neu

(c) i felysu'r ddiod.

(5) Mae hylifau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4) yn cynnwys hylifau megis suropau cyflasu coffi, suropau siwgr a sawsiau poeth.

(6) Ystyr "diod chwaraeon" yw hylif, sy'n addas i'w yfed gan bobl, sy'n cael ei hysbysebu neu ei farchnata fel cynnyrch i wella perfformiad corfforol, ymadfer yn gynt ar ôl ymarfer corff neu fagu màs y cyhyrau.

Ystyr "cyflenwi" a materion cysylltiedig

5.—(1) At ddiben y Rheoliadau hyn mae person ("C") yn cyflenwi diod gynhwysydd os yw C, yng nghwrs busnes, yn cyflenwi neu'n cynnig cyflenwi'r ddiod gynhwysydd, neu'n cytuno i gyflenwi'r ddiod gynhwysydd, drwy ei gwerthu, neu mewn cysylltiad â chyflenwi nwyddau neu wasanaethau—

(a) i'w hyfed yng Nghymru, neu

(b) er mwyn i'r ddiod gael ei hyfed yng Nghymru.

(2) Ond pan fo diod gynhwysydd yn cael ei chynnig ar gyfer ei chyflenwi neu'n cael ei chyflenwi mewn cysylltiad â chyflenwi nwyddau neu wasanaethau drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell, nid yw C yn cyflenwi'r ddiod gynhwysydd honno oni bai bod—

(a) C yn penderfynu ei bod i'w chynnig ar gyfer ei chyflenwi neu i'w chyflenwi mewn cysylltiad â chyflenwi nwyddau neu wasanaethau drwy'r cyfrwng cyfathrebu o hirbell hwnnw, a

(b) C yn ei darparu ar gyfer ei chyflenwi.

(3) Ym mharagraff (2) nid oes gwahaniaeth pwy sy'n ymgymryd â—

(a) cyrchu taliad am y ddiod gynhwysydd neu'r nwyddau neu wasanaethau eraill, neu

(b) gweithredu neu ddarparu'r cyfrwng cyfathrebu o hirbell perthnasol.

(4) Yn achos cyflenwi diod gynhwysydd yn drawsffiniol o hirbell, mae'r ddiod gynhwysydd i'w thrin fel pe bai wedi ei chyflenwi yng Nghymru, pan fo'r person y'i cyflenwir iddo yng Nghymru.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "cyflenwi diod gynhwysydd yn drawsffiniol o hirbell" yw cyflenwi diod gynhwysydd drwy gyfrwng cyfathrebu o hirbell pan fo'r person sy'n archebu'r ddiod gynhwysydd, neu'r nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig, oddi wrth y cyflenwr cynllun, yng Nghymru a bo'r cyflenwr cynllun y tu allan i Gymru.

Ystyr "cyflenwr cynllun", "cynhyrchydd cynllun", "manwerthwr cynllun" a materion cysylltiedig

6.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cyflenwr cynllun" ("*scheme supplier*") yw person—

(a) sydd wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig, a

(b) sy'n cyflenwi eitemau ernes.

ystyr "cynhyrchydd cynllun" ("*scheme producer*") yw person sydd wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig ac sy'n un neu ragor o'r canlynol—

(a) yn weithgynhyrchydd diodydd cynhwysydd,

(b) yn fewnforiwr, neu

(c) yn berson sy'n llenwi yn unol ag archeb;

ystyr "diod gynhwysydd nad yw'n dod o'r DU" ("*non-UK container drink*") yw diod gynhwysydd o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithgynhyrchydd" ("*manufacturer*"), mewn perthynas â diod gynhwysydd, yw—

(a) y person sy'n gweithgynhyrchu'r ddiod gynhwysydd, neu

(b) os yw'r ddiod gynhwysydd yn cael ei marchnata neu ei chynnig fel arall ar gyfer ei chyflenwi o dan enw, nod masnach neu farc gwahaniaethol arall person arall, y person arall hwnnw;

ystyr "manwerthwr cynllun" ("*scheme retailer*") yw cyflenwr cynllun sy'n cyflenwi eitemau ernes i dreulwyr;

ystyr "mewnforiwr" ("*importer*") yw person—

(a) sy'n mewnforio i'r Deyrnas Unedig ddiod gynhwysydd nad yw'n dod o'r DU, a

(b) sydd y person cyntaf sydd wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig i gynnig ar gyfer ei chyflenwi, yng Nghymru, y ddiod gynhwysydd nad yw'n dod o'r DU honno.

Ystyr "wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig"

7. Yn y Rheoliadau hyn mae person "wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig"—

(a) yn achos unigolyn, os yw'r unigolyn yn preswylio yn y Deyrnas Unedig;

(b) mewn unrhyw achos arall, os oes gan y person—

(i) swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa yn y Deyrnas Unedig, neu

(ii) man parhaol yn y Deyrnas Unedig lle y mae'r person yn cyflawni gweithgareddau y mae'r person wedi ei gyfansoddi i'w cyflawni.

Yr ad-daliad

8.—(1) Yn y Rheoliadau hyn mae'r ad-daliad mewn cysylltiad ag eitem ad-daliad yn swm sy'n hafal i'r mwyaf o—

(a) swm yr ernes ar y dyddiad y dychwelir yr eitem ad-daliad, neu

(b) swm yr ernes ar y dyddiad y cyflenwyd yr eitem ad-daliad.

(2) Mae'r cyfeiriadau ym mharagraff (1) at yr ernes i'w darllen fel yr ernes ar gyfer eitem ernes sy'n gymaradwy â'r eitem ad-daliad.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae eitem ernes yn gymaradwy ag eitem ad-daliad os yw cynhwysydd yr eitem ernes—

(a) wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r un deunydd a gwmpesir â'r eitem ad-daliad,

(b) yr un maint â'r eitem ad-daliad, ac

(c) yn cael ei gynnig ar gyfer ei gyflenwi i dreulwyr mewn pecyn aml-gynnwys cynllun, os cyflenwyd yr eitem ad-daliad i dreuliwr mewn pecyn aml-gynnwys cynllun.

Dehongli cyffredinol

9.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "ad-daliad" ("*refund*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(1);

ystyr "ailddefnyddio" ("*reuse*") yw unrhyw weithrediad lle y mae eitemau ad-daliad yn cael eu defnyddio eto at yr un diben y cawsant eu llunio ar ei gyfer;

mae i "awdurdod pwysau a mesurau lleol" yr ystyr a roddir i "local weights and measures authority" yn adran 69(2) o Ddeddf Pwysau a Mesurau 1985(**3**);

ystyr "blwyddyn gynllun" ("*scheme year*") yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â 1 Hydref 2027 ac sy'n dod i ben â 31 Rhagfyr 2028 ("blwyddyn gynllun gyntaf"), neu

(b) unrhyw gyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau â 1 Ionawr;

ystyr "casglwr cynllun" ("*scheme collector*") yw—

(a) gweithredwr man dychwelyd, neu

(b) darparwr gwasanaeth cymryd yn ôl;

ystyr "CNC" ("*NRW*") yw Cyfoeth Naturiol Cymru;

ystyr "cod" ("*code*") yw cod bar, cod QR neu god arall y gellir cael gwybodaeth ohono drwy ei sganio'n electronig;

mae i "cod dychwelyd y cynllun" ("*scheme return code*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 58(1);

(**3**) 1985 p. 72. Diwygiwyd adran 69(2) gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19), Atodlen 16, paragraff 75.

ystyr “costau CNC” (“*NRW costs*”) yw’r costau yr eir iddynt gan CNC wrth arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan y Rheoliadau hyn;

ystyr “cyfarwyddiad SRhE” (“*DMO instruction*”) yw cais ysgrifenedig oddi wrth y sefydliad rheoli ernes—

(a) y caniateir ei roi i gynhyrchydd cynllun cofrestredig penodedig, pob cynhyrchydd cynllun cofrestredig o ddisgrifiad penodedig neu bob cynhyrchydd cynllun cofrestredig;

(b) y caniateir ei roi i gyflenwr cynllun penodedig, pob cyflenwr cynllun o ddisgrifiad penodedig neu bob cyflenwr cynllun;

(c) a gaiff ofyn i wybodaeth benodedig gael ei darparu—

(i) ar ffurf benodedig neu mewn modd penodedig (neu’r ddau);

(ii) erbyn adeg benodedig neu ar ysbeidiau penodedig;

(iii) mewn cysylltiad â chyfnod penodedig;

(d) sy’n nodi’r rhesymau pam y mae’r wybodaeth benodedig yn ofynnol yn rhesymol at ddibenion y sefydliad rheoli ernes yn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â’r Cynllun;

ystyr “cyfeiriad priodol” (“*proper address*”) yw—

(a) cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa person,

(b) cyfeiriad person ar gyfer cyflwyno, os yw’n wahanol i’r cyfeiriad a grybwyllir yn paragraff (a), neu

(c) cyfeiriad y fangre lle y mae, neu y cynigir y bydd, man dychwelyd;

mae i “cyflenwr cynllun” (“*scheme supplier*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6;

mae i “cyfnod trosiannol” (“*transitional period*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 3(2);

ystyr “cyfrwng cyfathrebu o hirbell” (“*means of distance communication*”) yw—

(a) gwefan,

(b) meddalwedd cymhwysiad a ddyluniwyd ac a ddatblygwyd i’w defnyddio ar ddyfeisiau symudol, megis ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen, neu

(c) unrhyw ddull cyfathrebu arall y gellir ei ddefnyddio, heb fod y person sy’n cyflenwi eitem a’r person y’i cyflenwir iddo yn bresennol gyda’i gilydd yn gorfforol ar yr un pryd, er mwyn cwblhau contract gan y ddau barti ar gyfer cyflenwi eitem neu nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig;

ystyr “cyhoeddiad” (“*publication*”) yw catalog, papur newydd, cylchgrawn, cyfnodolyn, neu gyhoeddiad tebyg arall;

ystyr “cynhwysydd” (“*container*”) yw potel neu gan, gan gynnwys unrhyw label sydd wedi ei osod arni neu arno a’i chaead neu ei gaead neu fodd arall o’i chau neu ei gau, y cyflenwir diod ynddi neu ynddo ac sydd—

(a) wedi ei gwneud neu ei wneud yn gyfan gwbl neu’n bennaf o ddeunydd a gwmpesir,

(b) â chynhwysedd o 150 o fililitrau o leiaf ond dim mwy na 3 litr o hylif, ac

(c) yn debygol o gael ei defnyddio neu ei ddefnyddio unwaith yn unig, neu am gyfnod byr o amser, cyn cael ei thaflu neu ei daflu;

ystyr “cynhwysydd CC” (“*SP container*”), mewn perthynas â chynhyrchydd cynllun, yw’r cynhwysydd sy’n dod o ddiod gynhwysydd CC;

ystyr “cynhwysydd gwydr” (“*glass container*”) yw potel, gan gynnwys unrhyw label sydd wedi ei osod arni a’i chaead neu fodd arall o’i chau, y cyflenwir diod ynddi ac sydd—

(a) wedi ei gwneud yn gyfan gwbl neu’n bennaf o wydr,

(b) â chynhwysedd o 150 o fililitrau o leiaf ond dim mwy na 3 litr o hylif, ac

(c) yn debygol o gael ei defnyddio unwaith yn unig, neu am gyfnod byr o amser, cyn cael ei thaflu;

mae i “cynhyrchydd cynllun” (“*scheme producer*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6;

ystyr “cynhyrchydd cynllun cofrestredig” (“*registered scheme producer*”) yw cynhyrchydd cynllun sydd wedi ei gofrestru â’r sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 12;

ystyr “y Cynllun” (“*the Scheme*”) yw’r cynllun ernes a sefydlir o dan reoliad 10(1);

mae i “cynllun ernes” (“*deposit scheme*”) yr ystyr a roddir ym mharagraff 1(2) o Atodlen 8 i Ddeddf 2021;

ystyr “cynllun ernes a dychwelyd yr Alban” (“*Scottish deposit and return scheme*”) yw cynllun ernes a dychwelyd o dan adran 84 o Ddeddf Newid Hinsawdd (Yr Alban) 2009(**4**);

ystyr “cynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon” (“*England and Northern Ireland deposit scheme*”) yw cynllun ernes a sefydlir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr a Gogledd Iwerddon o dan adran 54 o Ddeddf 2021, ac Atodlen 8 iddi;

ystyr “cynllun gweithredol” (“*operational plan*”) yw cynllun a lunnir gan y sefydliad rheoli ernes ar gyfer gweinyddu’r Cynllun ac arfer swyddogaethau’r sefydliad rheoli ernes ac mae’n cynnwys unrhyw ddiwygiadau a wneir i’r cynllun o dan reoliad 53;

ystyr “cynllun tramor” (“*overseas scheme*”) yw cynllun sydd wedi ei sefydlu y tu allan i’r Deyrnas Unedig ac sy’n gyfystyr â chynllun ernes;

mae i “cynllun tramor penodedig” (“*specified overseas scheme*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 32(1);

ystyr “cynnyrch swmp isel cofrestredig” (“*registered low volume product*”) yw diod gynhwysydd sydd—

(a) ar yr adeg y caiff ei rhoi ar gael i’w gwerthu drwy fanwerthu yn y DU, yn rhan o linell diodydd wedi ei phacio ymlaen llaw sydd wedi ei chofrestru’n llinell swmp isel, neu

(b) yn achos diod gynhwysydd wedi ei llenwi yn unol ag archeb, mewn cynhwysydd sy’n dod o linell gynwysyddion sydd wedi ei chofrestru’n llinell swmp isel ar yr adeg pan gaiff y cynhwysydd ei lenwi yn unol ag archeb;

ystyr “darparwr gwasanaeth cymryd yn ôl” (“*take-back service provider*”) yw manwerthwr cynllun sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cymryd yn ôl;

ystyr “Deddf 2021” (“*the 2021 Act*”) yw Deddf yr Amgylchedd 2021;

ystyr “deunydd a gwmpesir” (“*in-scope material*”) yw—

(a) alwminiwm,

(b) gwydr,

(c) plastig polyethylen tereffthalad (PET), neu

(**4**) 2009 dsa 12. Diwygiwyd adran 84 gan Ddeddf yr Economi Gylchol (Yr Alban) 2024 (dsa 13), adran 10(3).

(d) dur;

mae i “diben elusennol” yr ystyr a roddir i “charitable purpose” yn adran 2(1) o Ddeddf Elusennau 2011(**5**);

mae i “diod” (“*drink*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(1);

ystyr “diod gynhwysydd” (“*container drink*”) yw diod mewn cynhwysydd sydd wedi ei gau’n sownd;

ystyr “diod gynhwysydd CC” (“*SP container drink*”), mewn perthynas â chynhyrchydd cynllun, yw—

(a) diod gynhwysydd sy’n cael ei gweithgynhyrchu gan y cynhyrchydd cynllun,

(b) diod gynhwysydd sy’n cael ei mewnforio gan y cynhyrchydd cynllun, neu

(c) diod gynhwysydd sydd wedi ei llenwi yn unol ag archeb gan y cynhyrchydd cynllun;

ystyr “diod gynhwysydd gwydr” (“*glass container drink*”) yw diod mewn cynhwysydd gwydr sydd wedi ei gau’n sownd;

ystyr “diod gynhwysydd wedi ei llenwi yn unol ag archeb” (“*filled to order container drink*”) yw diod gynhwysydd sydd wedi ei llenwi yn unol ag archeb;

ystyr “eitem ad-daliad” (“*refund item*”) yw’r cynhwysydd sy’n dod o eitem ernes;

ystyr “eitem cynllun yr Alban” (“*Scottish scheme item*”) yw cynhwysydd sy’n ddarostyngedig i gynllun ernes a dychwelyd yr Alban;

ystyr “eitem cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon” (“*England and Northern Ireland scheme item*”) yw cynhwysydd sy’n eitem ernes o dan gynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon;

ystyr “eitem cynllun tramor” (“*overseas scheme item*”) yw cynhwysydd sy’n ddarostyngedig i gynllun tramor penodedig;

ystyr “eitem ernes” (“*deposit item*”) yw diod gynhwysydd heblaw cynnyrch swmp isel cofrestredig;

ystyr “eitem ernes wydr” (“*glass deposit item*”) yw diod gynhwysydd gwydr heblaw cynnyrch swmp isel cofrestredig;

ystyr “eitem y gellir ei dychwelyd” (“*returnable item*”) yw—

(a) eitem cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon;

(b) eitem cynllun tramor;

(c) eitem cynllun yr Alban;

(d) eitem ad-daliad;

ystyr “elusen” (“*charity*”) yw corff a sefydlir at ddibenion elusennol yn unig (pa un a yw wedi ei gofrestru yn elusen mewn unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig ai peidio);

ystyr “enw brand” (“*brand name*”) yw’r prif enw yr adwaenir y ddiod wrtho;

ystyr “ernes” (“*deposit*”)—

(a) ac eithrio fel y darperir yn paragraff (b), mewn perthynas ag eitem ernes, yw ernes o swm a benderfynir o dan Bennod 4 o Ran 7;

(**5**) 2011 p. 25.

(b) mewn perthynas ag eitem ernes wydr yn ystod y cyfnod trosiannol, yw ernes o'r swm a bennir yn rheoliad 3(1)(d);

mae i "esemptiad man dychwelyd" ("*return point exemption*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 35(2);

mae i "ffi gofrestru" ("*registration fee*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 65(2);

mae i "y gofrestr CC" ("*the SP register*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 13(1);

mae i "gofynion cod" ("*code requirements*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 58(1);

ystyr "gwasanaeth cymryd yn ôl" ("*take-back service*") yw gwasanaeth y cesglir eitemau y gellir eu dychwelyd odano o dreulwyr o unrhyw le heblaw mangre y mae manwerthwr cynllun yn gwerthu ynddi nwyddau groser i dreulwyr;

ystyr "gweinyddwr cynllun interim" ("*interim scheme administrator*") yw Gweinidogion Cymru neu'r person a benodir o dan reoliad 83(4)(b);

ystyr "gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon" ("*England and Northern Ireland scheme administrator*") yw person sy'n arfer swyddogaethau gweinyddwr cynllun mewn perthynas â chynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon;

ystyr "gweinyddwr cynllun tramor" ("*overseas scheme administrator*") yw person sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynllun tramor penodedig, sy'n gyfystyr â swyddogaethau gweinyddwr cynllun cynllun ernes;

ystyr "gweinyddwr ernes yr Alban" ("*Scottish deposit administrator*") yw person sy'n arfer swyddogaethau gweinyddwr cynllun mewn perthynas â chynllun ernes a dychwelyd yr Alban;

ystyr "gweinyddwyr cynllun eraill" ("*other scheme administrators*") yw gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon, gweinyddwr ernes yr Alban ac unrhyw gweinyddwr cynllun tramor;

ystyr "gweithredwr man dychwelyd" ("*return point operator*") yw person sy'n gweithredu man dychwelyd;

mae i "gweithredwr man dychwelyd mandadol" ("*mandatory return point operator*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 35(5);

mae i "gwerthu drwy fanwerthu yn y DU" ("*UK retail sale*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 19(7);

mae i "gwybodaeth cynllun" ("*scheme information*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 27(8);

mae i "logo cynllun" ("*scheme logo*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 56(1)(a);

mae i "logo pecynwaith cynllun" ("*scheme packaging logo*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 56(1)(b);

ystyr "llenwi yn unol ag archeb" ("*fill to order*") yw llenwi cynhwysydd â diod mewn ymateb i archeb gan dreuliwr a chau'r cynhwysydd hwnnw'n sownd (ni waeth a yw'r treuliwr yn bresennol);

mae i "llinell diodydd wedi eu pacio ymlaen llaw" ("*pre-packed drink line*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 19(7), fel y'i darllenir gyda rheoliad 19(8);

mae i "llinell gynhyrchion" ("*product line*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 19(7);

mae i "llinell gynwysyddion" ("*container line*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 19(7), fel y'i darllenir gyda rheoliad 19(8);

mae i “llinell swmp isel” (“*low volume line*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 19(1);

ystyr “man dychwelyd” (“*return point*”) yw man yng Nghymru lle gall person ddychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd i weithredwr man dychwelyd a chael y swm dychwelyd ar gyfer yr eitemau hynny;

ystyr “man dychwelyd gwirfoddol” (“*voluntary return point*”) yw man dychwelyd nad yw’n fan dychwelyd mandadol;

ystyr “man dychwelyd mandadol” (“*mandatory return point*”) yw man dychwelyd y mae’n ofynnol i fanwerthwr a gwmpesir ei weithredu o dan reoliad 35;

mae “mangre” (“*premises*”) yn cynnwys tir, adeiladau, strwythurau symudol, cerbyd modur, llong neu gwch, trên, tram, cerbyd awyr neu hofrenfad;

ystyr “mangre a gwmpesir” (“*in-scope premises*”) yw unrhyw fangre nad yw’n—

(a) mangre MDM, neu

(b) mangre y mae’r sefydliad rheoli ernes yn gweithredu man dychwelyd ynddi (gweler rheoliad 39);

ystyr “mangre manwerthu cymysg” (“*mixed retail premises*”) yw mangre lle y mae manwerthwr cynllun yn cyflenwi eitemau ernes i’w hyfed yn y fangre honno a heb fod yn y fangre honno;

ystyr “mangre MDM” (“*MRP premises*”), mewn perthynas â manwerthwr nwyddau groser, yw mangre y mae’r manwerthwr yn gwerthu ynddi neu ohoni nwyddau groser i dreulwyr heblaw—

(a) cerbyd modur, llong neu gwch, trên, tram, cerbyd awyr neu hofrenfad, ar yr amod nad yw, ym mhob achos, y cerbyd modur, y llong neu’r cwch, y trên, y tram, y cerbyd awyr neu’r hofrenfad yn sefydlog yn barhaol,

(b) mangre y mae’r manwerthwr yn gwerthu ynddi neu ohoni eitemau ernes a nwyddau groser eraill i dreulwyr dim ond drwy beiriant gwerthu, neu

(c) mangre yfed lle y gwerthir;

ystyr “mangre wedi ei hoptio allan” (“*opted-out premises*”) yw mangre y mae cyflenwr cynllun wedi gwneud penderfyniad optio allan mewn cysylltiad â hi am y tro;

ystyr “mangre yfed lle y gwerthir” (“*on-sale premises*”) yw mangre lle y mae manwerthwr cynllun yn cyflenwi eitemau ernes nad ydynt ond i’w hyfed yn y fangre honno;

mae i “manwerthwr a gwmpesir” (“*in-scope retailer*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 35(3);

mae i “manwerthwr cynllun” (“*scheme retailer*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6;

ystyr “manwerthwr nwyddau groser” (“*groceries retailer*”) yw archfarchnad o unrhyw faint, siop nwyddau groser, siop gyfleustra, neu siop papurau newydd ond nid yw’n cynnwys—

(a) mangre lle mai gwerthu bwyd parod i’w fwyta heb fod yn y fangre fel rhan o wasanaeth cludfwyd yw’r prif weithgaredd busnes;

(b) siop goffi sy’n gwerthu bwyd a diod i’w fwyta neu i’w hyfed yn y fangre a heb fod yn y fangre;

(c) lleoliad lletygarwch megis bar, bwyty, caffi neu glwb sy’n gwerthu bwyd a diod i’w fwyta neu i’w hyfed yn y fangre;

(d) atyniad dan do megis arcêd ddiddanu, neuadd fingo, amgueddfa, oriel neu sinema sy'n gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed heb fod yn y fangre neu yn y fangre;

(e) cyfleuster hamdden megis canolfan gymunedol, canolfan chwaraeon neu gampfa sy'n gwerthu bwyd a diod i'w bwyta neu i'w hyfed heb fod yn y fangre neu yn y fangre;

(f) unrhyw fangre fanwerthu sy'n gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed heb fod yn y fangre neu yn y fangre, sydd o fewn tir—

(i) ysgol o fewn yr ystyr a roddir i "school" yn adran 4 o Ddeddf Addysg 1996(**6**);

(ii) ysgol feithrin o fewn yr ystyr a roddir i "nursery school" yn adran 6 o Ddeddf Addysg 1996;

(iii) sefydliad yn y sector addysg bellach neu addysg uwch o fewn yr ystyr a roddir i "institutions within the further education sector" neu "institutions within the higher education sector" yn adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**7**);

(iv) ysbyty o fewn yr ystyr a roddir i "hospital" yn adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**8**).

mae i "mewnforiwr" ("*importer*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 6;

ystyr "nwyddau groser" ("*groceries*") yw un neu ragor o'r canlynol—

(a) bwyd sy'n addas i'w fwyta gan bobl;

(b) eitemau ernes neu ddiodydd eraill;

(c) bwyd anifeiliaid anwes;

(d) cynhyrchion glanhau;

(e) cynhyrchion ymolchi a nwyddau cartref, ond heb gynnwys petrol, dillad, cynhyrchion DIY, cynhyrchion fferyllol, papurau newydd, cylchgronau a llyfrau, cardiau cyfarch, CDau, DVDau, tapiau fideo a sain, teganau, planhigion a blodau, persawr a chynhyrchion cosmetig, dyfeisiau trydanol, nwyddau cegin, offer garddio, tybaco a chynhyrchion tybaco;

ystyr "nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig" ("*connected goods or services*") yw unrhyw nwyddau neu wasanaethau sydd, pan fydd treuliwr yn eu prynu neu pan ddeuant i'w law, yn arwain at ddarparu diod gynhwysydd am ddim i'r treuliwr;

ystyr "pecyn aml-gynnwys" ("*multipack*") yw unrhyw becynwaith sy'n cynnwys (pa un ai yn eu hamgáu yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ddiodydd cynhwysydd CC a gyflwynir, neu y bwriedir iddynt gael eu cyflwyno, ar gyfer eu cyflenwi i dreulwyr;

ystyr "pecyn aml-gynnwys cynllun" ("*scheme multipack*") yw pecyn aml-gynnwys sy'n cynnwys eitemau ernes (pa un a yw'n cynnwys unrhyw eitemau eraill ai peidio);

ystyr "peiriant gwerthu" ("*vending machine*") yw peiriant awtomatig ar gyfer cyflenwi eitemau ernes (pa un ai ar eu pennau eu hunain neu ynghyd â chynhyrchion eraill);

(**6**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 4 gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), Deddf Addysg 2002 (p. 32), Deddf Gofal Plant 2006 (p. 21), Deddf Addysg 2011 (p. 21), Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4) ac O.S. 2010/1080 a 2019/1027.

(**7**) 1992 p. 13. Diwygiwyd adran 91 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (dccc 1), Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1) ac O.S. 2019/1027.

(**8**) 2006 p. 42, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

mae i “penderfyniad optio allan” (“*opt-out decision*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 29(2);

ystyr “perchennog brand” (“*brand owner*”), mewn perthynas â diod gynhwysydd, yw’r person o dan ei enw, ei nod masnach neu ei farc gwahaniaethol arall y mae’r ddiod gynhwysydd honno yn cael ei marchnata neu ei chynnig fel arall ar gyfer ei chyflenwi yng Nghymru;

mae i “sefydliad rheoli ernes” (“*deposit management organisation*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 51(1);

ystyr “siop gyfleustra” (“*convenience store*”) yw siop fanwerthu sy’n cynnig dewis cyfyngedig o eitemau sylfaenol gan gynnwys bwyd, diodydd a chynhyrchion cartref wedi eu pecynnu ac sydd ar agor am oriau hir er cyfleustra treulwyr sy’n byw yn bennaf yn ei chyffiniau;

ystyr “swm ad-daliad yr Alban” (“*Scottish refund amount*”), mewn perthynas ag eitem cynllun yr Alban, yw swm sy’n hafal i’r ernes sy’n daladwy am yr eitem honno yn unol â chynllun ernes a dychwelyd perthnasol yr Alban;

ystyr “swm ad-daliad Lloegr a Gogledd Iwerddon” (“*England and Northern Ireland refund amount*”), mewn perthynas ag eitem cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon, yw swm sy’n hafal i’r ernes sy’n daladwy am yr eitem honno o dan gynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon;

mae i “swm ad-daliad tramor” (“*overseas refund amount*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 33(1);

ystyr “swm dychwelyd” (“*return amount*”) yw—

(a) mewn perthynas ag eitem cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon, swm ad-daliad Lloegr a Gogledd Iwerddon;

(b) mewn perthynas ag eitem cynllun tramor, y swm ad-daliad tramor;

(c) mewn perthynas ag eitem cynllun yr Alban, swm ad-daliad yr Alban;

(d) mewn perthynas ag eitem ad-daliad, ad-daliad;

ystyr “swyddogaeth orfodi berthnasol” (“*relevant enforcement function*”) yw swyddogaeth CNC o dan Ran 9 mewn cysylltiad ag unrhyw weithred neu anweithred gan y sefydliad rheoli ernes;

ystyr “swyddogaeth SRhE” (“*DMO function*”) yw swyddogaeth a roddir i’r sefydliad rheoli ernes gan y Cynllun neu odano;

mae i “taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd” (“*handling payment*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 69(1);

mae i “targedau casglu” (“*collection targets*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 84(1);

ystyr “treuliwr” (“*consumer*”) yw person sy’n gweithredu ac eithrio yng nghwrs busnes sy’n prynu neu’n cael nwyddau neu wasanaethau at ddefnydd personol yn unig;

ystyr “Tribiwnlys yr Haen Gyntaf” (“*First-tier Tribunal*”) yw Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a sefydlwyd o dan adran 3(1) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**9**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at faint pecyn aml-gynnwys yn gyfeiriad at nifer y diodydd gynhwysydd CC yn y pecyn aml-gynnwys.

(**9**) 2007 p. 15, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, nid oes gwahaniaeth—

(a) a fwriedir cyflwyno eitemau ernes ar gyfer eu cyflenwi i dreulwyr mewn pecynnau aml-gynnwys cynllun neu fel eitemau sengl;

(b) a gyflwynir eitemau ernes ar gyfer eu cyflenwi i dreulwyr mewn pecynnau aml-gynnwys cynllun neu fel eitemau sengl;

(c) a gyflenwir eitemau ernes i dreulwyr mewn pecynnau aml-gynnwys cynllun neu fel eitemau sengl.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae person yn gweithredu yng nghwrs busnes os yw'n gweithredu yng nghwrs arferol cynnal masnach, busnes, crefft neu broffesiwn, ac mae unrhyw gyfeiriad at berson sy'n gweithredu ac eithrio yng nghwrs busnes i'w ddehongli yn unol â hynny.

(5) Pan fo cyflenwr cynllun—

(a) yn cynnig cyflenwi eitemau ernes i'w hyfed ar unwaith mewn unrhyw fangre, a

(b) yn agor y cynwysyddion perthnasol cyn cyflenwi'r diodydd (pa un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn y cynwysyddion hynny i'r personau sydd wedi eu harchebu,

mae'r cynwysyddion i'w trin fel eu bod wedi eu cau'n sownd pan y'i cyflenwir (ac yn unol â hynny maent yn "eitemau ernes").

(6) Mae unrhyw gyfeiriad at "yfed diod" (sut bynnag y'i mynegir) yn cynnwys yfed y ddiod sy'n deillio o baratoi hylif fel y disgrifir yn rheoliad 4(2).

(7) Mae cyfeiriad at berson yn cyflenwi diodydd cynhwysydd "i'w hyfed ar unwaith" mewn mangre yn cynnwys pan fo'r diodydd cynhwysydd yn cael eu cyflenwi i'w hyfed mewn ardal sy'n agos at y fangre honno—

(a) pan fo seddau ar gael i gwsmeriaid y person hwnnw (pa un ai gan y person hwnnw neu gan berson arall), neu

(b) y mae cwsmeriaid y person yn ei defnyddio fel arfer ar gyfer yfed diodydd a gyflenwir gan y person hwnnw.

(8) Mae cyfeiriad at ofyniad bod rhaid i gais, cymeradwyaeth, awdurdodiad, cyfarwyddyd, penderfyniad, ymgymeriad neu hysbysiad, gan gynnwys tynnu hysbysiad yn ôl neu ei ddiwygio, cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau, neu ddarparu gwybodaeth, fod yn ysgrifenedig ("hysbysiadau ysgrifenedig") yn cynnwys hysbysiadau ysgrifenedig a anfonir drwy unrhyw gyfrwng electronig.

(9) Pan fo person yn darparu cyfeiriad e-bost, caniateir anfon dogfennau i'r cyfeiriad e-bost hwnnw o dan y Rheoliadau hyn.

(10) Mae hysbysiad neu ddogfen arall (y "ddogfen") a roddir gan Weinidogion Cymru, CNC, y sefydliad rheoli ernes neu awdurdod pwysau a mesurau lleol i unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn i'w drin neu i'w thrin fel pe bai wedi dod i law—

(a) os gadewir y ddogfen yn y cyfeiriad priodol, ar y diwrnod busnes ar ôl y diwrnod y'i gadewir yn y cyfeiriad hwnnw;

(b) os anfonir y ddogfen drwy'r post i gyfeiriad priodol yn y Deyrnas Unedig, ar yr ail ddiwrnod busnes ar ôl ei hanfon;

(c) os anfonir y ddogfen drwy gyfrwng electronig, ar y diwrnod busnes ar ôl y diwrnod y trosglwyddir y ddogfen.

RHAN 3

Sefydlu Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Ddiodydd

Sefydlu Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd yng Nghymru

10.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu yng Nghymru gynllun ernes mewn cysylltiad â chynwysyddion y cyflenwir diodydd ynddynt, at ddibenion—

(a) cynnal, hyrwyddo a sicrhau cynnydd mewn ailddefnyddio eitemau ad-daliad ac ailgylchu deunyddiau, a

(b) lleihau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon.

(2) O dan y Cynllun—

(a) mae person y mae cyflenwr cynllun yn cyflenwi eitem ernes iddo yn talu ernes i'r cyflenwr cynllun, a

(b) mae gan berson sy'n darparu eitem y gellir ei dychwelyd i gasglwr cynllun hawlogaeth i gael y swm dychwelyd am yr eitem honno wedi ei dalu iddo gan y casglwr cynllun.

(3) Mae paragraff (2)(a) yn ddarostyngedig i reoliadau 3(1)(d) a 29 ac mae paragraff (2)(b) yn ddarostyngedig i reoliad 11.

Amgylchiadau pan nad oes gan berson hawlogaeth i swm dychwelyd am eitem y gellir ei dychwelyd

11.—(1) Nid oes gan berson sy'n darparu eitem y gellir ei dychwelyd i gasglwr cynllun hawlogaeth i gael swm dychwelyd am yr eitem honno wedi ei dalu iddo os oes gan y casglwr cynllun esgus rhesymol dros beidio â derbyn yr eitem y gellir ei dychwelyd.

(2) Mae'r amgylchiadau pan fo gan gasglwr cynllun esgus rhesymol dros beidio â derbyn eitem y gellir ei dychwelyd yn cynnwys—

(a) ni all y casglwr cynllun nodi'r cynhwysydd yn eitem y gellir ei dychwelyd (gan gynnwys pan na fo'n dangos logo cynllun neu god dychwelyd cynllun);

(b) mae'r eitem y gellir ei dychwelyd yn frwnt;

(c) nid yw'r eitem y gellir ei dychwelyd yn wag;

(d) nid yw'r eitem y gellir ei dychwelyd yn gyfan;

(e) mae'r eitem y gellir ei dychwelyd yn gynhwysydd ar gyfer diod nad yw'r casglwr cynllun yn ei chyflenwi, neu na fyddai'n ei chyflenwi, am resymau ffydd neu gred y casglwr cynllun;

(f) pan fo'r casglwr cynllun yn fanwerthwr cynllun, mae'r person sy'n darparu'r eitem y gellir ei dychwelyd yn ceisio dychwelyd nifer o eitemau y gellir eu dychwelyd sy'n anghymesur uwch na nifer cyfartalog yr eitemau ernes y byddai'r manwerthwr cynllun yn eu cyflenwi i dreuliwr mewn un trafodiad.

(3) Mae eitem y gellir ei dychwelyd i'w thrin fel ei bod yn gyfan o dan baragraff (2)(d) ni waeth—

(a) nad yw'r caead neu eitem debyg arall a ddefnyddir i'w chau yn cael ei ddychwelyd neu ei dychwelyd gyda'r eitem y gellir ei dychwelyd, neu

(b) a yw'r caead neu eitem debyg arall a ddefnyddir i'w chau yn cael ei ddychwelyd neu ei dychwelyd gyda'r eitem y gellir ei dychwelyd ond nid yw ynghlwm wrthi.

(4) Ni chaiff casglwr cynllun wrthod derbyn eitem y gellir ei dychwelyd ar y sail yn unig ei bod yn ddiod nad yw'r gweithredwr man dychwelyd yn ei chyflenwi, neu, pe bai'r gweithredwr man dychwelyd yn gyflenwr cynllun, na fyddai'n ei chyflenwi, ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (2)(e).

RHAN 4

Cynhyrchwr cynllun

Pennod 1

Cofrestru, gwybodaeth a materion cysylltiedig

Gofyniad i gynhyrchwyr cynllun fod wedi eu cofrestru i gyflenwi diodydd cynhwysydd CC

12.—(1) Ni chaiff cynhyrchydd cynllun gyflenwi diodydd cynhwysydd CC oni bai bod y cynhyrchydd cynllun wedi ei gofrestru â'r sefydliad rheoli ernes yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig.

(2) Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn cynnwys darpariaeth ynghylch cofrestru cynhyrchwyr cynllun.

Cofrestr o gynhyrchwyr cynllun cofrestredig

13.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gyhoeddi a chynnal cofrestr o gynhyrchwyr cynllun cofrestredig ("y gofrestr CC").

(2) Rhaid i'r cofnod yn y gofrestr CC am gynhyrchydd cynllun cofrestredig nodi—

(a) pa un a yw'r cynhyrchydd cynllun yn berchennog brand ai peidio;

(b) pa un a yw'r cynhyrchydd cynllun yn fewnforiwr ai peidio;

(c) os yw'r cynhyrchydd cynllun yn berchennog brand neu'n fewnforiwr (neu'r ddau), enw brand pob diod y mae'r cynhyrchydd cynllun yn berchennog brand arno neu'n fewnforiwr ar ei gyfer;

(d) pa un a yw'r cynhyrchydd cynllun yn llenwi yn unol ag archeb ai peidio;

(e) y dyddiad y caniatawyd cais cofrestru'r cynhyrchydd cynllun;

(f) pa un a yw'r cynhyrchydd cynllun yn cynhyrchu, yn mewnforio neu'n llenwi yn unol ag archeb unrhyw gynhyrchion swmp isel cofrestredig ac, os felly, beth yw'r cynhyrchion hynny a'r dyddiad y cofrestrwyd y llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel.

(3) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) ychwanegu cofnod am gynhyrchydd cynllun cofrestredig at y gofrestr CC cyn gynted y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i gais cofrestru'r cynhyrchydd cynllun gael ei ganiatáu;

(b) diweddaru'r cofnod am gynhyrchydd cynllun cofrestredig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cynhyrchydd gofrestru llinell swmp isel.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) sicrhau bod y gofrestr CC ar gael i aelodau o'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol, yn rhad ac am ddim, a

(b) caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gael copïau o gofnodion yn y gofrestr CC ar ôl talu ffi resymol.

Gofyniad i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig gadw cofnodion ynghylch cyflenwi diodydd cynhwysydd CC

14.—(1) Rhaid i gynhyrchydd cynllun cofrestredig—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gyflenwi diod gynhwysydd CC, gwneud cofnod o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) ar gyfer y ddiod gynhwysydd CC honno, a

(b) cadw'r cofnod hwnnw am gyfnod o 7 mlynedd gan ddechrau â'r diwrnod y'i gwneir.

(2) Yr wybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) yw—

(a) y deunydd a gwmpesir y mae'r cynhwysydd CC wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf ohono;

(b) cynhwysedd y cynhwysydd CC;

(c) os bwriedir cyflwyno'r ddiod gynhwysydd CC ar gyfer ei chyflenwi i dreulwyr mewn pecyn aml-gynnwys cynllun sy'n cynnwys dwy neu ragor o ddiodydd o'r fath, maint y pecyn aml-gynnwys cynllun;

(d) pa un a yw'r ddiod gynhwysydd CC yn gynnyrch swmp isel cofrestredig.

Sefydliad rheoli ernes: pŵer i gael gwybodaeth gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig

15.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes gyfarwyddo cynhyrchydd cynllun cofrestredig i ddarparu iddo yr wybodaeth honno a bennir mewn cyfarwyddiad SRhE.

(2) Rhaid i gynhyrchydd cynllun cofrestredig sy'n cael cyfarwyddiad SRhE gydymffurfio ag ef erbyn y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddiad SRhE (y "dyddiad cydymffurfio").

(3) Pan fo cynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi darparu, mewn ymateb i gyfarwyddiad SRhE, wybodaeth y mae'r sefydliad rheoli ernes yn credu'n rhesymol ei bod yn anghywir, yn anwir neu'n gamarweiniol, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y dyddiad cydymffurfio, hysbysu CNC a darparu'r holl wybodaeth berthnasol a'r holl ddogfennau perthnasol i CNC.

(4) Pan fo cynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi darparu, mewn ymateb i gyfarwyddiad SRhE, wybodaeth y mae'r sefydliad rheoli ernes yn credu'n rhesymol ei bod yn anghyflawn, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y dyddiad cydymffurfio, hysbysu CNC a darparu'r holl wybodaeth berthnasol a'r holl ddogfennau perthnasol i CNC.

(5) Pan fo cynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi methu ag ymateb i gyfarwyddiad SRhE erbyn y dyddiad cydymffurfio, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y dyddiad cydymffurfio, hysbysu CNC a darparu'r holl wybodaeth berthnasol a'r holl ddogfennau perthnasol i CNC.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn cyfarwyddiad SRhE.

Personau sy'n peidio â bod yn gynhyrchwyr cynllun cofrestredig: canslo cofrestriad

16. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn cynnwys darpariaeth ynghylch canslo cofrestriad person â'r sefydliad rheoli ernes yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig.

Personau sy'n peidio â bod yn gynhyrchwyr cynllun cofrestredig: dyletswyddau a gofynion parhaus i gofnodi a darparu gwybodaeth

17.—(1) Mae'r dyletswyddau a bennir ym mharagraff (2) yn parhau i fod yn gymwys i gynhyrchydd ymadawol ar y dyddiad canslo cofrestriad ac ar ôl y dyddiad hwnnw, i'r graddau y maent yn ymwneud â diodydd cynhwysydd CC a gyflenwyd gan y cynhyrchydd ymadawol cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Y dyletswyddau a grybwyllir ym mharagraff (1) yw'r dyletswyddau yn—

(a) rheoliad 14(1)(b),

(b) rheoliad 15(2) (pa un yw'r cyfarwyddiad SRhE wedi ei roi cyn, ar neu ar ôl y dyddiad canslo cofrestriad), ac

(c) rheoliad 23.

(3) Caiff y sefydliad rheoli ernes gyfarwyddo cynhyrchydd ymadawol i ddarparu iddo unrhyw wybodaeth a bennir mewn cyfarwyddiad SRhE ar y dyddiad canslo cofrestriad neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

(4) Ni chaiff y sefydliad rheoli ernes ond pennu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion a oedd yn codi, neu ddiodydd cynhwysydd CC a gyflenwyd, cyn y dyddiad canslo cofrestriad.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, mae unrhyw gyfeiriad at gynhyrchydd cynllun cofrestredig yn rheoliadau 14, 15 a 23 (sut bynnag y'i mynegir) i'w ddarllen pe bai'n cynnwys cyfeiriad at y cynhyrchydd ymadawol.

(6) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 18—

ystyr "cynhyrchydd ymadawol" ("*outgoing producer*") yw person y mae ei gofrestriad yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi ei ganslo gan y sefydliad rheoli ernes o dan Ran 2 o Atodlen 1;

ystyr "dyddiad canslo cofrestriad" ("*registration cancellation date*") yw'r diwrnod y mae canslo cofrestriad cynhyrchydd ymadawol yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig yn cymryd effaith.

Personau sy'n peidio â bod yn gynhyrchwyr cynllun cofrestredig: diweddaru'r gofrestr CC

18. Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) dileu o'r gofrestr CC y cofnod sy'n ymwneud â chynhyrchydd ymadawol, a

(b) cyhoeddi hysbysiad o'r newid i'r gofrestr CC yn y modd y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn dwyn y newid hwnnw i sylw cyflenwyr cynllun.

Pennod 2

Llinellau swmp isel

Cofrestru llinell gynhyrchion yn "llinell swmp isel"

19.—(1) Caiff cynhyrchydd cynllun cofrestredig llinell gynhyrchion wneud cais i gofrestru'r llinell honno â'r sefydliad rheoli ernes yn llinell swmp isel mewn perthynas ag—

(a) y flwyddyn gynllun gyntaf, os na fydd nifer y cynwysyddion yn y llinell gynhyrchion i'w gwerthu drwy fanwerthu yn y DU yn y flwyddyn gynllun honno yn fwy na 6,250;

(b) unrhyw flwyddyn gynllun arall, os na fydd nifer y cynwysyddion yn y llinell gynhyrchion i'w gwerthu drwy fanwerthu yn y DU yn y flwyddyn gynllun honno yn fwy na 5,000.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) ("cais LlSI")—

(a) nodi'r flwyddyn gynllun y mae'n ymwneud â hi, a

(b) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd, a chynnwys yr wybodaeth, a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes.

(3) Pan fo'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn bartneriaeth, rhaid i'r cais LlSI, os caiff ei wneud gan un partner, gael ei wneud gan y partner hwnnw ar ran yr holl bartneriaid.

(4) Pan ddaw cais LlSI i law'r sefydliad rheoli ernes, rhaid iddo—

(a) caniatáu'r cais a chofrestru'r llinell gynhyrchion berthnasol, os yw wedi ei fodloni na fydd uwchlaw'r trothwy perthnasol ym mharagraff (1);

(b) fel arall, gwrthod y cais.

(5) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes hysbysu'r ceisydd, yn ysgrifenedig, am ei benderfyniad.

(6) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (5)—

(a) pan ganiateir y cais LlSI, nodi'r flwyddyn gynllun y cofrestrir y llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel mewn perthynas â hi;

(b) pan wrthodir y cais LlSI, nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw a hysbysu'r ceisydd am ei hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu ei benderfyniad.

(7) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "gwerthu drwy fanwerthu yn y DU" ("*UK retail sale*") yw cyflenwi drwy werthu i dreulwyr yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "llinell diodydd wedi eu pacio ymlaen llaw" ("*pre-packed drink line*") yw grŵp o gynwysyddion y mae diod benodol yn cael ei rhoi ar gael ynddynt mewn blwyddyn gynllun ac sydd—

(a) wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r un deunydd a gwmpesir, a

(b) â'r un cynhwysedd;

ystyr "llinell gynhyrchion" ("*product line*") yw llinell diodydd wedi eu pacio ymlaen llaw neu linell gynwysyddion;

ystyr "llinell gynwysyddion" ("*container line*") yw grŵp o gynwysyddion sydd wedi eu llenwi yn unol ag archeb â diod benodol mewn blwyddyn gynllun ac sydd—

(a) wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r un deunydd a gwmpesir, a

(b) â'r un cynhwysedd.

(8) At ddiben y diffiniadau o "llinell gynwysyddion" a "llinell diodydd wedi eu pacio ymlaen llaw" nid oes gwahaniaeth—

(a) pa un a yw golwg allanol y cynwysyddion yr un peth ai peidio;

(b) pa un a gaiff yr holl ddiodydd eu gwerthu, neu a fwriedir eu gwerthu, i dreulwyr yn y Deyrnas Unedig mewn pecynnau aml-gynnwys ai peidio;

(c) pa un a gaiff y cynhyrchion eu cynhyrchu mewn mwy nag un cam cynhyrchu neu, pan gânt eu mewnforio, a gânt eu mewnforio ar wahanol adegau.

Canslo cofrestriad llinell gynhyrchion yn "llinell swmp isel"

20.—(1) Mae cofrestriad llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel o dan reoliad 19 yn peidio â chael effaith—

(a) ar ddiwedd y flwyddyn gynllun y mae'r llinell wedi ei chofrestru'n llinell swmp isel mewn perthynas â hi, neu

(b) os yw'n gynharach, ar ddiwedd y diwrnod y mae'r sefydliad rheoli ernes yn canslo'r cofrestriad.

(2) Rhaid i gynhyrchydd cynllun cofrestredig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, mewn perthynas â chofrestru llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel, hysbysu'r sefydliad rheoli ernes—

(a) bod y cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn bwriadu mynd uwchlaw'r trothwy perthnasol yn rheoliad 19(1) ("y trothwy nifer") mewn perthynas â'r llinell gynhyrchion honno, neu

(b) bod y cynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi mynd uwchlaw'r trothwy nifer mewn perthynas â'r llinell gynhyrchion honno.

(3) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ganslo cofrestriad llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel cyn diwedd y flwyddyn gynllun berthnasol, os yw'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn hysbysu'r sefydliad rheoli ernes o dan baragraff (2)(a) neu (b);

(b) caiff ganslo cofrestriad llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel cyn diwedd y flwyddyn gynllun berthnasol os yw wedi ei fodloni yr aed uwchlaw'r trothwy nifer mewn perthynas â'r llinell gynhyrchion honno, ac eithrio yn dilyn hysbysiad o dan baragraff (2)(b).

(4) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig canslo cofrestriad llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel o dan baragraff (3)(b), rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad ("hysbysiad cynnig") i'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig perthnasol.

(5) Rhaid i hysbysiad cynnig fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi'r rhesymau pam y mae'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig canslo'r cofrestriad,

(b) pennu'r diwrnod y mae'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig canslo cofrestriad y llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel, ac

(c) pennu—

(i) ar ba ffurf ac ym mha fodd y caniateir cyflwyno unrhyw sylwadau i'r sefydliad rheoli ernes ynghylch y cynnig, a

(ii) y cyfnod y mae rhaid cyflwyno'r sylwadau hynny ynddo, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r hysbysiad cynnig yn dod i law'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig.

(6) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir ar y ffurf ac yn y modd, ac o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (5)(c);

(b) caiff ystyried unrhyw sylwadau nas cyflwynir ar y ffurf ac yn y modd neu o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (5)(c).

(7) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y cynhyrchydd cynllun cofrestredig, beidio â chanslo cofrestriad y llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig o'i benderfyniad.

(8) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes roi hysbysiad i'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig o ganslo cofrestriad y llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel ("hysbysiad canslo LlSI")—

(a) pan fo'n penderfynu, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y cynhyrchydd cynllun cofrestredig, ganslo cofrestriad y llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel, neu

(b) pan na fo'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn cyflwyno unrhyw sylwadau i'r sefydliad rheoli ernes.

(9) Rhaid i hysbysiad canslo LlSI fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo nodi—

(a) bod cofrestriad y llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel yn cael ei ganslo a rhoi'r rhesymau pam,

(b) y dyddiad y bydd canslo'r cofrestriad yn cymryd effaith, a

(c) bod gan y cynhyrchydd cynllun cofrestredig hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu ei benderfyniad.

(10) Os yw'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn arfer yr hawl y cyfeirir ati ym mharagraff (9)(c), ni chaniateir i'r hysbysiad canslo LlSI gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

(11) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan baragraff (9)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a bennir yn rheoliad 79(1)(b).

Cofrestru llinell gynhyrchion yn "llinell swmp isel": diweddaru'r gofrestr CC

21.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) diweddaru'r cofnod sy'n ymwneud â chynhyrchydd cynllun cofrestredig yn y gofrestr CC yn unol â pharagraff (2) os—

(i) yw unrhyw linell gynhyrchion gan y cynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi ei chofrestru'n llinell swmp isel mewn perthynas â blwyddyn gynllun, neu

(ii) caiff cofrestriad unrhyw linell gynhyrchion yn llinell swmp isel ei ganslo cyn diwedd y flwyddyn gynllun berthnasol, a

(b) cyhoeddi hysbysiad o'r newid i'r gofrestr CC yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol er mwyn dwyn y newid i sylw cyflenwyr cynllun.

(2) Rhaid i'r cofnod am gynhyrchydd cynllun cofrestredig nodi—

(a) pob blwyddyn gynllun y mae un o linellau cynhyrchion y cynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi ei chofrestru'n llinell swmp isel mewn perthynas â hi, a

(b) os caiff cofrestriad y llinell gynhyrchion honno'n llinell swmp isel ei ganslo cyn diwedd blwyddyn gynllun, y dyddiad y mae'r canslo hwnnw yn cymryd effaith.

Pennod 3

Taliadau i'r sefydliad rheoli ernes

Ffi gofrestru cynhyrchydd cynllun cofrestredig

22. Rhaid i gynhyrchydd cynllun cofrestredig dalu unrhyw ffi gofrestru, neu unrhyw randaliad o'r ffi honno, i'r sefydliad rheoli ernes.

Ernesau

23.—(1) Rhaid i gynhyrchydd cynllun cofrestredig dalu i'r sefydliad rheoli ernes swm sy'n hafal i'r ernes am bob eitem ernes a gyflenwir gan y cynhyrchydd cynllun i unrhyw berson.

(2) Rhaid i'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig dalu unrhyw swm o dan baragraff (1)—

(a) erbyn y dyddiad, neu ar yr ysbeidiau, a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes;

(b) drwy'r cyfrwng a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes.

RHAN 5

Cyflenwyr cynllun

Gwaharddiad ar gyflenwi eitemau ernes gan gynhyrchydd cynllun nad yw wedi ei gofrestru â'r sefydliad rheoli ernes

24. Ni chaiff cyflenwr cynllun gyflenwi eitem ernes oni bai bod cynhyrchydd cynllun yr eitem ernes—

(a) yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig, neu

(b) pan fo cofrestriad y cynhyrchydd cynllun yn cael ei ganslo o dan baragraff 5 neu 6 o Atodlen 1, yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig ar yr adeg y rhoddwyd yr eitem ernes ar gael ar gyfer ei chyflenwi i'r cyflenwr cynllun.

Labelu eitemau ernes a phecynnau aml-gynnwys cynllun

25.—(1) Ni chaiff cyflenwr cynllun gyflenwi eitem ernes, ni waeth a gyflenwir yr eitem ernes, neu a fwriedir ei chyflenwi, i dreulwyr mewn pecyn aml-gynnwys cynllun, oni bai bod yr eitem ernes yn dangos—

(a) y logo eitem sy'n ofynnol, a

(b) cod dychwelyd cynllun.

(2) Ni chaiff cyflenwr cynllun gyflenwi pecyn aml-gynnwys cynllun oni bai ei fod yn dangos y logo pecynwaith sy'n ofynnol (os oes un).

(3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo—

(a) logo pecynwaith cynllun yn cael ei ddyroddi am y tro cyntaf ar ôl 1 Hydref 2027, a

(b) y pecyn aml-gynnwys cynllun wedi ei roi ar gael ar gyfer ei gyflenwi am y tro cyntaf cyn y dyddiad a bennir at ddibenion rheoliad 56(4) mewn perthynas â'r logo hwnnw.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "logo eitem sy'n ofynnol" ("*required item logo*") mewn perthynas ag eitem ernes yw—

(a) y logo cynllun, neu

(b) os cafodd yr eitem ernes ei chynhyrchu neu ei mewnforio cyn y dyddiad a bennir o dan reoliad 56(4) mewn perthynas â'r logo cynllun, y logo a ddyroddwyd o dan reoliad 56 pan gafodd yr eitem ernes ei chynhyrchu neu ei mewnforio;

ystyr "logo pecynwaith sy'n ofynnol" ("*required packaging logo*") mewn perthynas â phecyn aml-gynnwys cynllun yw—

(a) y logo pecynwaith cynllun, neu

(b) os rhoddwyd y pecyn aml-gynnwys cynllun ar gael ar gyfer ei gyflenwi am y tro cyntaf yng Nghymru cyn y dyddiad a bennir o dan reoliad 56(4) mewn perthynas â'r logo pecynwaith cynllun, y logo a ddyroddwyd o dan reoliad 56 pan roddwyd y pecyn aml-gynnwys cynllun ar gael ar gyfer ei gyflenwi am y tro cyntaf yng Nghymru.

Labelu cynhyrchion swmp isel cofrestredig

26.—(1) Ni chaiff person gyflenwi—

(a) cynnyrch swmp isel cofrestredig, neu

(b) diod gynhwysydd a oedd yn gynnyrch swmp isel cofrestredig ar yr adeg y cafodd ei rhoi ar gael ar gyfer ei chyflenwi yng Nghymru gan y cynhyrchydd cynllun cofrestredig, pan fo cofrestriad llinell swmp isel wedi peidio â chael effaith o dan reoliad 20,

os yw'r ddiod gynhwysydd yn dangos logo cynllun neu god dychwelyd cynllun (neu'r ddau).

(2) At ddibenion paragraff (1) nid oes gwahaniaeth a fwriedir cyflenwi diod gynhwysydd fel eitem sengl neu mewn pecyn aml-gynnwys.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os cofrestrwyd llinell gynhyrchion, y mae'r ddiod gynhwysydd yn rhan ohoni, yn llinell swmp isel ar ôl i'r ddiod gynhwysydd gael ei chynhyrchu neu ei mewnforio.

(4) Ni chaiff person gyflenwi pecyn aml-gynnwys sy'n cynnwys cynhyrchion swmp isel cofrestredig ond dim eitemau ernes os yw'r pecyn aml-gynnwys yn dangos y logo pecynwaith cynllun (os oes un).

(5) Ond nid yw paragraff (4) yn gymwys os nad yw'r pecyn aml-gynnwys ond yn cynnwys diodydd cynhwysydd CC a gofrestrwyd yn gynhyrchion swmp isel ar neu ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y pecyn aml-gynnwys ar gael ar gyfer ei gyflenwi am y tro cyntaf yng Nghymru.

Dyletswydd i arddangos gwybodaeth am y Cynllun

27.—(1) Rhaid i gyflenwr cynllun ddarparu neu arddangos, neu ddarparu i arddangos, yr wybodaeth cynllun, yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i gyflenwr cynllun sy'n cynnig cyflenwi eitemau ernes neu nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig ar lafar (er enghraifft, dros y ffôn)—

(a) darparu'r wybodaeth cynllun i berson sy'n archebu eitemau ernes neu nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig, cyn cymryd taliad am yr eitemau, nwyddau neu wasanaethau hynny, a

(b) os gofynnir amdani, roi'r wybodaeth cynllun yn ysgrifenedig i'r person hwnnw.

(3) Rhaid i gyflenwr cynllun sy'n arddangos, neu sy'n cynnig, eitemau ernes ar gyfer eu cyflenwi mewn unrhyw fangre arddangos yr wybodaeth cynllun yn y fangre honno—

(a) fel ei bod ar gael i bobl sy'n dewis eitemau ernes, a

(b) er mwyn cydymffurfio â pharagraff (7).

(4) Ond nid yw paragraff (3) yn gymwys—

(a) i unrhyw fangre yfed lle y gwerthir sy'n fangre wedi ei hoptio allan, neu

(b) mewn cysylltiad ag unrhyw eitemau ernes sy'n cael eu harddangos, neu eu cynnig, ar gyfer eu cyflenwi i'w hyfed ar unwaith yn y rhan honno o fangre manwerthu cymysg sy'n fangre wedi ei hoptio allan.

(5) Rhaid i gyflenwr cynllun sy'n cynnig eitemau ernes ar gyfer eu cyflenwi ar wefan, drwy gymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu mewn unrhyw fath o gyhoeddiad—

(a) sicrhau bod yr wybodaeth cynllun yn cael ei harddangos fel rhan o'r disgrifiad o'r eitemau ernes, ac yn cydymffurfio â pharagraff (7), neu

(b) pan nad yw'r cyflenwr cynllun yn gyfrifol am y wefan, y cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu'r cyhoeddiad, roi'r wybodaeth cynllun i'r person sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw, i'w harddangos fel rhan o'r disgrifiad o'r eitemau ernes ar y wefan, ar y cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu yn y cyhoeddiad.

(6) Rhaid i gyflenwr cynllun sy'n darparu'r wybodaeth cynllun o dan baragraff (5)(b) ofyn i'r person y mae'n darparu'r wybodaeth honno iddo i'w harddangos fel ei bod yn cydymffurfio â pharagraff (7).

(7) Rhaid i'r wybodaeth cynllun gael ei harddangos yn glir ac yn hygyrch.

(8) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "gwybodaeth cynllun" yw—

(a) datganiad ei bod yn ofynnol gan y Cynllun i'r cyflenwr cynllun godi ernes am bob eitem ernes a gyflenwir gan y cyflenwr,

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (9), ar gyfer pob eitem ernes y mae'r cyflenwr cynllun yn ei harddangos neu'n ei chynnig ar gyfer ei chyflenwi—

(i) y swm sy'n daladwy am yr eitem ernes heb yr ernes,

(ii) swm yr ernes, a

(iii) y swm sy'n daladwy am yr eitem ernes gan gynnwys yr ernes, ac

(c) pan mai manwerthwr cynllun yw'r cyflenwr cynllun, datganiad ynghylch sut i gael ad-daliad mewn perthynas ag eitem ernes.

(9) Nid oes angen i fanwerthwr cynllun ddyblygu yn yr wybodaeth cynllun unrhyw swm y mae'n ofynnol i'r manwerthwr ei ddangos o dan erthygl 4 neu 5 o Orchymyn Marcio Prisiau 2004(**10**) (rhwymedigaeth i ddangos pris gwerthu a phris uned).

Dyletswydd i arddangos gwybodaeth am gynhyrchion swmp isel cofrestredig

28.—(1) Rhaid i berson sy'n cyflenwi cynhyrchion swmp isel cofrestredig ddarparu neu arddangos yr wybodaeth CSIC, neu ddarparu'r wybodaeth honno i'w harddangos, yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i berson sy'n cynnig cyflenwi cynhyrchion swmp isel cofrestredig neu nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig ar lafar (er enghraifft, dros y ffôn)—

(a) darparu'r wybodaeth CSIC i berson sy'n archebu'r cynnyrch swmp isel cofrestredig neu nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig cyn cymryd taliad am y cynhyrchion, nwyddau neu wasanaethau hynny, a

(b) os gofynnir amdani, roi'r wybodaeth CSIC yn ysgrifenedig i'r person hwnnw.

(3) Rhaid i berson sy'n arddangos, neu sy'n cynnig, cynhyrchion swmp isel cofrestredig ar gyfer eu cyflenwi mewn unrhyw fangre arddangos yr wybodaeth CSIC yn y fangre honno—

(a) fel ei bod ar gael i bobl sy'n dewis cynhyrchion swmp isel cofrestredig, a

(b) er mwyn cydymffurfio â pharagraff (6).

(**10**) O.S. 2004/102.

(4) Rhaid i berson sy'n cynnig cynhyrchion swmp isel cofrestredig ar gyfer eu cyflenwi ar wefan, drwy gymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu mewn unrhyw fath o gyhoeddiad—

(a) sicrhau bod yr wybodaeth CSIC yn cael ei harddangos er mwyn cydymffurfio â pharagraff (6) fel rhan o'r disgrifiad o'r cynhyrchion swmp isel cofrestredig ar y wefan, yn y cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu yn y cyhoeddiad, neu

(b) os nad yw'r person sy'n cynnig cynhyrchion swmp isel cofrestredig ar gyfer eu cyflenwi o dan y rheoliad hwn yn gyfrifol am y wefan, y cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu'r cyhoeddiad, rhaid i'r person hwnnw ddarparu'r wybodaeth CSIC i'r person sy'n gyfrifol am y wefan, y cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu'r cyhoeddiad, i'w harddangos fel rhan o'r disgrifiad o'r cynhyrchion swmp isel cofrestredig ar y wefan, ar y cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu yn y cyhoeddiad.

(5) Rhaid i berson sy'n darparu'r wybodaeth CSIC o dan baragraff (4)(b) ofyn i'r person y mae'n darparu'r wybodaeth honno iddo ei harddangos er mwyn cydymffurfio â pharagraff (6) fel rhan o'r disgrifiad o'r cynnyrch swmp isel cofrestredig ar y wefan, yn y cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol neu yn y cyhoeddiad.

(6) Rhaid i'r wybodaeth CSIC gael ei harddangos yn glir ac yn hygyrch.

(7) Yn y rheoliad hwn ystyr "yr wybodaeth CSIC" yw—

(a) datganiad nad yw'n ofynnol i'r person sy'n cyflenwi'r cynnyrch swmp isel cofrestredig godi ernes mewn cysylltiad â chyflenwi unrhyw gynhyrchion swmp isel cofrestredig, a

(b) datganiad nad oes ad-daliad yn daladwy am gynhwysydd sy'n dod o gynnyrch swmp isel cofrestredig.

Gofyniad i godi ernes

29.—(1) Rhaid i gyflenwr cynllun godi ernes ar gwsmer am bob eitem ernes a gyflenwir gan y cyflenwr cynllun i'r cwsmer.

(2) Ond caiff cyflenwr cynllun sy'n cyflenwi eitemau ernes i'w hyfed ar unwaith ("eitemau YU") i gwsmeriaid mewn unrhyw fangre manwerthu cymysg neu unrhyw fangre yfed lle y gwerthir, benderfynu na fydd yn codi ernes am eitemau YU a gyflenwir yn y fangre honno ("penderfyniad optio allan").

(3) Caiff y cyflenwr cynllun wrthdroi penderfyniad optio allan ar unrhyw adeg.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "cwsmer" yw person y mae'r cyflenwr cynllun yn cyflenwi eitemau ernes iddo.

Dyletswydd i arddangos gwybodaeth mewn mangre wedi ei hoptio allan

30.—(1) Rhaid i fanwerthwr cynllun arddangos yr wybodaeth optio allan mewn unrhyw fangre wedi ei hoptio allan—

(a) er mwyn cydymffurfio â pharagraff (2), a

(b) fel bod yr wybodaeth ar gael i bersonau sy'n dewis eitemau ernes i'w hyfed ar unwaith yn y fangre honno.

(2) Rhaid i'r wybodaeth optio allan gael ei harddangos yn glir ac yn hygyrch.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "yr wybodaeth optio allan" yw—

(a) datganiad nad yw'n ofynnol i'r manwerthwr cynllun godi ernes am yr eitemau ernes a gyflenwir gan y manwerthwr cynllun i'w hyfed ar unwaith yn y fangre, a

(b) datganiad yn gofyn na chaiff cynwysyddion gwag eu symud ymaith o'r fangre.

Sefydliad rheoli ernes: pŵer i gael gwybodaeth gan gyflenwr cynllun

31.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes gyfarwyddo cyflenwr cynllun i ddarparu'r wybodaeth honno a bennir mewn cyfarwyddiad SRhE.

(2) Rhaid i gyflenwr cynllun cofrestredig sy'n cael cyfarwyddiad SRhE gydymffurfio ag ef erbyn y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddiad SRhE (y "dyddiad cydymffurfio").

(3) Pan fo cyflenwr cynllun wedi darparu, mewn ymateb i gyfarwyddiad SRhE, wybodaeth y mae'r sefydliad rheoli ernes yn credu'n rhesymol ei bod yn anghywir, yn anwir neu'n gamarweiniol, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes hysbysu CNC a darparu'r holl wybodaeth berthnasol a'r holl ddogfennau perthnasol iddo.

(4) Pan fo cyflenwr cynllun wedi darparu gwybodaeth anghyflawn mewn ymateb i gyfarwyddiad SRhE, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y dyddiad cydymffurfio, hysbysu CNC a darparu'r holl wybodaeth berthnasol a'r holl ddogfennau perthnasol iddo.

(5) Pan fo cyflenwr cynllun wedi methu ag ymateb i gyfarwyddiad SRhE erbyn y dyddiad cydymffurfio, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y dyddiad cydymffurfio, hysbysu CNC a darparu'r holl wybodaeth berthnasol a'r holl ddogfennau perthnasol iddo.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn cyfarwyddiad SRhE.

RHAN 6

Dychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd

Pennod 1

Eitemau sy'n ddarostyngedig i gynlluniau tramor

Cyfarwyddyd yn pennu cynllun tramor

32.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes roi cyfarwyddyd yn pennu cynllun tramor ("cynllun tramor penodedig") er mwyn galluogi cynwysyddion sy'n ddarostyngedig i'r cynllun hwnnw i gael eu dychwelyd i gasglwyr cynllun.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan baragraff (1)—

(a) bod yn ysgrifenedig,

(b) nodi'r dyddiad y mae'n cymryd effaith, ac

(c) cael ei gyhoeddi yn y modd y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn dwyn y cyfarwyddyd i sylw casglwyr cynllun a threulwyr.

(3) Mae cyfarwyddyd o dan baragraff (1) yn cael effaith hyd nes y caiff ei ddirymu drwy hysbysiad gan y sefydliad rheoli ernes.

(4) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (3)—

(a) bod yn ysgrifenedig,

(b) nodi'r dyddiad y mae'n cymryd effaith, ac

(c) cael ei gyhoeddi yn y modd y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn dwyn y cyfarwyddyd i sylw casglwyr cynllun a threulwyr.

(5) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan baragraff (2)(b) neu (4)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 3 mis calendr sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyhoeddir y cyfarwyddyd neu'r hysbysiad.

(6) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan baragraff (1) neu ddirymu cyfarwyddyd o dan baragraff (3), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) ymgynghori ag—

(i) CNC,

(ii) casglwyr cynllun, a

(iii) y personau eraill hynny (os oes rhai) y mae'n ystyried eu bod yn briodol, a

(b) ystyried y safbwyntiau a fynegir gan y rhai yr ymgynghorir â hwy.

Penderfynu swm ad-daliad tramor

33.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, ar gyfer pob cynllun tramor penodedig, benderfynu'r swm sydd i'w dalu gan gasglwyr cynllun mewn cysylltiad ag eitemau cynllun tramor sy'n ddarostyngedig i'r cynllun hwnnw ("swm ad-daliad tramor").

(2) Caiff y sefydliad rheoli ernes ddiwygio'r swm ad-daliad tramor am gynllun tramor penodedig, ond ni chaiff wneud hynny fwy nag unwaith ar gyfer pob cynllun tramor penodedig mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

(3) Cyn penderfynu swm o dan baragraff (1), neu ddiwygio swm o dan baragraff (2), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) ymgynghori ag—

(i) y personau hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn cynrychioli'r rhai y mae'r penderfyniad neu'r diwygiad yn debygol o effeithio arnynt, a

(ii) y personau eraill hynny (os oes rhai) y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried eu bod yn briodol, a

(b) ystyried y safbwyntiau a fynegir gan y rhai yr ymgynghorir â hwy.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gyhoeddi, yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol, hysbysiad o unrhyw benderfyniad neu ddiwygiad a wneir o dan y rheoliad hwn, er mwyn dwyn y penderfyniad neu'r diwygiad i sylw casglwyr cynllun a threulwyr.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (4) bennu—

(a) y swm ad-daliad tramor neu'r swm ad-daliad tramor diwygiedig, a

(b) y dyddiad y mae—

(i) y penderfyniad yn cymryd effaith, neu

(ii) y diwygiad yn cymryd effaith.

(6) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan baragraff (5)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 3 mis calendr sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad perthnasol.

Y swm ad-daliad tramor: darpariaethau atodol

34.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes benderfynu bod y swm ad-daliad tramor—

(a) yr un peth ar gyfer pob eitem cynllun tramor sy'n ddarostyngedig i gynllun tramor penodedig penodol, neu

(b) yn wahanol ar gyfer gwahanol eitemau cynllun tramor sy'n ddarostyngedig i'r cynllun penodol hwnnw.

(2) Caiff y sefydliad rheoli ernes, wrth benderfynu neu ddiwygio swm ad-daliad tramor am eitem cynllun tramor, roi sylw i'r ernes sy'n daladwy am yr eitem honno o dan y cynllun tramor penodedig o dan sylw.

(3) Ym mharagraff (1)(b), caiff y sefydliad rheoli ernes, yn benodol, benderfynu swm ad-daliad tramor drwy gyfeirio at unrhyw un neu ragor o'r canlynol neu bob un ohonynt—

(a) maint y cynhwysydd;

(b) y deunydd a gwmpesir y mae'r cynhwysydd wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf ohono;

(c) natur y cynllun tramor penodedig y mae'r eitem cynllun tramor yn ymwneud ag ef.

(4) Ond ni chaiff swm ad-daliad tramor am eitem cynllun tramor fod yn fwy na'r ad-daliad am eitem ad-daliad gymaradwy.

(5) Ym mharagraff (4), mae eitem ad-daliad yn "cymaradwy" ag eitem cynllun tramor os yw—

(a) o'r un maint,

(b) wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r un deunydd a gwmpesir, ac

(c) pan fo'r eitem cynllun tramor yn dod o ddiod a gyflenwyd mewn pecyn aml-gynnwys, yr eitem ad-daliad yn dod o eitem ernes a gyflenwyd mewn pecyn aml-gynnwys.

Pennod 2

Mannau dychwelyd mandadol

Gofyniad i fanwerthwyr a gwmpesir weithredu man dychwelyd mewn mangre MDM neu ohoni

35.—(1) Rhaid i fanwerthwr nwyddau groser sy'n cyflenwi eitemau ernes i dreulwyr mewn mangre MDM neu ohoni weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â'r fangre honno.

(2) Ond nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw esemptiad yn cael effaith mewn cysylltiad â'r fangre MDM ("esemptiad man dychwelyd").

(3) Cyfeirir at fanwerthwr nwyddau groser y mae'n ofynnol iddo weithredu man dychwelyd o dan baragraff (1) yn y Rheoliadau hyn fel "manwerthwr a gwmpesir".

(4) Rhaid gweithredu'r man dychwelyd—

(a) yn y fangre MDM neu ohoni, neu

(b) mewn unrhyw fangre wrth ymyl y fangre MDM a ddarperir gan, neu ar ran, y manwerthwr a gwmpesir i'w defnyddio ar gyfer parcio gan gwsmeriaid y manwerthwr.

(5) Rhaid i fanwerthwr a gwmpesir gofrestru â'r sefydliad rheoli ernes ac unwaith y mae wedi ei gofrestru cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "gweithredwr man dychwelyd mandadol".

(6) Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cofrestru yn weithredwr man dychwelyd mandadol.

(7) Mae Atodlen 3 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch esemptiadau man dychwelyd.

Esemptiad ar gyfer manwerthwyr a gwmpesir bach mewn ardaloedd trefol

36.—(1) Mae manwerthwr a gwmpesir sydd â lle manwerthu perthnasol mewn ardal drefol yn esempt rhag y gofyniad o dan reoliad 35 i weithredu man dychwelyd.

(2) Caiff y sefydliad rheoli ernes ddarparu gwybodaeth i fanwerthwyr a gwmpesir i'w helpu i benderfynu a ydynt wedi ymsefydlu mewn ardal drefol.

(3) Rhaid i fanwerthwr a gwmpesir sydd, o dan baragraff (1), yn esempt rhag y gofyniad i weithredu man dychwelyd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r sefydliad rheoli ernes yn ysgrifenedig.

(4) Caiff manwerthwr a gwmpesir sydd, o dan baragraff (1), yn esempt rhag y gofyniad i weithredu man dychwelyd wneud cais i weithredu man dychwelyd gwirfoddol o dan reoliad 38.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "lle manwerthu perthnasol" ("*relevant retail space*") yw lle manwerthu sy'n llai na 100m^2, pa un a yw'r lle manwerthu hwnnw y tu mewn i adeilad mwy neu fangre fwy neu'n ffurfio rhan o adeilad mwy neu fangre fwy ai peidio, ac ni waeth beth fo defnydd, natur neu ddiben yr adeilad mwy neu'r fangre fwy;

ystyr "trefol" ("*urban*") yw ardal a ddosberthir yn drefol drwy gyfeirio at y ddogfen o'r enw "2011 rural urban classification of output areas" a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol(**11**) ar 13 Medi 2013 ac a ddiweddarwyd ar 27 Ionawr 2016.

Gofyniad i fanwerthwyr nwyddau groser ddarparu gwybodaeth mewn mangre heb fan dychwelyd

37.—(1) Rhaid i fanwerthwr nwyddau groser arddangos yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) yn glir ac yn hygyrch mewn unrhyw fangre lle y mae'r manwerthwr yn cyflenwi eitemau ernes i dreulwyr ac—

(a) nad yw'n fangre MDM nac yn fan dychwelyd gwirfoddol, neu

(b) sy'n fangre y mae esemptiad man dychwelyd mewn grym mewn cysylltiad â hi.

(2) Yr wybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (1) yw—

(a) datganiad nad yw'n ofynnol i'r manwerthwr weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â'r fangre, a'r rheswm pam,

(b) os rhoddwyd esemptiad man dychwelyd mewn cysylltiad â'r fangre, datganiad ynghylch sut y gellir cael gwybodaeth am yr esemptiad hwnnw, a

(c) os nad cerbyd modur, llong neu gwch, trên, tram, cerbyd awyr neu hofrenfad yw'r fangre, lleoliad y man dychwelyd agosaf at y fangre honno.

(**11**) Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/geographicalproducts/ruralurbanclassifications/2011ruralurbanclassification

Pennod 3

Gweithredu mannau dychwelyd yn wirfoddol

Mannau dychwelyd gwirfoddol

38.—(1) Caiff cyflenwr cynllun weithredu man dychwelyd gwirfoddol mewn unrhyw fangre a gwmpesir y mae wedi ei awdurdodi i weithredu'r man dychwelyd hwnnw mewn cysylltiad â hi gan y sefydliad rheoli ernes.

(2) Caiff manwerthwr a gwmpesir sy'n esempt rhag y gofyniad i weithredu man dychwelyd o dan reoliad 36(1) weithredu man dychwelyd gwirfoddol yn y fangre o dan sylw os yw wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan y sefydliad rheoli ernes.

(3) Mae Atodlen 4 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch awdurdodiadau i weithredu mannau dychwelyd gwirfoddol.

Gweithredu mannau dychwelyd gan y sefydliad rheoli ernes

39. Caiff y sefydliad rheoli ernes weithredu man dychwelyd mewn unrhyw fangre heblaw—

(a) unrhyw fangre y mae'n ofynnol i berson weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â hi, neu y mae person wedi ei awdurdodi i weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â hi;

(b) unrhyw fangre y mae esemptiad man dychwelyd mewn grym mewn cysylltiad â hi.

Pennod 4

Yr wybodaeth sydd i'w darparu mewn mannau dychwelyd

Yr wybodaeth sydd i'w darparu mewn man dychwelyd

40. Rhaid i weithredwr man dychwelyd arddangos yr wybodaeth a ganlyn, yn glir ac yn hygyrch, yn y man dychwelyd—

(a) datganiad y caiff y gweithredwr man dychwelyd wrthod derbyn eitem y gellir ei dychwelyd os oes gan y gweithredwr man dychwelyd esgus rhesymol o dan reoliad 11, ac yn yr achos hwnnw ni thelir swm dychwelyd,

(b) crynodeb o'r weithdrefn a gynhelir gan y sefydliad rheoli ernes ar gyfer gwneud unrhyw gŵyn ynghylch gweithrediad y man dychwelyd, ac

(c) manylion cyswllt ar gyfer y sefydliad rheoli ernes.

Pennod 5

Gwasanaethau cymryd yn ôl a chasgliadau sefydliad rheoli ernes

Darparu gwasanaethau cymryd yn ôl

41.—(1) Caiff manwerthwr cynllun ddarparu gwasanaeth cymryd yn ôl os yw wedi ei gofrestru â'r sefydliad rheoli ernes i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

(2) Mae Atodlen 4 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cofrestru i ddarparu gwasanaeth cymryd yn ôl a materion cysylltiedig.

Gwybodaeth am wasanaethau cymryd yn ôl

42.—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl ddarparu neu arddangos, neu ddarparu i arddangos, yr wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl y cyfeirir ati ym mharagraff (6), yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Pan fo darparwr gwasanaeth cymryd yn ôl yn cynnig ar lafar (er enghraifft, dros y ffôn) gyflenwi eitemau ernes i dreuliwr, rhaid i'r darparwr gwasanaeth cymryd yn ôl ddarparu ar yr un pryd—

(a) yr wybodaeth cynllun,

(b) yr wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl, ac

(c) os gofynnir am hynny, yr wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl yn ysgrifenedig neu gyfeirio'r person i'r man lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth honno drwy unrhyw gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

(3) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl sy'n arddangos, neu sy'n cynnig, eitemau ernes ar gyfer eu cyflenwi mewn unrhyw fangre—

(a) arddangos yr wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl yn y fangre honno fel ei bod ar gael i dreuliwr sy'n dewis eitemau ernes, ac er mwyn cydymffurfio â pharagraff (7), a

(b) os gofynnir am hynny, ddarparu'r wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl yn ysgrifenedig i dreuliwr sy'n prynu unrhyw eitemau ernes neu gyfeirio'r person i'r man lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth honno drwy unrhyw gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

(4) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl sy'n cynnig eitemau ernes ar gyfer eu cyflenwi drwy unrhyw gyfrwng cyfathrebu o hirbell—

(a) sicrhau y caiff yr wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl ei harddangos er mwyn cydymffurfio â pharagraff (7) fel rhan o'r disgrifiad o'r eitemau ernes ar neu yn y cyfrwng cyfathrebu o hirbell perthnasol, neu

(b) pan nad yw'r darparwr gwasanaeth cymryd yn ôl yn gyfrifol am y cyfrwng cyfathrebu o hirbell, ddarparu'r wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl i'r person sy'n gyfrifol, i'w harddangos fel rhan o'r disgrifiad o'r eitemau ernes ar neu yn y cyfrwng cyfathrebu o hirbell perthnasol.

(5) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl sy'n darparu'r wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl i berson o dan baragraff (4)(b) ofyn i'r person y mae'n darparu'r wybodaeth honno iddo i'w harddangos fel ei bod yn cydymffurfio â pharagraff (7).

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr y "gwybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl" yw—

(a) datganiad ynghylch sut y caiff y treuliwr dderbyn y cynnig o'r gwasanaeth cymryd yn ôl,

(b) datganiad y caiff y darparwr gwasanaeth cymryd yn ôl wrthod derbyn eitem y gellir ei dychwelyd os oes gan y darparwr esgus rhesymol o dan reoliad 11 dros wneud hynny, ac yn yr achos hwnnw ni thelir swm dychwelyd,

(c) datganiad o unrhyw gamau y mae rhaid i'r treuliwr eu cymryd i alluogi unrhyw eitemau y gellir eu dychwelyd i gael eu casglu gan y darparwr gwasanaeth cymryd yn ôl (gan gynnwys, er enghraifft, os oes rhaid i'r treuliwr drefnu slot casglu, sut y gellir gwneud hynny, a'r dull o nodi unrhyw eitemau y gellir eu dychwelyd a ddarperir gan y treuliwr hwnnw),

(d) os oes swm dychwelyd i'w dalu ac eithrio pan gesglir yr eitemau y gellir eu dychwelyd o'r treuliwr, datganiad ynghylch sut a phryd y telir y swm dychwelyd i'r treuliwr,

(e) crynodeb o'r weithdrefn a gynhelir gan y sefydliad rheoli ernes ar gyfer gwneud unrhyw gŵyn ynghylch gweithrediad y gwasanaeth cymryd yn ôl, a

(f) manylion cyswllt ar gyfer y sefydliad rheoli ernes.

(7) Rhaid i wybodaeth a arddangosir gael ei harddangos yn glir ac yn hygyrch, gan gynnwys drwy unrhyw gyfrwng cyfathrebu o hirbell.

Casglu neu dderbyn eitemau y gellir eu dychwelyd gan y sefydliad rheoli ernes

43.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes gasglu neu dderbyn fel arall eitemau y gellir eu dychwelyd o unrhyw berson (ni waeth beth fo'r gofynion a osodir ar y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 69).

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes dalu swm dychwelyd ar gyfer pob eitem y gellir ei dychwelyd y mae'n ei derbyn.

(3) Caiff y sefydliad rheoli ernes wneud y trefniadau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddibenion y rheoliad hwn, a gaiff gynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae unrhyw swm dychwelyd i'w dalu.

Pennod 6

Cofrestr o weithredwyr man dychwelyd a mannau dychwelyd sefydliad rheoli ernes, cofrestr o esemptiadau man dychwelyd a chofrestr o ddarparwyr gwasanaeth cymryd yn ôl

Cofrestr o weithredwyr man dychwelyd a mannau dychwelyd sefydliad rheoli ernes

44.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gadw a chynnal cofrestr o—

(a) gweithredwyr man dychwelyd, a

(b) mannau dychwelyd SRhE.

(2) Rhaid i gofnod yn y gofrestr am weithredwr man dychwelyd bennu—

(a) enw'r gweithredwr man dychwelyd, a

(b) pob un o'r mangreoedd y mae'n ofynnol i'r gweithredwr man dychwelyd hwnnw weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â hi, neu y mae'r gweithredwr man dychwelyd hwnnw wedi ei awdurdodi i weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â hi.

(3) Rhaid i gofnod yn y gofrestr am fan dychwelyd SRhE—

(a) nodi'r fangre y gweithredir y man dychwelyd ynddi, a

(b) pennu mai'r sefydliad rheoli ernes sy'n ei weithredu.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol a gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r gofrestr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol, yn rhad ac am ddim.

(6) Yn y rheoliad hwn, ystyr "man dychwelyd SRhE" yw man dychwelyd a weithredir gan y sefydliad rheoli ernes.

Y gofrestr o esemptiadau man dychwelyd

45.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gadw a chynnal cofrestr o esemptiadau man dychwelyd.

(2) Rhaid i gofnod yn y gofrestr am esemptiad man dychwelyd bennu—

(a) y manwerthwr cynllun y rhoddwyd yr esemptiad iddo, a

(b) y fangre y rhoddir yr esemptiad mewn cysylltiad â hi.

(3) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ddiweddaru'r gofrestr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i esemptiad man dychwelyd gael ei roi i fanwerthwr cynllun.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ddileu'r cofnod am esemptiad man dychwelyd sy'n dod i ben o dan baragraff 6(1)(a) o Atodlen 3 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo ddod i ben.

(5) Pan fo esemptiad man dychwelyd yn cael ei ddirymu o dan baragraff 8 neu 9 o Atodlen 3, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ddileu'r cofnod o'r gofrestr—

(a) ar ddiwedd y diwrnod y mae'r dirymiad yn cymryd effaith, neu

(b) os nad yw'n ymarferol diwygio'r gofrestr ar yr adeg honno, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(6) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes roi'r gofrestr ar gael i aelodau o'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol, yn rhad ac am ddim.

Y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau cymryd yn ôl

46.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gadw a chynnal cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau cymryd yn ôl.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ddiweddaru'r gofrestr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i fanwerthwr cynllun gael ei gofrestru'n ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl.

(3) Pan fo cofrestriad manwerthwr cynllun yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl yn cael ei ddirymu o dan baragraff 10 neu 11 o Atodlen 4, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ddileu'r cofnod o'r gofrestr—

(a) ar ddiwedd y diwrnod y mae'r dirymiad yn cymryd effaith, neu

(b) os nad yw'n ymarferol diwygio'r gofrestr ar yr adeg honno, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhoi'r gofrestr ar gael i aelodau o'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol, yn rhad ac am ddim, a

(b) caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gael copïau o gofnodion yn y gofrestr ar ôl talu ffi resymol.

Pennod 7

Rhwymedigaethau cyffredinol casglwyr cynllun

Ffurf ar swm dychwelyd

47.—(1) Rhaid i gasglwr cynllun dalu'r swm dychwelyd cyfan am yr eitemau y gellir eu dychwelyd y mae'n eu derbyn gan berson gan ddefnyddio un neu ragor o'r cyfryngau a ganlyn, oni bai bod y person yn dewis i'r swm hwnnw gael ei dalu i elusen o dan reoliad 48—

(a) arian parod mewn sterling;

(b) taliad i gerdyn debyd neu gerdyn credyd;

(c) taleb ad-daliad.

(2) Ond os yw'r casglwr cynllun yn fanwerthwr cynllun (heblaw manwerthwr cynllun nad yw'n derbyn arian parod), rhaid i'r casglwr cynllun—

(a) cynnig talu'r swm dychwelyd cyfan ar ffurf arian neu daleb ad-daliad i'r person sy'n dychwelyd yr eitemau y gellir eu dychwelyd (y "dychwelwr"), a

(b) os yw'r dychwelwr yn derbyn y cynnig, dalu'r swm dychwelyd cyfan ar ffurf arian neu daleb ad-daliad.

(3) Mewn perthynas â thaleb ad-daliad—

(a) caniateir ei darparu naill ai mewn fformat ffisegol neu mewn fformat electronig, ond

(b) rhaid ei darparu mewn fformat ffisegol, os yw'r dychwelwr yn gofyn am hynny.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "swm dychwelyd cyfan" ("*total return amount*") yw cyfanswm y swm dychwelyd sy'n daladwy am bob eitem y gellir ei dychwelyd a gyflwynir gan y dychwelwr ac a dderbynnir gan y casglwr cynllun;

ystyr "taleb ad-daliad" ("*refund voucher*") yw taleb, tocyn neu eitem debyg y gellir ei chyfnewid neu ei gyfnewid ar unwaith naill ai gyda'r casglwr cynllun neu berson arall, am swm o arian, neu daliad i gerdyn debyd neu gerdyn credyd, sy'n hafal i'r swm dychwelyd cyfan perthnasol—

(a) am nwyddau neu wasanaethau, neu

(b) yn unigol neu ynghyd ag unrhyw dalebau ad-daliad eraill neu dalebau eraill neu eitemau tebyg.

Talu swm dychwelyd i elusen

48.—(1) Caiff person sy'n gymwys i gael taliad o dan reoliad 47(1) hysbysu'r casglwr cynllun ei fod yn dewis i swm sy'n cyfateb i'r swm dychwelyd cyfan gael ei dalu gan y sefydliad rheoli ernes i elusen.

(2) Rhaid i gasglwr cynllun sy'n cael ei hysbysu o dan baragraff (1) hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am y dewis hwnnw (gan gynnwys y swm dychwelyd cyfan perthnasol a'r dyddiad y gwnaed y dewis) o fewn 3 mis i gael yr hysbysiad.

(3) Ar ôl cael hysbysiad o dan baragraff (2), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes dalu i elusen swm sy'n cyfateb i'r swm dychwelyd cyfan yr oedd y person yn gymwys i'w gael o dan reoliad 47(1) o fewn 12 mis i'r dyddiad y gwnaed y dewis hwnnw.

(4) Mae person sy'n gwneud dewis o dan baragraff (1) yn peidio â bod yn gymwys i gael taliad o dan reoliad 47 mewn perthynas â'r dewis hwnnw.

(5) Yn y rheoliad hwn mae i "swm dychwelyd cyfan" yr ystyr a roddir yn rheoliad 47(4).

Gofyniad i weithredwyr man dychwelyd gadw eitemau y gellir eu dychwelyd

49. Rhaid i weithredwr man dychwelyd (heblaw'r sefydliad rheoli ernes) gadw'r eitemau y gellir eu dychwelyd y mae'n eu derbyn yn y man dychwelyd i'w casglu gan, neu ar ran, y sefydliad rheoli ernes.

Gofyniad i ddarparwyr gwasanaeth cymryd yn ôl gadw neu ddychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd

50. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl naill ai—

(a) cadw'r eitemau y gellir eu dychwelyd y mae'n eu derbyn drwy'r gwasanaeth cymryd yn ôl, i'w casglu gan, neu ar ran, y sefydliad rheoli ernes, neu

(b) dychwelyd yr eitemau y gellir eu dychwelyd y mae'n eu derbyn drwy'r gwasanaeth cymryd yn ôl i'r sefydliad rheoli ernes neu berson sy'n gweithredu ar ran y sefydliad rheoli ernes.

RHAN 7

Y gweinyddwr cynllun: y sefydliad rheoli ernes

Pennod 1

Penodi a llywodraethiant

Y sefydliad rheoli ernes

51.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru benodi person yn weinyddwr cynllun y Cynllun (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y sefydliad rheoli ernes").

(2) Mae Atodlen 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch penodi'r sefydliad rheoli ernes a materion cysylltiedig.

Amodau

52.—(1) Caiff penodiad person yn sefydliad rheoli ernes fod yn ddarostyngedig i'r amodau hynny (os oes rhai) y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol (gweler paragraff 2(3)(a)(iii) o Atodlen 5).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig, amrywio neu ddirymu unrhyw amod y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ddarostyngedig iddo.

(3) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir gan Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn ac Atodlen 5.

Cynllun gweithredol

53.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes weithredu yn unol â'i gynllun gweithredol.

(2) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ystyried sut y byddai ei gynllun gweithredol yn addasu i unrhyw ehangiad i'r mathau o ddeunydd a gwmpesir a sut y byddai'n rheoli unrhyw ehangiad o'r fath;

(b) caiff adolygu ei gynllun gweithredol ar unrhyw adeg, a rhaid iddo wneud hynny—

(i) cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad penodi o dan reoliad 51(1), a

(ii) ar ôl hynny ar ysbeidiau heb fod yn hwy na 12 mis.

(3) Caiff y sefydliad rheoli ernes ddiwygio ei gynllun gweithredol yn dilyn adolygiad o dan baragraff (2)(b) a rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyflwyno cynllun diwygiedig i—

(a) Gweinidogion Cymru, a

(b) CNC.

(4) Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r cynllun gweithredol gael ei gymeradwyo gan CNC, gydag addasiadau neu hebddynt.

(5) Ond, pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i CNC ("hysbysiad galw i mewn") fod diwygiad i'r cynllun gweithredol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn hytrach nag CNC, mae'r diwygiad hwnnw i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

(6) Caiff hysbysiad galw i mewn ymwneud ag—

(a) diwygiad penodol, neu

(b) y disgrifiadau hynny o ddiwygiadau a bennir yn yr hysbysiad.

(7) Cyn i CNC gymeradwyo unrhyw ddiwygiad i'r cynllun gweithredol, rhaid i CNC ymgynghori ag—

(a) Gweinidogion Cymru, a

(b) y sefydliad rheoli ernes.

(8) Cyn i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw ddiwygiad i'r cynllun, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) CNC, a

(b) y sefydliad rheoli ernes.

(9) Rhaid i gymeradwyaeth o dan baragraff (4) neu (5) fod yn ysgrifenedig.

(10) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ymgorffori unrhyw ddiwygiad a gymeradwyir o dan baragraff (4) neu (5) yn ei gynllun gweithredol a rhaid iddo anfon copi o'r cynllun gweithredol diwygiedig hwnnw, os gofynnir iddo wneud hynny—

(a) at Weinidogion Cymru, a

(b) i CNC.

Adroddiad blynyddol

54.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ac CNC ar gyfer pob blwyddyn gynllun.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi sut, ac i ba raddau, y mae'r sefydliad rheoli ernes wedi gweithredu, yn ystod y flwyddyn gynllun berthnasol, yn unol â'i gynllun gweithredol.

(3) Rhaid cyflwyno'r adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ac CNC cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a pha un bynnag o fewn cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth diwrnod olaf y flwyddyn gynllun y mae'n ymwneud â hi.

Cronfa wrth gefn

55.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes a benodir am y tro cyntaf o dan reoliad 51(1) sefydlu cronfa wrth gefn o fewn 5 mlynedd i ddyddiad ei benodiad.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes sy'n sefydlu cronfa wrth gefn, ac unrhyw sefydliad rheoli ernes a benodir yn ei le ar ôl hynny—

(a) cadw yn y gronfa wrth gefn y swm hwnnw sy'n angenrheidiol i ariannu'r taliadau a nodir ym mharagraff (3), neu

(b) cadw yn y gronfa wrth gefn y swm hwnnw a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "cronfa wrth gefn" yw cronfa, os caiff penodiad y sefydliad rheoli ernes ei ddirymu, y caniateir i'r gweinyddwr cynllun interim wneud taliadau ohono mewn cysylltiad ag—

(a) gwariant yr eir iddo gan y sefydliad rheoli ernes wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun cyn i'w benodiad gael ei ddirymu, a

(b) gwariant yr eir iddo gan y gweinyddwr cynllun interim wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun cyn penodi person arall yn sefydliad rheoli ernes (gweler Pennod 11 o'r Rhan hon).

Pennod 2

Logo cynllun, logo pecynwaith cynllun a chod dychwelyd cynllun

Logo cynllun a logo pecynwaith cynllun

56.—(1) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ddyroddi i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig un logo sydd wedi ei ddylunio i ymddangos ar bob eitem ernes i ddangos mai eitem ernes ydyw (y "logo cynllun");

(b) caiff ddyroddi i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig un logo sydd wedi ei ddylunio i ymddangos ar bob pecyn aml-gynnwys cynllun i ddangos mai pecynwaith yw'r pecyn aml-gynnwys cynllun sy'n cynnwys un neu ragor o eitemau ernes (y "logo pecynwaith cynllun").

(2) Caiff y sefydliad rheoli ernes dynnu logo cynllun neu logo pecynwaith cynllun yn ôl a rhoi logo newydd yn ei le.

(3) Cyn penderfynu dyroddi logo cynllun neu logo pecynwaith cynllun neu dynnu logo cynllun neu logo pecynwaith cynllun yn ôl a rhoi logo newydd yn ei le, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ystyried effaith debygol y penderfyniad ar gynhyrchwyr cynllun cofrestredig.

(4) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn dyroddi logo cynllun neu logo pecynwaith cynllun neu'n rhoi logo newydd yn lle unrhyw logo cynllun neu logo pecynwaith cynllun, rhaid iddo bennu'r dyddiad y mae'r logo hwnnw i gael ei ddefnyddio ohono gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig a chyflenwyr cynllun.

(5) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (4) fod yn ddyddiad y mae'r sefydliad rheoli ernes wedi ei fodloni ei fod yn rhoi digon o rybudd i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig a chyflenwyr cynllun o'r newid cyn iddo gymryd effaith.

Cyhoeddi logo cynllun a logo pecynwaith cynllun

57. Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gyhoeddi—

(a) y logo cynllun, a

(b) y logo pecynwaith cynllun (os oes un),

yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol i ddwyn y logos i sylw cyflenwyr cynllun a threulwyr.

Cod dychwelyd cynllun a gofynion cod

58.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cod dychwelyd cynllun" ("*scheme return code*") mewn perthynas ag eitem ernes, yw cod sydd—

(a) pan gaiff ei sganio'n electronig yn galluogi nodi cynhyrchydd cynllun cofrestredig yr eitem, a

(b) yn bodloni unrhyw ofynion cod;

ystyr "gofynion cod" ("*code requirements*"), mewn perthynas â chod, yw unrhyw ofynion ychwanegol a bennir gan y sefydliad rheoli ernes gan gynnwys—

(a) gofynion ynghylch y safonau technolegol neu ddiogelwch y mae rhaid i god eu bodloni i gael ei ddefnyddio fel cod dychwelyd cynllun;

(b) gofynion o ran yr wybodaeth sydd i'w hadalw pan fo'r cod yn cael ei sganio'n electronig.

(2) Caiff y sefydliad rheoli ernes—

(a) pennu'r un gofynion cod i'w defnyddio ar bob eitem ernes, neu

(b) pennu gofynion cod gwahanol i'w defnyddio ar eitemau ernes gwahanol.

(3) Wrth benderfynu a ddylid pennu gofynion cod ac, os yw'n briodol, pa ofynion cod i'w pennu, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ystyried effaith debygol y gofynion hynny ar gynhyrchwyr cynllun cofrestredig.

(4) Cyn gwneud newidiadau i unrhyw ofynion cod a bennir ar gyfer eitem ernes, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ystyried effaith debygol y newidiadau hynny ar gynhyrchwyr cynllun cofrestredig.

(5) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn newid unrhyw ofynion cod a bennir ar gyfer eitem ernes, rhaid iddo bennu'r dyddiad y mae'r cod dychwelyd cynllun i gael ei ddefnyddio ohono.

(6) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (5) fod yn ddyddiad y mae'r sefydliad rheoli ernes wedi ei fodloni ei fod yn rhoi digon o rybudd i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig o'r newid cyn iddo gymryd effaith.

(7) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gymryd camau priodol i sicrhau bod cynhyrchwyr cynllun cofrestredig yn ymwybodol o'r gofynion cod (os oes rhai) ac unrhyw newidiadau iddynt.

Cytundeb ar logo cynllun cyffredin, logo pecynwaith cynllun cyffredin a gofynion cod cyffredin ar gyfer cod dychwelyd cynllun

59.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes wneud pob ymdrech i gytuno, â gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon a gweinyddwr ernes yr Alban, ar un logo cynllun cyffredin, logo pecynwaith cynllun cyffredin a gofynion cod cyffredin ar gyfer cod dychwelyd cynllun.

(2) Cyn dyroddi logo cynllun neu logo pecynwaith cynllun o dan reoliad 56 neu bennu unrhyw ofynion cod ar gyfer cod dychwelyd cynllun o dan reoliad 58, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) ymgynghori ag—

(i) y personau hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn cynrychioli'r rhai y mae dyroddi logo cynllun, logo pecynwaith cynllun neu ofynion cod ar gyfer cod dychwelyd cynllun yn debygol o effeithio arnynt,

(ii) gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon,

(iii) gweinyddwr ernes yr Alban, a

(iv) y personau eraill hynny (os oes rhai) y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried eu bod yn briodol, a

(b) rhoi sylw i'r safbwyntiau a fynegir mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Pennod 3

Templedi

Templedi

60. Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gyhoeddi, yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol i ddwyn i sylw manwerthwyr cynllun, ddogfennau templed mewn cysylltiad â—

(a) yr wybodaeth cynllun y cyfeirir ati yn rheoliad 27(8);

(b) yr wybodaeth CSIC y cyfeirir ati yn rheoliad 28(7);

(c) yr wybodaeth optio allan y cyfeirir ati yn rheoliad 30(3);

(d) yr wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 37(2) i fanwerthwyr nwyddau groser ei darparu mewn mangre fanwerthu heb fan dychwelyd;

(e) yr wybodaeth sydd i'w darparu mewn man dychwelyd o dan reoliad 40;

(f) yr wybodaeth gwasanaeth cymryd yn ôl y cyfeirir ati yn rheoliad 42(6).

Pennod 4

Yr ernes

Gofyniad i benderfynu swm yr ernes

61.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes benderfynu swm yr ernes mewn cysylltiad ag eitemau ernes.

(2) Wrth benderfynu swm o dan baragraff (1), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) gwneud pob ymdrech i gytuno â gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon a gweinyddwr ernes yr Alban wrth osod yr un swm yr ernes ar gyfer cynlluniau ernes ledled y Deyrnas Unedig, a

(b) rhoi sylw i unrhyw benderfyniadau ar swm yr ernes mewn cysylltiad ag eitemau ernes a wneir gan weinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon a gweinyddwr ernes yr Alban.

(3) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gyhoeddi, yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol, swm yr ernes mewn cysylltiad ag eitemau ernes.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud cais am hynny, eu hysbysu am y fethodoleg, y data a'r dystiolaeth y dibynnir arnynt i gyfrifo a phenderfynu swm yr ernes.

Diwygio swm yr ernes

62.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes ddiwygio swm yr ernes mewn cysylltiad ag unrhyw eitemau ernes.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes gyhoeddi hysbysiad, mewn modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol, sy'n pennu—

(a) swm diwygiedig yr ernes mewn cysylltiad â'r eitemau ernes perthnasol, a

(b) y dyddiad y mae swm diwygiedig yr ernes yn cymryd effaith.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (2)(b) fod o leiaf 3 mis calendr ar ôl y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad perthnasol.

Swm yr ernes: darpariaethau atodol

63.—(1) Caiff swm yr ernes fod—

(a) yr un peth mewn cysylltiad â phob eitem ernes, neu

(b) yn wahanol mewn cysylltiad ag eitemau ernes gwahanol.

(2) At ddibenion paragraff (1)(b), caiff y sefydliad rheoli ernes benderfynu swm yr ernes drwy gyfeirio at, er enghraifft—

(a) maint y cynwysyddion;

(b) y deunydd a gwmpesir y mae'r cynwysyddion wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf ohono;

(c) a gaiff yr eitemau ernes eu cyflenwi i dreulwyr fel eitemau sengl neu mewn pecynnau aml-gynnwys.

(3) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, wrth benderfynu swm yr ernes ar gyfer eitem ernes, roi sylw i—

(a) dibenion y Cynllun,

(b) y targedau casglu a nodir o dan reoliad 84,

(c) effaith debygol swm yr ernes ar allu treulwyr i brynu eitemau ernes,

(d) effaith debygol swm yr ernes ar y defnydd o gynwysyddion gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig (gan gynnwys y deunydd a gwmpesir a ddefnyddir i wneud y cynwysyddion hynny, maint y cynwysyddion a'r defnydd o becynnau aml-gynnwys),

(e) yr effaith debygol ar brynu eitemau ernes gan dreulwyr (gan gynnwys y deunydd a gwmpesir a ddefnyddir i wneud y cynwysyddion hynny, maint y cynwysyddion a brynir, a phrynu pecynnau aml-gynnwys neu eitemau sengl),

(f) yr effaith debygol ar dreulwyr, dibenion y Cynllun a'r targedau casglu, os yw swm yr ernes ar gyfer eitem ernes yn wahanol i'r swm sy'n daladwy am gynhwysydd cymaradwy o dan gynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon neu gynllun ernes a dychwelyd yr Alban, ac

(g) effaith debygol swm arfaethedig yr ernes ar weithrediad cynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon a chynllun ernes a dychwelyd yr Alban.

(4) Cyn gwneud penderfyniad o dan reoliad 61 neu ddiwygiad o dan reoliad 62, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) ymgynghori ag—

(i) y personau y mae'n ystyried eu bod yn cynrychioli'r rhai y mae'r penderfyniad neu'r diwygiad yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt,

(ii) gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon,

(iii) gweinyddwr ernes yr Alban, a

(iv) y personau eraill hynny (os oes rhai) y mae'n ystyried eu bod yn briodol, a

(b) rhoi sylw i'r safbwyntiau a fynegir mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cynhwysydd cymaradwy", mewn perthynas ag eitem ernes, yw cynhwysydd y gellir ei ddychwelyd o dan gynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon neu gynllun ernes a dychwelyd yr Alban ac sydd—

(a) wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r un deunydd a gwmpesir â'r cynhwysydd sy'n dod o'r eitem ernes,

(b) yr un maint â'r cynhwysydd sy'n dod o'r eitem ernes, ac

(c) yn cael ei gyflenwi mewn pecyn aml-gynnwys, os caiff yr eitem ernes ei chyflenwi mewn pecyn aml-gynnwys.

Defnyddio symiau sy'n dod i law fel ernesau

64.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) cadw'r symiau a delir iddo gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig o dan reoliad 23, a

(b) defnyddio'r symiau hynny i dalu cost symiau dychwelyd ar gyfer eitemau y gellir eu dychwelyd o dan reoliadau 43(2), 68(2) a 68(3)(a).

(2) Os oes unrhyw swm yn weddill ar ôl talu'r costau a grybwyllir ym mharagraff (1)(b), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ddefnyddio'r swm hwnnw i ad-dalu i CNC unrhyw gostau CNC nad ydynt wedi eu talu fel arall.

(3) Os oes unrhyw swm yn weddill ar ôl gwneud y taliad o dan baragraff (2), caiff y sefydliad rheoli ernes ddefnyddio'r swm hwnnw i dalu costau arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun.

Pennod 5

Ffioedd am gofrestru

Ffioedd cofrestru ar gyfer cynhyrchwyr cynllun cofrestredig

65.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes godi ffi ar gynhyrchwyr cynllun cofrestredig am flwyddyn gynllun gyfan neu ran ohoni.

(2) Caniateir defnyddio'r ffi a godir o dan baragraff (1) (y "ffi gofrestru") i dalu unrhyw un neu ragor o'r costau a ganlyn neu bob un ohonynt—

(a) costau CNC, a

(b) y costau yr eir iddynt gan y sefydliad rheoli ernes wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun.

(3) Swm y ffi gofrestru sy'n daladwy gan gynhyrchydd cynllun cofrestredig yw cyfanswm y symiau a ganlyn—

(a) y swm cynhyrchydd ar gyfer cynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o blastig polyethylen tereffthalad (PET) (os oes rhai),

(b) y swm cynhyrchydd ar gyfer cynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o ddur (os oes rhai),

(c) y swm cynhyrchydd ar gyfer cynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o alwminiwm (os oes rhai), a

(d) y swm cynhyrchydd ar gyfer cynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o wydr (os oes rhai).

(4) Rhaid cyfrifo'r swm cynhyrchydd ar gyfer cynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o bob un math o ddeunydd a gwmpesir fel a ganlyn (a chaiff fod yn £0)—

$A \times B$

pan—

"A" yw ffi sydd i'w phenderfynu gan y sefydliad rheoli ernes ar gyfer y flwyddyn gynllun berthnasol am gynhwysydd sydd wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r deunydd a gwmpesir penodol (y "ffi fesul cynhwysydd"), a

"B" yw cyfanswm nifer y cynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r deunydd a gwmpesir hwnnw y mae'r sefydliad rheoli ernes yn disgwyl i'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig eu cyflenwi i dreulwyr yn y flwyddyn gynllun berthnasol.

(5) Mewn perthynas â'r ffi fesul cynhwysydd am gynhwysydd sydd wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o ddeunydd a gwmpesir penodol—

(a) rhaid iddi fod yr un peth ar gyfer pob cynhyrchydd cynllun cofrestredig, a

(b) caiff fod yn £0.

(6) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, pan fydd yn penderfynu'r ffi gofrestru, roi sylw i werth tebygol, neu werth gwirioneddol os yw'n hysbys, pob un math o ddeunydd a gwmpesir y mae'n disgwyl iddo gael ei ailgylchu o'r holl eitemau ad-daliad sy'n cael eu casglu gan y sefydliad rheoli ernes, neu eu dychwelyd iddo, yn y flwyddyn gynllun berthnasol.

(7) Ni chaiff y ffi fesul cynhwysydd am un math o ddeunydd a gwmpesir gyfrannu at dalu costau perthnasol unrhyw ddeunydd a gwmpesir arall.

(8) Ym mharagraff (7), "costau perthnasol" deunydd a gwmpesir yw'r costau y mae'r sefydliad rheoli ernes yn disgwyl mynd iddynt wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Cynllun, neu mewn cysylltiad ag ef, mewn perthynas â chasglu, prosesu, ailgylchu ac ailddefnyddio eitemau ad-daliad sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r deunydd hwnnw.

(9) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) cadw'r ffi gofrestru o dan adolygiad,

(b) cynnal adolygiad llawn o weithrediad y ffi gofrestru o leiaf bob 12 mis, ac

(c) cyhoeddi'r ffi gofrestru yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol i ddwyn y ffi gofrestru i sylw cynhyrchwyr cynllun cofrestredig a datgan bod gan y cynhyrchwyr hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu'r penderfyniad.

(10) Cyn penderfynu, neu ailbenderfynu, y ffi gofrestru, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ymgynghori ag—

(a) cynhyrchwyr cynllun cofrestredig, a

(b) y personau eraill hynny (os oes rhai) y mae'n ystyried eu bod yn briodol,

a rhoi sylw i'r safbwyntiau a fynegir mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

(11) Caiff y sefydliad rheoli ernes bennu ar ba adegau neu ysbeidiau, a thrwy ba gyfrwng, y mae rhaid talu'r ffi gofrestru.

(12) Caiff y sefydliad rheoli ernes wneud trefniadau talu gwahanol ar gyfer achosion gwahanol neu amgylchiadau gwahanol ac yn benodol—

(a) rhaid iddo sicrhau nad yw unrhyw ffi gofrestru a godir ar gynhyrchydd cynllun cofrestredig o dan baragraff (1) yn cynnwys ffi mewn cysylltiad â chynhwysydd sy'n dod o ddiod gynhwysydd sy'n gynnyrch swmp isel cofrestredig yn ystod y flwyddyn gynllun berthnasol;

(b) caiff wneud trefniadau i'r ffi gofrestru gael ei gostwng, ei hepgor neu ei had-dalu (pa un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol).

Defnyddio ffioedd cofrestru

66.—(1) Os nad yw'r sefydliad rheoli ernes ond yn codi'r ffi gofrestru i dalu unrhyw gostau CNC neu'r holl gostau hynny, rhaid iddo dalu'r ffi gofrestru sy'n dod i'w law i CNC.

(2) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes, os yw'n codi'r ffi gofrestru i dalu unrhyw gostau CNC neu'r holl gostau hynny ac unrhyw gostau ei hun neu'r holl gostau hynny—

(a) rhaid iddo dalu swm y ffi gofrestru sy'n dod i'w law fel sy'n angenrheidiol i dalu'r costau CNC perthnasol, a

(b) os oes unrhyw swm yn weddill, caiff ddefnyddio'r swm hwnnw i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau ei hun o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun.

(3) Os nad yw'r sefydliad rheoli ernes ond yn codi'r ffi gofrestru i dalu unrhyw gostau ei hun neu'r holl gostau hynny, rhaid iddo ddefnyddio'r ffioedd cofrestru sy'n dod i'w law i dalu'r costau hynny.

Pennod 6

Adolygiad o weithrediad mannau dychwelyd a chasglu etc. eitemau y gellir eu dychwelyd

Adolygiad o weithrediad mannau dychwelyd

67.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, ar ysbeidiau y mae'n ystyried eu bod yn briodol, gynnal adolygiad o weithrediad pob man dychwelyd yng Nghymru.

(2) Wrth gynnal adolygiad o dan baragraff (1), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ystyried, yn benodol—

(a) nifer y mannau dychwelyd;

(b) lleoliad y mannau dychwelyd, ac yn benodol a oes gan dreulwyr fynediad rhesymol i o leiaf un man dychwelyd;

(c) nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd sy'n cael eu dychwelyd yn y mannau dychwelyd;

(d) y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r mannau dychwelyd;

(e) yr effaith debygol ar nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd sy'n cael eu dychwelyd mewn mannau dychwelyd pe bai nifer y mannau dychwelyd yn cael ei gynyddu neu ei ostwng;

(f) yr effaith debygol ar nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd sy'n cael eu dychwelyd mewn mannau dychwelyd pe bai lleoliad y mannau dychwelyd yn cael ei newid heb newid nifer y mannau dychwelyd;

(g) yr effaith debygol ar y costau yr eir iddynt wrth weithredu'r Cynllun, neu'r incwm sy'n deillio o'r Cynllun, pe bai nifer y mannau dychwelyd yn cael ei gynyddu neu ei ostwng;

(h) yr effaith debygol ar y costau yr eir iddynt wrth weithredu'r Cynllun, neu'r incwm sy'n deillio o'r Cynllun, pe bai lleoliad mannau dychwelyd yn cael ei newid heb newid nifer y mannau dychwelyd;

(i) unrhyw wybodaeth am lefelau sbwriel cyffredinol a lefel y cynwysyddion mewn sbwriel;

(j) unrhyw wybodaeth am nifer yr ymwelwyr â'r ardal sy'n destun yr adolygiad;

(k) a oes mynediad digonol i fannau dychwelyd ar gyfer personau sy'n byw mewn pentrefi ac ardaloedd gwledig.

(3) Caiff y sefydliad rheoli ernes gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau a bennir ym mharagraff (4) pan fo'n ystyried y gellid gostwng nifer y mannau dychwelyd heb—

(a) lleihau nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd sy'n cael eu dychwelyd o dan y Cynllun, neu

(b) lleihau mynediad rhesymol i fannau dychwelyd, neu gael gwared arno, mewn unrhyw ran o Gymru.

(4) Y camau a grybwyllir ym mharagraff (3) yw—

(a) cynnig i fanwerthwr a gwmpesir sydd wedi ei gofrestru'n weithredwr man dychwelyd mandadol ei fod yn gwneud cais am esemptiad man dychwelyd mewn cysylltiad â mangre a bennir gan y sefydliad rheoli ernes;

(b) cynnig i gyflenwr cynllun sydd wedi ei awdurdodi i weithredu man dychwelyd gwirfoddol ei fod yn gofyn am ddirymu ei awdurdodiad i weithredu'r man dychwelyd hwnnw;

(c) peidio â gweithredu mwyach un neu ragor o'r mannau dychwelyd y mae'r sefydliad rheoli ernes yn eu gweithredu.

(5) Caiff y sefydliad rheoli ernes gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau a bennir ym mharagraff (6) pan fo'n ystyried bod angen cynnydd yn nifer y mannau dychwelyd er mwyn—

(a) cynyddu nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd sy'n cael eu dychwelyd o dan y Cynllun, neu

(b) gwella mynediad i fannau dychwelyd ar gyfer treulwyr mewn unrhyw ran o Gymru.

(6) Y camau a grybwyllir ym mharagraff (5) yw—

(a) cynnal adolygiad o'r esemptiadau man dychwelyd presennol a phenderfynu a ddylid cynnig dirymu unrhyw un neu ragor ohonynt;

(b) sefydlu a gweithredu un neu ragor o fannau dychwelyd ychwanegol ei hun;

(c) unrhyw gam arall y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried ei fod yn briodol.

(7) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn cymryd unrhyw gamau o dan baragraff (4) neu (6)—

(a) rhaid iddo roi sylw i'r effaith debygol ar gostau gweithredu'r Cynllun;

(b) caiff gymryd camau gwahanol mewn perthynas â rhannau gwahanol o Gymru.

Casglu etc. eitemau y gellir eu dychwelyd o gasglwyr cynllun a manwerthwyr cynllun a thaliadau cysylltiedig

68.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) casglu'r holl eitemau y gellir eu dychwelyd sydd wedi eu derbyn gan weithredwyr man dychwelyd o'r gweithredwyr hynny;

(b) casglu'r holl eitemau ad-daliad o fangreoedd yfed lle y gwerthir a mangreoedd manwerthu cymysg;

(c) casglu, neu dderbyn dychwelyd, yr holl eitemau y gellir eu dychwelyd sydd wedi eu derbyn gan ddarparwyr gwasanaeth cymryd yn ôl.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes dalu i bob manwerthwr cynllun y mae'n casglu unrhyw eitemau ad-daliad ohono swm sy'n hafal i gyfanswm yr ad-daliadau a dalwyd gan y manwerthwr cynllun mewn cysylltiad â'r eitemau ad-daliad a gasglwyd.

(3) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes dalu i bob casglwr cynllun y mae'n casglu, neu'n derbyn, eitemau y gellir eu dychwelyd ohono—

(a) y swm dychwelyd ar gyfer pob eitem y gellir ei dychwelyd y mae'n ei chasglu neu'n ei derbyn o'r casglwr cynllun, a

(b) os yw'r casglwr cynllun yn weithredwr man dychwelyd, y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes wneud unrhyw daliad sy'n ofynnol o dan baragraff (2) neu (3)(a)—

(a) ar yr ysbeidiau a nodir yn ei gynllun gweithredol, a

(b) yn y modd a nodir yn ei gynllun gweithredol.

Y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd

69.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ddarparu i daliad ("taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd") gael ei dalu gan y sefydliad rheoli ernes i bob gweithredwr man dychwelyd (heblaw'r sefydliad rheoli ernes ei hun).

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes benderfynu swm y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd gan roi sylw i'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys—

(a) cost prynu neu lesio unrhyw beirianwaith, offer neu ddeunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer casglu neu storio (neu'r ddau) eitemau y gellir eu dychwelyd;

(b) cost amser staff sydd wedi ei neilltuo i gasglu neu storio (neu'r ddau) eitemau y gellir eu dychwelyd;

(c) gwerth rhent y gofod llawr neu unrhyw ran o unrhyw fangre a ddefnyddir yn unig ar gyfer casglu neu storio (neu'r ddau) eitemau y gellir eu dychwelyd.

(3) Caiff y sefydliad rheoli ernes benderfynu bod y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd yn wahanol mewn achosion gwahanol.

(4) Cyn penderfynu swm y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd o dan baragraff (2), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ymgynghori ag—

(a) CNC,

(b) gweithredwyr man dychwelyd neu bersonau sy'n cynrychioli gweithredwyr man dychwelyd, ac

(c) y personau eraill hynny (os oes rhai) y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried eu bod yn briodol,

a rhoi sylw i'r safbwyntiau a fynegir mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

(5) Mae penderfyniad o dan baragraff (2) ar swm y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd yn cael effaith am gyfnod nad yw'n hwy na 3 blynedd, gan ddechrau â dyddiad y penderfyniad.

(6) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) caiff wneud penderfyniad pellach o dan baragraff (2) ar unrhyw adeg ar swm y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd, a

(b) rhaid iddo wneud penderfyniad pellach o dan baragraff (2) i gymryd effaith ar ddiwedd y cyfnod o 3 blynedd, gan ddechrau â dyddiad y penderfyniad blaenorol.

Pennod 7

Ailgylchu deunyddiau a gwmpesir ac ailddefnyddio eitemau ad-daliad

Ailgylchu deunydd a gwmpesir sy'n dod o eitemau ad-daliad a ddychwelwyd

70.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes wneud trefniadau ar gyfer ailgylchu'r deunydd a gwmpesir y mae eitemau a ddychwelwyd wedi eu gwneud ohono.

(2) Rhaid i'r trefniadau a wneir o dan baragraff (1) gynnwys darpariaeth sy'n rhoi hawl i gael y cynnig cyntaf, am bob cyfnod penodedig, i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig.

(3) Ystyr hawl i gael y cynnig cyntaf o dan baragraff (2) yn hawl i brynu'r swm priodol (os o gwbl) o bob deunydd a gwmpesir sydd wedi ei adennill o eitemau a ddychwelwyd ("deunydd a adenillwyd") yn ystod y cyfnod penodedig perthnasol am werth marchnadol y deunydd a gwmpesir hwnnw.

(4) Ym mharagraff (3)—

(a) y "swm priodol" o ddeunydd a adenillwyd yw swm nad yw'n fwy na'r gyfran berthnasol o'r deunydd a adenillwyd hwnnw;

(b) ystyr "gwerth marchnadol" yw'r pris y byddai'r deunydd a gwmpesir yn newid dwylo amdano rhwng prynwr parod a gwerthwr parod pan nad yw'r un ohonynt o dan unrhyw orfodaeth i brynu nac i werthu, a phan fo'r ddau ohonynt â gwybodaeth resymol am ffeithiau perthnasol.

(5) Cyfrifir y gyfran berthnasol o ddeunydd a adenillwyd fel a ganlyn—

SCC/CSC

pan—

ystyr "SCC" yw nifer yr eitemau ernes â chynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r deunydd a adenillwyd ac a gyflenwyd gan y cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn ystod y cyfnod penodedig;

ystyr "CSC" yw cyfanswm nifer yr eitemau ernes â chynwysyddion sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o'r deunydd a adenillwyd ac a gyflenwyd gan yr holl gynhyrchwyr cynllun cofrestredig yn ystod y cyfnod penodedig.

(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfnod penodedig" ("*specified period*") yw cyfnod a bennir mewn trefniadau a wneir gan y sefydliad rheoli ernes o dan baragraff (1);

ystyr "eitemau a ddychwelwyd" ("*returned items*") yw'r eitemau ad-daliad sydd wedi eu casglu neu eu derbyn gan y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 43 neu 68.

Ailgylchu deunydd a gwmpesir sy'n dod o eitemau a ddychwelwyd eraill

71.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes wneud trefniadau â'r gweinyddwr perthnasol ar gyfer ailgylchu, neu hwyluso ailgylchu, y deunydd a gwmpesir y mae eitemau perthnasol a ddychwelwyd wedi eu gwneud ohono.

(2) Caiff y trefniadau a wneir o dan baragraff (1) fod yn unig ar gyfer dychwelyd yr eitemau perthnasol a ddychwelwyd i'r gweinyddwr perthnasol.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "eitem berthnasol a ddychwelwyd" ("*relevant returned item*") yw—

(a) mewn perthynas â gweinyddwr cynllun tramor, eitem cynllun tramor sydd—

(i) yn ddarostyngedig i'r cynllun tramor penodedig y mae'r gweinyddwr yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef, a

(ii) wedi cael ei chasglu neu ei derbyn gan y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 43 neu 68;

(b) mewn perthynas â gweinyddwr ernes yr Alban, eitem cynllun yr Alban sydd—

(i) yn ddarostyngedig i gynllun ernes a dychwelyd yr Alban y mae gweinyddwr ernes yr Alban yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef, a

(ii) wedi cael ei chasglu neu ei derbyn gan y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 43 neu 68;

(c) mewn perthynas â gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon, eitem cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd—

(i) yn ddarostyngedig i gynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon y mae gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef, a

(ii) wedi cael ei chasglu neu ei derbyn gan y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 43 neu 68;

ystyr "gweinyddwr perthnasol" ("*relevant administrator*") yw—

(a) gweinyddwr cynllun tramor,

(b) gweinyddwr ernes yr Alban, neu

(c) gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Symiau sy'n dod i law mewn cysylltiad â threfniadau a wneir o dan reoliad 70 neu 71

72.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes gadw unrhyw swm sy'n dod i'w law mewn cysylltiad â'r trefniadau a wneir o dan reoliad 70 neu 71.

(2) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ddefnyddio unrhyw swm a gedwir o dan baragraff (1) i dalu unrhyw gostau CNC nad ydynt wedi eu talu fel arall;

(b) os oes unrhyw swm yn weddill, caiff ddefnyddio'r swm hwnnw i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun.

Ailddefnyddio eitemau ad-daliad a ddychwelwyd

73.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes wneud trefniadau ar gyfer ailddefnyddio eitemau ad-daliad a ddychwelwyd.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "eitemau ad-daliad a ddychwelwyd" yw'r eitemau ad-daliad, y gellir eu hailddefnyddio, sydd wedi eu casglu neu eu derbyn gan y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 43 neu 68.

Pennod 8

CNC

Taliadau i CNC

74. Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes wneud unrhyw daliad y mae'n ofynnol ei wneud i CNC o dan y Rhan hon drwy'r cyfrwng, yn y modd ac ar yr ysbeidiau y cytunir arnynt ag CNC.

Gwybodaeth am ddata dychweliadau

75.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) cyflenwi data dychweliadau i gynhyrchwyr cynllun cofrestredig,

(b) hysbysu pob cynhyrchydd cynllun cofrestredig, yn y modd ac ar yr ysbeidiau y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ystyried eu bod yn briodol, am y nifer o bob un o eitemau ernes y cynhyrchydd hwnnw a ddychwelwyd i'r sefydliad rheoli ernes ac yr ad-dalwyd ernesau mewn cysylltiad â hwy, ac

(c) rhoi'r data dychweliadau ar gael i CNC.

(2) Yn y rheoliad hwn mae "data dychweliadau" yn cynnwys—

(a) gwybodaeth sy'n galluogi cynhyrchwyr cynllun cofrestredig i ganfod nifer y cynwysyddion a ddychwelwyd neu nas dychwelwyd o dan y Cynllun, gan gynnwys cyfran y dychweliadau fesul cynnyrch,

(b) gwybodaeth am ernesau sydd heb eu had-dalu,

(c) gwybodaeth sy'n ymwneud â lleoliadau dychweliadau, a

(d) gwybodaeth am ddychweliadau sy'n dod i law'r sefydliad rheoli ernes oddi wrth weinyddwyr cynllun eraill.

Cydweithrediad

76.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ac CNC ymrwymo i drefniadau, a chynnal y trefniadau hynny, ar gyfer sicrhau cydweithrediad a chyfnewid gwybodaeth mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau CNC heblaw unrhyw swyddogaeth orfodi berthnasol.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ac CNC—

(a) adolygu'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) o bryd i'w gilydd, a

(b) adolygu'r trefniadau pan fyddant yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Pennod 9

Gweithio gyda gweinyddwyr cynllun eraill

Cydweithrediad a chydweithio

77.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes—

(a) pan fo'n ystyried ei bod yn briodol ar gyfer cyflawni'r Cynllun, neu unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Cynllun, yn effeithlon ac yn effeithiol, gydweithredu neu gydweithio â gweinyddwr penodedig;

(b) darparu cyngor neu gymorth i weinyddwr penodedig mewn cysylltiad â swyddogaethau'r gweinyddwr hwnnw o dan gynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon, cynllun ernes a dychwelyd yr Alban neu gynllun tramor.

(2) Caiff y trefniadau hynny gynnwys—

(a) trefniadau sydd â'r bwriad o symleiddio gweithdrefnau cofrestru ar gyfer cynhyrchwyr a mewnforwyr sy'n cyflenwi diodydd cynhwysydd yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig;

(b) trefniadau sydd â'r bwriad o symleiddio'r broses o ddychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd ar gyfer y defnyddiwr terfynol neu'r treuliwr terfynol;

(c) trefniadau ar gyfer ailgylchu, neu i hwyluso ailgylchu, unrhyw ddeunydd a gwmpesir sydd wedi ei adennill o—

(i) eitemau ad-daliad a ddychwelwyd drwy gynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu gynllun ernes a dychwelyd yr Alban;

(ii) eitemau cynllun tramor.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gweinyddwr penodedig" yw—

(a) gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon,

(b) gweinyddwr ernes yr Alban, neu

(c) gweinyddwr cynllun tramor.

Taliadau i weinyddwyr penodedig

78.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes wneud taliadau i weinyddwr penodedig mewn cysylltiad â gweithrediad y Cynllun neu gynllun penodedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, daliadau sy'n hafal i gyfanswm unrhyw ad-daliadau a delir gan y gweinyddwr penodedig mewn cysylltiad ag eitemau ad-daliad a ddychwelwyd drwy'r cynllun penodedig.

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cynllun penodedig" ("*specified scheme*") yw—

(a) cynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu

(b) cynllun ernes a dychwelyd yr Alban;

ystyr "gweinyddwr penodedig" ("*specified administrator*") yw—

(a) gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu

(b) gweinyddwr ernes yr Alban.

Pennod 10

Adolygu penderfyniadau

Adolygiad mewnol o benderfyniadau a wneir gan y sefydliad rheoli ernes

79.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os—

(a) yw'r sefydliad rheoli ernes yn gwneud penderfyniad perthnasol, a

(b) o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y daw hysbysiad o'r penderfyniad i law'r person yr effeithir arno, neu unrhyw gyfnod hirach a bennir gan y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 80(1)(a), yw'r person yr effeithir arno yn gwneud cais i'r sefydliad rheoli ernes i adolygu'r penderfyniad.

(2) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae pob penderfyniad a grybwyllir yng ngholofn 1 y tabl yn “penderfyniad perthnasol”, a

(b) mae person yn “person yr effeithir arno” mewn perthynas â phenderfyniad perthnasol os y’i crybwyllir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

(3) Rhaid i’r sefydliad rheoli ernes gynnal adolygiad o benderfyniad perthnasol yn unol â rheoliad 80.

(4) Pan ddaw adolygiad o benderfyniad perthnasol i ben, rhaid i’r sefydliad rheoli ernes—

(a) cadarnhau’r penderfyniad (pa un ai ar yr un sail neu ar sail wahanol),

(b) gwneud y newidiadau hynny i’r penderfyniad y mae’n ystyried eu bod yn briodol, neu

(c) dirymu’r penderfyniad.

(5) Rhaid i’r sefydliad rheoli ernes hysbysu’r person yr effeithir arno am y penderfyniad yn dilyn yr adolygiad cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y penderfyniad.

Colofn 1 - Penderfyniad perthnasol	***Colofn 2 - Person yr effeithir arno***
Penderfyniad i wrthod cais person i gofrestru llinell swmp isel o dan reoliad 19	y person sy’n gwneud y cais
Penderfyniad i ganslo cofrestriad cynnyrch yn llinell swmp isel o dan reoliad 20	y cynhyrchydd cynllun cofrestredig ar gyfer y cynnyrch hwnnw
Penderfyniad ynghylch swm ffi gofrestru sy’n daladwy gan gynhyrchydd cynllun o dan reoliad 65	y cynhyrchydd cynllun cofrestredig
Penderfyniad ynghylch swm y taliad am drin eitemau y gellir eu dychwelyd sy’n daladwy i weithredwr man dychwelyd o dan reoliad 69	y gweithredwr man dychwelyd
Penderfyniad i ganslo cofrestriad person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig o dan baragraff 6 o Atodlen 1	y person y mae ei gofrestriad wedi ei ganslo
Penderfyniad i ganslo cofrestriad person yn weithredwr man dychwelyd mandadol o dan baragraff 4 o Atodlen 2	y manwerthwr cynllun
Penderfyniad i wrthod cais am esemptiad man dychwelyd o dan baragraff 3 o Atodlen 3	y person sy’n gwneud y cais
Penderfyniad i wrthod adnewyddu esemptiad man dychwelyd o dan baragraff 6 o Atodlen 3	y person sy’n gwneud y cais
Penderfyniad i ddirymu esemptiad man dychwelyd o dan baragraff 9 o Atodlen 3	y person y mae ei esemptiad wedi ei ddirymu
Penderfyniad i wrthod cais person am awdurdodiad i weithredu man dychwelyd o dan baragraff 4 o Atodlen 4	y person sy’n gwneud y cais
Penderfyniad i wrthod cais person am awdurdodiad yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl o dan baragraff 7 o Atodlen 4	y person sy’n gwneud y cais

Colofn 1 - Penderfyniad perthnasol	*Colofn 2 - Person yr effeithir arno*
Penderfyniad i ddirymu awdurdodiad cyflenwr cynllun i weithredu man dychwelyd o dan baragraff 11 o Atodlen 4	y person y mae ei awdurdodiad wedi ei ddirymu
Penderfyniad i ddirymu awdurdodiad manwerthwr cynllun yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl o dan baragraff 11 o Atodlen 4	y person y mae ei awdurdodiad wedi ei ddirymu

Adolygiad mewnol: y weithdrefn

80.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes bennu'r weithdrefn ar gyfer yr adolygiad mewnol ("adolygiad") o benderfyniad perthnasol ac, yn benodol, caiff—

(a) nodi'r amgylchiadau pan gaiff y sefydliad rheoli ernes dderbyn cais am adolygiad ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 79(1)(b);

(b) pennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae cais am adolygiad i'w wneud;

(c) pennu'r wybodaeth y mae rhaid i gais am adolygiad ei chynnwys ac unrhyw ddogfennaeth y mae rhaid iddi fynd gyda'r cais;

(d) darparu i'r sefydliad rheoli ernes ofyn am yr wybodaeth neu'r ddogfennaeth bellach honno sy'n rhesymol ofynnol ganddo er mwyn cwblhau adolygiad o'r penderfyniad perthnasol, a phennu—

(i) ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth bellach honno i'w darparu;

(ii) y cyfnod y mae'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth bellach honno i'w darparu ynddo;

(e) darparu i'r sefydliad rheoli ernes ddiystyru unrhyw wybodaeth neu unrhyw ddogfennaeth nas darperir ar y ffurf benodedig neu yn y modd penodedig, neu o fewn y cyfnod penodedig.

(2) Ni chaiff y sefydliad rheoli ernes ei gwneud yn ofynnol talu ffi mewn cysylltiad â chais am adolygiad.

(3) Yn y rheoliad hwn mae i "penderfyniad perthnasol" yr ystyr a roddir yn rheoliad 79(2).

Statws penderfyniadau wrth aros am ganlyniad adolygiad mewnol

81.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person yr effeithir arno yn gwneud cais am adolygiad mewnol ("adolygiad") o benderfyniad perthnasol.

(2) Mae effaith y penderfyniad perthnasol wedi ei atal dros dro yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y gwneir y cais am yr adolygiad, a

(b) sy'n dod i ben â diwedd y diwrnod yr hysbysir y person am benderfyniad y sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 79(5).

(3) Yn y rheoliad hwn mae i "person yr effeithir arno" a "penderfyniad perthnasol" yr ystyron a roddir yn rheoliad 79(2).

Pennod 11

Dirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes

Dirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes

82. Mae Rhannau 3 a 4 o Atodlen 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch dirymu penodiad yn sefydliad rheoli ernes a materion cysylltiedig.

Gweinyddwr cynllun interim

83.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fodlonir amod 1 neu amod 2.

(2) Amod 1 yw nad yw Gweinidogion Cymru wedi penodi person yn sefydliad rheoli ernes yn flaenorol ac nad yw 30 Medi 2027 wedi mynd heibio.

(3) Amod 2 yw—

(a) bod Gweinidogion Cymru yn dirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes (yr "SRhE ymadawol"), a

(b) bod y dirymiad yn cymryd effaith cyn penodi person arall yn sefydliad rheoli ernes.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyflawni swyddogaethau SRhE nad ydynt wedi eu rhestru ym mharagraff (11) yn ystod y cyfnod interim, neu

(b) penodi person arall i gyflawni'r swyddogaethau hynny yn ystod y cyfnod interim.

(5) Caiff penodiad person o dan baragraff (4)(b) yn weinyddwr cynllun interim fod yn ddarostyngedig i'r amodau hynny (os o gwbl), drwy hysbysiad ysgrifenedig, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig, amrywio neu ddirymu unrhyw amod y mae gweinyddwr cynllun interim a benodir o dan baragraff (4)(b) yn ddarostyngedig iddo.

(7) Rhaid i weinyddwr cynllun interim a benodir o dan baragraff (4)(b) gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir gan Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn.

(8) Mewn perthynas â phenodiad person o dan baragraff (4)(b) yn weinyddwr cynllun interim—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig o fewn 3 mis i gael hysbysiad oddi wrth y person hwnnw yn datgan bod y person yn dymuno peidio â bod yn weinyddwr cynllun interim;

(b) caiff Gweinidogion Cymru ei ddirymu, drwy hysbysiad ysgrifenedig, fel y maent yn ystyried ei bod yn briodol.

(9) Mae'r Cynllun yn gymwys yn ystod y cyfnod interim gyda'r addasiadau a nodir ym mharagraffau (10) i (12).

(10) Mae cyfeiriadau at y sefydliad rheoli ernes yn y Rheoliadau hyn i'w darllen fel cyfeiriad at y gweinyddwr cynllun interim, ac eithrio'r darpariaethau hynny a restrir ym mharagraff (11).

(11) Y darpariaethau a restrir yn y paragraff hwn yw—

(a) rheoliad 1 (enwi a dod i rym),

(b) rheoliad 9 (dehongli cyffredinol),

(c) rheoliad 51 (y sefydliad rheoli ernes),

(d) rheoliad 52 (amodau),

(e) rheoliad 55 (cronfa wrth gefn),

(f) rheoliad 82 (dirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes),

(g) rheoliad 83 (gweinyddwr cynllun interim),

(h) rheoliad 99 (yr hawl i apelio),

(i) rheoliad 101 (statws wrth aros am apêl: penderfyniad i wrthod cais person i gael ei benodi'n sefydliad rheoli ernes),

(j) rheoliad 102 (statws wrth aros am apêl: penderfyniad i ddirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes), a

(k) Atodlen 5 (penodi etc. y sefydliad rheoli ernes).

(12) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau SRhE yn ystod y cyfnod interim—

(a) mae rheoliad 53 (cynllun gweithredol) yn cael ei drin fel pe bai wedi ei hepgor i'r graddau y mae'n ymwneud â chymeradwyo diwygiadau i'r cynllun gweithredol;

(b) mae rheoliad 54 (adroddiad blynyddol) i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn ei le—

"54.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn gynllun o dan sylw.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi sut, ac i ba raddau, y mae Gweinidogion Cymru wedi gweithredu, yn ystod y flwyddyn gynllun berthnasol, yn unol â'r cynllun gweithredol.

(3) Rhaid llunio'r adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a pha un bynnag o fewn cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth diwrnod olaf y flwyddyn gynllun y mae'n ymwneud â hi.";

(c) mae rheoliad 105 (adroddiadau blynyddol gan sefydliad rheoli ernes) yn cael ei drin fel pe bai wedi ei hepgor.

(13) Yn y rheoliad hwn—

(a) pan fodlonir amod 1, ystyr "cyfnod interim" yw'r cyfnod—

(i) sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r rheoliad hwn yn dod i rym, a

(ii) sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod cyn y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn penodi gyntaf berson yn sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 51(1);

(b) pan fodlonir amod 2, ystyr "cyfnod interim" yw'r cyfnod—

(i) sy'n dechrau â'r dyddiad dirymu, a

(ii) sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod cyn y diwrnod y mae penodiad nesaf person yn sefydliad rheoli ernes yn cymryd effaith;

(c) ystyr "dyddiad dirymu" yw'r dyddiad y mae dirymiad penodiad yr SRhE ymadawol yn cymryd effaith.

RHAN 8

Targedau

Targedau casglu: y sefydliad rheoli ernes

84.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes sicrhau bod y Cynllun, ynghyd ag unrhyw drefniadau ailgylchu cilyddol, yn gweithredu i sicrhau bod y cyfanswm gofynnol o eitemau ad-daliad ("targedau casglu") o leiaf yn cael ei ddychwelyd i'r sefydliad rheoli ernes.

(2) Y cyfanswm gofynnol o eitemau ad-daliad yw—

(a) yn y flwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2028, 70% o'r holl eitemau ad-daliad o eitemau ernes heblaw eitemau ernes gwydr a gyflenwir gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig;

(b) yn y flwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2029, 80% o'r holl eitemau ad-daliad o eitemau ernes heblaw eitemau ernes gwydr a gyflenwir gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig;

(c) yn y flwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2030, 80% o'r holl eitemau ad-daliad o eitemau ernes a gyflenwir gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig;

(d) yn y flwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2031, 85% o'r holl eitemau ad-daliad o eitemau ernes a gyflenwir gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig;

(e) yn y flwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2032, ac ym mhob blwyddyn galendr ddilynol, 95% o'r holl eitemau ad-daliad o eitemau ernes a gyflenwir gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig.

(3) At ddibenion paragraffau (2)(c), (d) a (e) rhaid i swm y cynwysyddion a ddychwelwyd gynnwys—

(a) o leiaf 85% o eitemau ad-daliad sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o blastig polyethylen tereffthalad (PET), a

(b) o leiaf 85% o eitemau ad-daliad sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o unrhyw ddeunydd a gwmpesir arall.

(4) At ddibenion—

(a) paragraff (2)(d), o'r 85% o eitemau ad-daliad, rhaid i o leiaf 5% fod yn eitemau y gellir eu hailddefnyddio;

(b) paragraff (2)(e), o'r 95% o eitemau ad-daliad, rhaid i o leiaf 15% fod yn eitemau y gellir eu hailddefnyddio.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae eitem ad-daliad i'w thrin fel pe bai'n cael ei dychwelyd i'r sefydliad rheoli ernes os yw—

(a) yn ddarostyngedig i drefniadau ailgylchu cilyddol, a

(b) yn cael ei dychwelyd i berson yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban yn unol â'r trefniadau hynny.

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "trefniadau ailgylchu cilyddol" yw—

(a) trefniadau a gynhelir gan y sefydliad rheoli ernes gyda gweinyddwr cynllun Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer ailgylchu eitemau ad-daliad sy'n cael eu dychwelyd i gasglwyr cynllun yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu

(b) trefniadau a gynhelir gan y sefydliad rheoli ernes gyda gweinyddwr ernes yr Alban ar gyfer ailgylchu eitemau ad-daliad sy'n cael eu dychwelyd i gasglwyr cynllun yn yr Alban.

RHAN 9

Gorfodi

Pennod 1

Dehongli

Dehongli Rhan 9

85.—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr “awdurdod priodol” (“*appropriate authority*”) yw—

(a) yr awdurdod pwysau a mesurau lleol, mewn perthynas â’r darpariaethau ALlP fel y maent yn gymwys yn ardal yr awdurdod, neu

(b) CNC;

ystyr “camau gorfodi” (“*enforcement action*”) yw arfer pwerau a swyddogaethau gorfodi gan CNC o dan y Rhan hon;

ystyr “y darpariaethau ALlP” (“*the ALA provisions*”) yw’r darpariaethau a ganlyn yn y Rheoliadau hyn—

(a) rheoliad 24 (gofyniad i gyflenwi eitemau ernes gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig);

(b) rheoliad 25(1)(a) (gofyniad i eitemau ernes ddangos logo eitem pan y’u cyflenwir);

(c) rheoliad 25(1)(b) (gofyniad i eitemau ernes ddangos cod dychwelyd cynllun pan y’u cyflenwir);

(d) rheoliad 25(2) (gofyniad i becynnau aml-gynnwys cynllun ddangos y logo pecynwaith pan y’u cyflenwir);

(e) rheoliad 26(1) (gofyniad nad yw cynnyrch swmp isel i ddangos logo cynllun neu god dychwelyd cynllun);

(f) rheoliad 27(1) a (6) (gofyniad i ddarparu neu arddangos, neu ddarparu i arddangos, wybodaeth cynllun);

(g) rheoliad 28(1) (gofyniad i ddarparu neu arddangos, neu ddarparu i arddangos, wybodaeth am gynhyrchion swmp isel);

(h) rheoliad 29(1) (cyflenwr cynllun: gofyniad i godi ernes);

(i) rheoliad 35(1) (gofyniad i weithredu man dychwelyd);

(j) rheoliad 37(1) (gofyniad i arddangos gwybodaeth mewn mangre pan na fo man dychwelyd yn cael ei weithredu);

(k) rheoliad 40 (yr wybodaeth sydd i’w darparu mewn man dychwelyd);

(l) rheoliad 41 (darparu gwasanaethau cymryd yn ôl);

(m) rheoliad 42(1) a (5) (gofyniad i ddarparu neu arddangos gwybodaeth am wasanaeth cymryd yn ôl, neu ddarparu’r wybodaeth honno i’w harddangos);

(n) rheoliad 47(1), (2) a (3) (gofynion o ran talu swm dychwelyd cyfan);

(o) rheoliad 48(2) (gofyniad i hysbysu sefydliad rheoli ernes fod person yn dewis i’r swm dychwelyd cyfan fynd i elusen);

(p) rheoliad 49 (gofyniad i gadw eitemau y gellir eu dychwelyd);

(q) rheoliad 50 (gofyniad i ddarparwyr gwasanaeth cymryd yn ôl gadw neu ddychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd);

(r) rheoliad 87(1) (darparu gwybodaeth);

ystyr "Tabl SS" ("*CS Table*") yw'r Tabl Sancsiynau Sifil yn Rhan 2 o Atodlen 6.

Pennod 2

Pwerau gorfodi

Pwerau gorfodi

86.—(1) Caiff awdurdod priodol awdurdodi, yn ysgrifenedig, berson addas i arfer y pwerau mynediad ac arolygu a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Y pwerau mynediad ac arolygu yw'r rhai a nodir yn adran 108(4)(a) i (c), (e), (f) ac (h) i (ka) o DA 1995.

(3) Mae adran 108(4) o DA 1995 i'w darllen fel pe bai—

(a) unrhyw gyfeiriad at "authorised person" (sut bynnag y'i mynegir) yn gyfeiriad at berson a awdurdodir o dan baragraff (1);

(b) yn adran 108(4)(a), y geiriau "(or, in an emergency, at any time and, if need be, by force)" wedi eu hepgor;

(c) yn adran 108(4)(f)—

(i) "containers (within the meaning of regulation 9 of the Deposit Scheme for Drinks Containers (Wales) Regulations 2026)" wedi ei roi yn lle "articles or substances";

(ii) y geiriau ", and of the air, water or land in, on, or in the vicinity of, the premises" wedi eu hepgor;

(d) yn adran 108(4)(h)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), "container as is mentioned in paragraph (f)" wedi ei roi yn lle "article or substance as is mentioned in paragraph (g)";

(ii) yn is-baragraff (iii), "an offence under regulation 88 or 89, or any other proceedings relating to the imposition of a civil sanction under regulation 92 of the Deposit Scheme for Drinks Containers (Wales) Regulations 2026" wedi ei roi yn lle'r geiriau "an offence" hyd at y diwedd;

(e) yn adran 108(4)(k)—

(i) ", including any information recorded electronically" wedi ei fewnosod ar ôl "computerised form";

(ii) yn is-baragraff (i), "the Deposit Scheme for Drinks Containers (Wales) Regulations 2026" wedi ei roi yn lle'r geiriau o "the pollution control enactments" hyd at "he acts";

(f) yn adran 108(4)(ka)(ii), y geiriau "(other than an article or substance within paragraph (g))" wedi eu hepgor.

(4) Mae adran 108(6) i (7F) o DA 1995 yn gymwys i'r pwerau gorfodi cymhwysol fel y mae'n gymwys i'r pwerau yn adran 108(4) ac mae i'w darllen fel pe bai—

(a) unrhyw gyfeiriad at "authorised person" (sut bynnag y'i mynegir) yn gyfeiriad at berson a awdurdodir o dan baragraff (1);

(b) yn adran 108(6), y geiriau "or to take heavy equipment on to any premises which are to be entered" wedi eu hepgor;

(c) yn adran 108(6) a (7), y geiriau “Except in an emergency,” wedi eu hepgor;

(d) yn adran 108(7B)(a), “the Deposit Scheme for Drinks Containers (Wales) Regulations 2026” wedi ei roi yn lle “the pollution control enactments or flood risk activity enactments”.

(5) Mae adran 108(12), (12A) a (13) o DA 1995 yn gymwys i'r pwerau gorfodi cymhwysol fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r pwerau a roddir gan adran 108(4) o DA 1995.

(6) Mae paragraffau 2 i 6 o Atodlen 18 i DA 1995 (dyroddi gwarantau, arfer pwerau, gwybodaeth sy'n dderbyniadwy mewn tystiolaeth, dyletswydd i wneud mangre yn ddiogel a digolledia) yn gymwys i'r pwerau gorfodi cymhwysol fel y maent yn gymwys i'r pwerau a roddir gan adran 108(4) ond fel pe bai—

(a) unrhyw gyfeiriad at “designated person” (sut bynnag y'i mynegir) yn gyfeiriad at berson a awdurdodir o dan baragraff (1);

(b) unrhyw gyfeiriad at “relevant power” yn gyfeiriad at bŵer gorfodi cymhwysol, gan gynnwys unrhyw bŵer sy'n arferadwy yn rhinwedd gwarant o dan ddarpariaethau'r Atodlen fel y'u cymhwysir gan y paragraff hwn;

(c) ym mharagraff 6(1), y cyfeiriad at “power conferred by section 108(4)(a) or (b) or (5)” yn gyfeiriad at bŵer gorfodi cymhwysol;

(d) unrhyw gyfeiriad at “sheriff” wedi ei hepgor.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “DA 1995” (“*the EA 1995*”) yw Deddf yr Amgylchedd 1995(**12**) fel y mae'n gymwys yng Nghymru;

ystyr “y pwerau gorfodi cymhwysol” (“*the applied enforcement powers*”) yw'r pwerau a roddir gan baragraffau (1) a (2) fel y'u haddesir gan baragraff (3).

Gwybodaeth

87.—(1) Caiff awdurdod priodol, drwy hysbysiad (“hysbysiad gwybodaeth”), ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad dyletswydd ddarparu gwybodaeth y mae ei hangen ar yr awdurdod priodol i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun.

(2) Mewn perthynas â hysbysiad gwybodaeth o dan baragraff (1)—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir ei roi i—

(i) deiliad dyletswydd penodedig;

(ii) deiliaid dyletswydd o ddisgrifiad penodedig;

(iii) pob deiliad dyletswydd;

(c) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei darparu ar ffurf benodedig neu mewn dull penodedig;

(d) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei darparu—

(i) erbyn dyddiad penodedig neu ar adeg benodedig, a

(ii) mewn cysylltiad â chyfnod penodedig.

(3) Rhaid i ddeiliad dyletswydd y rhoddir hysbysiad gwybodaeth iddo o dan baragraff (1) gydymffurfio ag ef.

(**12**) 1995 p. 25. Diwygiwyd adran 108 ac Atodlen 18 gan adran 147 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30) ac Atodlen 10 iddi; O.S. 2013/755 (Cy. 90); O.S. 2016/475 ac O.S. 2023/1386. Mae offerynnau diwygio ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "deiliad dyletswydd" ("*duty-holder*") yw—

(a) cynhyrchydd cynllun,

(b) cyflenwr cynllun,

(c) casglwr cynllun, neu

(d) y sefydliad rheoli ernes;

ystyr "penodedig" ("*specified*") yw wedi ei bennu mewn hysbysiad gwybodaeth o dan baragraff (1).

Pennod 3

Troseddau

Rhwystro person awdurdodedig

88.—(1) Mae person sy'n rhwystro'n fwriadol, neu'n methu â chynorthwyo, berson awdurdodedig wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau gorfodi yn euog o drosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw person sydd wedi ei awdurdodi o dan reoliad 86(1);

ystyr "swyddogaethau gorfodi" ("*enforcement functions*"), mewn perthynas â pherson awdurdodedig, yw'r pwerau y mae'r person hwnnw wedi ei awdurdodi i'w harfer o dan reoliad 86.

Methu â chydymffurfio â sancsiwn sifil

89.—(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â sancsiwn sifil a osodir o dan reoliad 92 yn euog o drosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

Atebolrwydd cyfarwyddwyr etc.

90.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo trosedd berthnasol yn cael ei chyflawni gan—

(a) corff corfforedig,

(b) partneriaeth, neu

(c) cymdeithas anghorfforedig heblaw partneriaeth.

(2) Os profir bod y drosedd berthnasol wedi ei chyflawni gan y canlynol, neu gyda chydsyniad neu ymoddefiad y canlynol, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ran y canlynol—

(a) unigolyn perthnasol mewn corff corfforedig neu bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, neu

(b) unigolyn sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn rhinwedd a grybwyllir yn is-baragraff (a),

mae'r uwch-swyddog hwnnw neu'r person hwnnw (yn ogystal â'r corff corfforedig, y bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) Pan fo person ("A") yn cyflawni trosedd berthnasol o ganlyniad i weithred neu ddiffyg rhyw berson arall ("B"), mae B hefyd yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny, pa un a erlynir A am y drosedd ai peidio.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "partneriaeth" ("*partnership*") yw partneriaeth, heblaw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, ac mae'n cynnwys partneriaeth Albanaidd;

ystyr "trosedd berthnasol" ("*relevant offence*") yw trosedd o dan reoliad 88 neu 89;

ystyr "unigolyn perthnasol" ("*relevant individual*")—

(a) mewn perthynas â chorff corfforedig, yw—

(i) cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff, neu

(ii) pan fo materion y corff corfforedig yn cael eu rheoli gan ei aelodau, aelod.

(b) mewn perthynas â phartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, yw aelod;

(c) mewn perthynas â phartneriaeth, yw partner;

(d) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig (heblaw partneriaeth), yw person sy'n ymwneud â rheoli a rheolaeth y gymdeithas.

Pennod 4

Sancsiynau sifil

Dehongli Pennod 4

91. Yn y Bennod hon, ystyr "awdurdod gorfodi" yw—

(a) yr awdurdod pwysau a mesurau lleol mewn perthynas ag—

(i) trosedd o dan reoliad 88, pan oedd y person a rwystrwyd neu nas cynorthwywyd wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod o dan reoliad 86(1);

(ii) sancsiwn sifil a bennir yn y Tabl SS am—

(aa) unrhyw dor darpariaeth ALlP yn ardal yr awdurdod pwysau a mesurau lleol, neu

(bb) unrhyw dor rheoliad 87(3) mewn perthynas â hysbysiad a roddir gan yr awdurdod, neu ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn ymateb i hysbysiad o'r fath;

(b) CNC mewn perthynas ag—

(i) trosedd o dan reoliad 88, pan oedd y person a rwystrwyd neu nas cynorthwywyd wedi ei awdurdodi gan CNC o dan reoliad 86(1);

(ii) sancsiwn sifil a bennir yn y Tabl SS am—

(aa) unrhyw dor darpariaeth heblaw darpariaeth ALlP,

(bb) unrhyw dor rheoliad 87(3) mewn perthynas â hysbysiad a roddir gan CNC, neu ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn ymateb i hysbysiad o'r fath, neu

(cc) darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn ymateb i hysbysiad a roddir gan y sefydliad rheoli ernes o dan unrhyw ddarpariaeth yn Atodlen 2, 3 neu 4.

Sancsiynau sifil: rhagarweiniol

92.—(1) Pan fo awdurdod gorfodi wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd fod gweithred, neu dor unrhyw ofyniad a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl SS wedi digwydd, ac mai'r cofnod cyfatebol yng ngholofn 2, 3, 4, neu 5 yw "oes", caiff yr awdurdod gorfodi, fel y bo'n briodol, mewn perthynas â'r weithred honno neu'r toriad hwnnw—

(a) gosod cosb ariannol benodedig o dan Ran 3 o Atodlen 6;

(b) gosod cosb ariannol amrywiadwy o dan Ran 4 o Atodlen 6;

(c) gosod hysbysiad cydymffurfio o dan Ran 5 o Atodlen 6;

(d) derbyn ymgymeriad gorfodi o dan Ran 6 o Atodlen 6.

(2) Caiff awdurdod gorfodi adennill cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol amrywiadwy fel dyled sifil ar orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

Hysbysiadau adennill costau gorfodaeth

93.—(1) Caiff awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad adennill cost gorfodaeth i berson y cyflwynwyd iddo hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy o dan Ran 4 o Atodlen 6, neu hysbysiad cydymffurfio o dan Ran 5 o Atodlen 6, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw dalu costau'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw hyd at yr adeg y'i gosodir.

(2) Mae'r costau a grybwyllir ym mharagraff (1) yn cynnwys yn benodol—

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(3) Rhaid i hysbysiad adennill cost gorfodaeth fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo bennu—

(a) y swm sydd i'w dalu,

(b) sut y mae rhaid talu,

(c) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, y mae rhaid talu,

(d) y sail dros gyflwyno'r hysbysiad,

(e) yr hawl i apelio, ac

(f) canlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig.

(4) Caiff person y cyflwynir hysbysiad adennill cost gorfodaeth iddo ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gorfodi ddarparu dadansoddiad manwl o'r swm a bennir o dan baragraff (3)(a).

(5) Nid yw person y mae'n ofynnol iddo dalu costau yn agored i dalu unrhyw gostau a ddangosir gan y person fel rhai yr aethpwyd iddynt yn ddiangen.

(6) Caiff person apelio yn erbyn—

(a) y gofyniad i dalu costau;

(b) swm y costau hynny.

(7) Caiff awdurdod gorfodi adennill unrhyw gostau y mae'n ofynnol eu talu o dan hysbysiad adennill cost gorfodaeth—

(a) fel dyled sifil, neu

(b) ar orchymyn llys, fel pe baent yn daladwy o dan orchymyn llys.

Cosbau a chostau a geir o dan y Rhan hon

94.—(1) Rhaid i CNC dalu unrhyw gosb y mae'n ei chael o dan y Rhan hon i Gronfa Gyfunol Cymru a sefydlwyd o dan adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**13**).

(2) Caiff awdurdod pwysau a mesurau lleol gadw unrhyw gosb ac unrhyw gostau y mae'n eu cael o dan y Rhan hon.

Tynnu hysbysiad yn ôl neu ddiwygio hysbysiad

95. Caiff awdurdod gorfodi ar unrhyw adeg, yn ysgrifenedig—

(a) tynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl;

(b) tynnu hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad adennill cost gorfodaeth yn ôl;

(c) lleihau'r swm a bennir mewn hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad adennill cost gorfodaeth;

(d) tynnu hysbysiad cydymffurfio yn ôl;

(e) diwygio'r camau a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio er mwyn lleihau faint o waith sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r hysbysiad;

(f) amrywio hysbysiad er mwyn estyn y cyfnod y mae rhaid talu unrhyw gosb ynddo.

Pennod 5

Cofrestr gyhoeddus

Cyhoeddi camau gorfodi mewn cofrestr gyhoeddus

96.—(1) Rhaid i CNC gadw cofrestr (y "cofrestr gyhoeddus") sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw gamau gorfodi a gymerir.

(2) Rhaid i'r gofrestr gyhoeddus gynnwys manylion—

(a) unrhyw euogfarn am drosedd o dan reoliad 88, 89 neu 90,

(b) unrhyw sancsiwn sifil a osodwyd o dan reoliad 92 ar yr amod bod—

(i) yr adeg ar gyfer cyflwyno apêl mewn cysylltiad â'r sancsiwn sifil wedi dod i ben, neu

(ii) unrhyw apêl mewn perthynas â'r sancsiwn sifil wedi ei phenderfynu'n derfynol,

(c) unrhyw ymgymeriad gorfodi a dderbyniwyd o dan Ran 6 o Atodlen 6, a

(d) unrhyw hysbysiad adennill cost gorfodaeth a gyflwynwyd o dan reoliad 93.

(3) Rhaid tynnu gwybodaeth ynghylch sancsiynau sifil oddi ar y gofrestr gyhoeddus yn ddim hwyrach na 4 blynedd ar ôl y diwrnod y cafodd ei chofnodi yn y gofrestr.

(4) Ni chaiff cofrestr gyhoeddus gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos troseddol, neu unrhyw beth sy'n destun achos troseddol, cyn i'r achos hwnnw gael ei benderfynu'n derfynol.

(5) Ym mharagraff (4), mae "achos troseddol" yn cynnwys achos troseddol arfaethedig.

(**13**) 2006 p. 32.

(6) Rhaid i CNC gofnodi gwybodaeth o dan baragraff (2) ar y gofrestr gyhoeddus cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi ddod i feddiant CNC.

(7) Rhaid i CNC—

(a) sicrhau bod y gofrestr gyhoeddus ar gael i aelodau o'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol, yn rhad ac am ddim, a

(b) caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gael copïau o gofnodion yn y gofrestr gyhoeddus ar ôl talu ffi resymol.

(8) Caniateir cadw'r gofrestr gyhoeddus ar unrhyw ffurf ond rhaid ei mynegeio neu ei threfnu fel y gall aelodau o'r cyhoedd olrhain gwybodaeth a gynhwysir ynddi yn rhwydd.

Euogfarnau wedi eu disbyddu gan unigolion

97. Rhaid i CNC dynnu manylion unrhyw euogfarn oddi ar y gofrestr gyhoeddus unwaith y bydd y cyfnod adsefydlu ar gyfer dedfryd wedi dod i ben o dan adran 5 o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974(**14**).

RHAN 10

Apelau

Dehongli Rhan 10

98. Yn y Rhan hon, mae i "awdurdod gorfodi" yr ystyr a roddir yn rheoliad 91.

Yr hawl i apelio

99.—(1) Caiff person apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn—

(a) penderfyniad i wrthod ei gais i gael ei benodi'n sefydliad rheoli ernes o dan baragraff 2 o Atodlen 5,

(b) penderfyniad i ddirymu ei benodiad yn sefydliad rheoli ernes o dan baragraff 4 o Atodlen 5, neu

(c) sancsiwn sifil a osodwyd o dan hysbysiad, neu hysbysiad adennill cost gorfodaeth, a ddyroddwyd o dan Ran 9.

(2) Ni chaniateir dwyn apêl o dan baragraff (1) ond ar y sail bod y person a wnaeth y penderfyniad wedi gwneud camgymeriad cyfreithiol o bwys.

Y weithdrefn ar apêl

100.—(1) Caiff person apelio o dan reoliad 99 i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn unol â Rheolau'r SRG 2009.

(2) Mae Rheolau'r SRG 2009 yn gymwys i apêl.

(3) Ond mae rheol 22 o Reolau'r SRG 2009 yn gymwys i apêl fel pe bai paragraff (1)(b) o'r rheol honno yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad o apêl ddod i law o fewn 2 fis calendr i'r dyddiad yr anfonwyd hysbysiad o'r weithred neu'r penderfyniad y mae'r apêl yn ymwneud â hi neu ag ef at y person sy'n dwyn yr apêl.

(**14**) 1974 p. 53. Diwygiwyd adran 5 o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 gan adran 139(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (p. 10). Mae diwygiadau eraill i adran 5 ond nid ydynt yn berthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "Rheolau'r SRG 2009" yw Rheolau Trefniadaeth y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009(**15**).

Statws wrth aros am apêl: penderfyniad i wrthod cais person i gael ei benodi'n sefydliad rheoli ernes

101. Yn achos apêl o dan reoliad 99(1)(a) yn erbyn penderfyniad i wrthod cais person i gael ei benodi'n sefydliad rheoli ernes, mae'r penderfyniad yn cael effaith hyd nes y bydd yr apêl yn cael ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl, oni bai bod Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn dyfarnu fel arall.

Statws wrth aros am apêl: penderfyniad i ddirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes

102.—(1) Yn achos apêl o dan reoliad 99(1)(b) yn erbyn penderfyniad i ddirymu penodiad person yn sefydliad rheoli ernes, nid yw'r penderfyniad yn cael effaith hyd nes y bydd yr apêl yn cael ei chaniatáu, ei gwrthod neu ei thynnu'n ôl.

(2) Os yw'r apêl yn cael ei gwrthod neu ei thynnu'n ôl, mae'r penderfyniad yn cael effaith o ddiwedd y diwrnod y caiff yr apêl ei gwrthod neu ei thynnu'n ôl.

Statws wrth aros am apêl: sancsiynau sifil

103. Mae unrhyw sancsiwn sifil a osodir o dan hysbysiad (heblaw hysbysiad cydymffurfio), neu hysbysiad adennill cost gorfodaeth a ddyroddir o dan Ran 9, sy'n destun apêl o dan reoliad 99(1)(c) yn cael ei hatal dros dro hyd nes y caiff yr apêl ei dyfarnu'n derfynol neu ei thynnu'n ôl.

Dyfarnu apelau

104.—(1) Caiff Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, mewn perthynas â'r penderfyniad neu'r hysbysiad yr apelir yn ei erbyn—

(a) diddymu'r penderfyniad neu dynnu'r hysbysiad yn ôl (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(b) cadarnhau'r penderfyniad neu'r hysbysiad (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(c) amrywio'r penderfyniad neu'r hysbysiad (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(d) cymryd unrhyw gamau y gallai'r penderfynwr eu cymryd mewn perthynas â'r materion sy'n arwain at y penderfyniad neu'r weithred neu'r anweithred sy'n arwain at yr hysbysiad;

(e) anfon y penderfyniad, gan gynnwys unrhyw benderfyniad a ddylid cadarnhau unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad neu gadarnhau'r hysbysiad, yn ôl at y penderfynwr.

(2) Pan fo Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, yn dilyn apêl o dan reoliad 99, yn dyfarnu bod penderfyniad penderfynwr i gael ei amrywio neu ei anfon yn ôl at y penderfynwr, rhaid i'r penderfynwr—

(a) cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir iddo gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, a

(**15**) O.S. 2009/1976 (Cyfr. 20), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/43, 2010/2653, 2011/651, 2012/500, 2013/477, 2014/2128, 2015/2059, 2017/1168, 2018/1053, 2019/758, 2019/828, 2019/925, 2020/416, 2020/651, 2020/1637, 2021/322, 2021/1183, 2022/1030, 2024/364 a 2025/561.

(b) cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddyfarniad Tribiwnlys yr Haen Gyntaf.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "penderfynwr" yw—

(a) Gweinidogion Cymru, neu

(b) yr awdurdod gorfodi.

RHAN 11

Swyddogaethau CNC

Adroddiadau blynyddol gan sefydliad rheoli ernes

105.—(1) Rhaid i CNC ystyried yr adroddiad blynyddol a gyflwynir gan sefydliad rheoli ernes o dan reoliad 54 ar gyfer pob blwyddyn gynllun.

(2) Caiff CNC, fel rhan o'i ystyriaeth o dan baragraff (1), ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol gan y sefydliad rheoli ernes y mae CNC yn ystyried ei bod yn angenrheidiol.

Apelau

106. Pan fo Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn dyfarnu o dan reoliad 104 fod penderfyniad CNC i gael ei amrywio neu ei anfon yn ôl i CNC, rhaid i CNC gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir iddo gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, a chymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddyfarniad Tribiwnlys yr Haen Gyntaf.

Huw Irranca-Davies
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
25 Mawrth 2026

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Rheoliadau 12 a 16

Cynhyrchwyr cynllun: cofrestru gyda'r sefydliad rheoli ernes

RHAN 1

Cofrestru

Dehongli Rhan 1

1.—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "cais cofrestru" ("*registration application*") yw cais i gofrestru gyda'r sefydliad rheoli ernes yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw cynhyrchydd cynllun sy'n gwneud cais i gofrestru gyda'r sefydliad rheoli ernes yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig;

ystyr "gwybodaeth gofrestru" ("*registration information*") yw—

(a) enw'r ceisydd ac enw'r busnes (os yw'n wahanol);

(b) cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r ceisydd;

(c) cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, os yw'n wahanol i'r cyfeiriad a grybwyllir ym mharagraff (b);

(d) os yw'r ceisydd yn gwmni, rhif cofrestru'r cwmni;

(e) os yw'r ceisydd yn bartneriaeth, enwau'r partneriaid;

(f) enw a manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad e-bost pan fo ar gael) y person sydd wedi ei benodi'n bwynt cyswllt ar gyfer y ceisydd mewn perthynas â'r Cynllun;

(g) cod DDS y ceisydd;

(h) datganiad ynghylch pa un a yw'r ceisydd yn berchennog brand;

(i) datganiad ynghylch pa un a yw'r ceisydd yn fewnforiwr;

(j) datganiad ynghylch pa un a yw'r ceisydd yn llenwi yn unol ag archeb;

(k) os yw'r ceisydd yn berchennog brand neu'n fewnforiwr, enw brand pob diod y mae'r ceisydd yn berchennog brand neu'n fewnforiwr ar ei chyfer;

(l) cyfanswm nifer yr eitemau ernes y mae'r ceisydd yn disgwyl eu cyflenwi yn y 12 mis yn dilyn ei gofrestriad yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig, ac ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis neu fel y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei gyfarwyddo, ynghyd ag—

(i) gwybodaeth am y deunyddiau a gwmpesir y mae'r ceisydd yn disgwyl i unrhyw ddiodydd cynhwysydd gael eu gwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf ohonynt,

(ii) cynhwysedd disgwyliedig pob math o gynhwysydd, a

(iii) os yw'r ceisydd yn disgwyl i unrhyw un neu ragor o'r eitemau ernes fod ar gael i'w cyflenwi mewn pecynnau aml-gynnwys cynllun, maint disgwyliedig y pecynnau aml-gynnwys hynny.

(2) Yn y diffiniad o "gwybodaeth gofrestru" yn is-baragraff (1), ystyr "cod DDS" yw cod sydd wedi ei gynnwys yn Nosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU ar gyfer Gweithgareddau Economaidd 2007 (SIC 2007)(**16**).

Cais cofrestru

2.—(1) Rhaid i geisydd wneud cais cofrestru i'r sefydliad rheoli ernes cyn 1 Hydref 2027.

(2) Pan fo person yn dod yn gynhyrchydd cynllun ar ôl i reoliad 12 ddod i rym, rhaid i'r cynhyrchydd cynllun wneud cais cofrestru i'r sefydliad rheoli ernes o fewn unrhyw gyfnod y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei gyfarwyddo.

(3) Rhaid i gais cofrestru—

(a) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes,

(b) cynnwys yr wybodaeth gofrestru, ac

(c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei chyfarwyddo

(4) Pan fo'r ceisydd yn bartneriaeth, rhaid i'r cais cofrestru, os caiff ei wneud gan un partner, gael ei wneud gan y partner hwnnw ar ran yr holl bartneriaid.

(5) Ni chaiff y sefydliad rheoli ernes ond cyfarwyddo ceisydd i ddarparu gwybodaeth yn ei gais cofrestru y mae'n rhesymol ofynnol i'r sefydliad rheoli ernes ei chael at ddibenion ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun.

Penderfyniad ynghylch cais cofrestru

3.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) caniatáu'r cais cofrestru a chofrestru'r ceisydd yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig, os yw wedi ei fodloni bod y cais cofrestru yn bodloni gofynion paragraff 2(3), neu

(b) fel arall, wrthod y cais cofrestru.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r ceisydd—

(a) am ei benderfyniad;

(b) os yw'r cais yn cael ei ganiatáu, am y dyddiad y mae cofrestriad y ceisydd yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig yn cymryd effaith;

(c) os gwrthodir y cais, am y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (2) fod yn ysgrifenedig.

(**16**) Cyhoeddwyd Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU ar gyfer Gweithgareddau Economaidd 2007 (SIC 2007) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Rhagfyr 2009, ISBN 978-0-230-21012-7. Mae ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/ukstandardindustrialclassificationofeconomicactivities/uksic2007.

Gofyniad i hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am newidiadau mewn gwybodaeth gofrestru

4.—(1) Rhaid i gynhyrchydd cynllun cofrestredig hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am unrhyw newid i'r wybodaeth berthnasol.

(2) Yn y paragraff hwn ystyr "gwybodaeth berthnasol" yw—

(a) yr wybodaeth gofrestru, a

(b) unrhyw wybodaeth arall y cyfarwyddwyd y ceisydd i'w chynnwys yn ei gais cofrestru gan y sefydliad rheoli ernes o dan baragraff 2(3)(c).

RHAN 2

Canslo cofrestriad

Canslo cofrestriad ar gais y cynhyrchydd cynllun cofrestredig

5.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ganslo cofrestriad person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig os yw—

(a) y cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn hysbysu'r sefydliad rheoli ernes ei fod wedi peidio â bod yn gynhyrchydd cynllun, a

(b) y sefydliad rheoli ernes wedi ei fodloni bod hynny'n wir.

(2) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn canslo cofrestriad person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig yn dilyn hysbysiad o dan is-baragraff (1), rhaid iddo roi hysbysiad i'r person hwnnw, sydd—

(a) yn nodi bod cofrestriad y person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig wedi cael ei ganslo, a

(b) yn pennu'r dyddiad y mae'r canslo hwnnw yn cymryd effaith.

Pŵer sefydliad rheoli ernes i ganslo cofrestriad

6.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes ganslo cofrestriad person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig, heb i hysbysiad gael ei roi o dan baragraff 5, os yw wedi ei fodloni bod y person wedi peidio â bod yn gynhyrchydd cynllun.

(2) Cyn canslo cofrestriad person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig o dan is-baragraff (1), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes roi hysbysiad cynnig i'r person hwnnw.

(3) Rhaid i hysbysiad cynnig fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi pam y mae'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig canslo cofrestriad person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig,

(b) pennu'r dyddiad y mae canslo arfaethedig gofrestriad y person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig i gymryd effaith,

(c) nodi y caiff y cynhyrchydd cynllun cofrestredig gyflwyno sylwadau i'r sefydliad rheoli ernes ynghylch y cynnig, a

(d) pennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ac o fewn pa gyfnod y mae rhaid eu cyflwyno, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r hysbysiad cynnig yn dod i law'r person.

(4) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y cynhyrchydd cynllun cofrestredig cyn dyddiad y canslo arfaethedig a bennir yn yr hysbysiad cynnig o dan is-baragraff (3)(d).

(5) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes hysbysu'r cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn ysgrifenedig am ei benderfyniad.

(6) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu bwrw ymlaen â chanslo cofrestriad y person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes roi hysbysiad canslo i'r person hwnnw.

(7) Rhaid i hysbysiad canslo fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi bod cofrestriad y person yn gynhyrchydd cynllun cofrestredig yn cael ei ganslo a rhoi'r rhesymau pam,

(b) pennu'r dyddiad y mae canslo'r cofrestriad yn cymryd effaith, ac

(c) nodi bod gan y person hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu'r penderfyniad.

(8) Os yw cynhyrchydd cynllun cofrestredig yn arfer yr hawl o dan is-baragraff (7)(c), ni chaiff yr hysbysiad canslo gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

(9) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (7)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r hysbysiad canslo yn dod i law'r person.

ATODLEN 2

Rheoliad 35(6)

Cofrestru gweithredwyr mannau dychwelyd mandadol

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cais cofrestru" ("*registration application*") yw cais i gofrestru gyda'r sefydliad rheoli ernes yn weithredwr man dychwelyd mandadol;

ystyr "gwybodaeth y cais" ("*application information*"), mewn perthynas â manwerthwr a gwmpesir, yw—

(a) enw'r manwerthwr, ac os yw'n wahanol, enw'r busnes,

(b) cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r manwerthwr,

(c) cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, os yw'n wahanol i'r cyfeiriad a grybwyllir yn paragraff (b),

(d) os yw'r manwerthwr yn gwmni, rhif cofrestru'r cwmni,

(e) os yw'r manwerthwr yn bartneriaeth, enwau'r partneriaid,

(f) enw a manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad e-bost pan fo ar gael) y person sydd wedi ei benodi'n bwynt cyswllt ar gyfer y manwerthwr mewn perthynas â'r Cynllun, ac

(g) cyfeiriad y mangreoedd MDM y mae'n ofynnol i'r manwerthwr weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â hwy o dan reoliad 35(1).

Cais i gofrestru

2.—(1) Rhaid i fanwerthwr a gwmpesir wneud cais cofrestru i'r sefydliad rheoli ernes cyn 1 Hydref 2027.

(2) Pan fo person yn dod yn fanwerthwr a gwmpesir ar ôl i reoliad 35 ddod i rym, rhaid i'r manwerthwr wneud cais cofrestru i'r sefydliad rheoli ernes o fewn unrhyw gyfnod y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei gyfarwyddo.

(3) Rhaid i gais cofrestru—

(a) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes,

(b) cynnwys gwybodaeth y cais, ac

(c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei chyfarwyddo.

(4) Pan fo'r manwerthwr a gwmpesir yn bartneriaeth, rhaid i'r cais cofrestru, os caiff ei wneud gan un partner yn unig, gael ei wneud gan y partner hwnnw ar ran yr holl bartneriaid.

(5) Ni chaiff y sefydliad rheoli ernes ond cyfarwyddo manwerthwr a gwmpesir i ddarparu gwybodaeth yn ei gais cofrestru y mae'n rhesymol ofynnol i'r sefydliad rheoli ernes ei chael at ddibenion ei swyddogaethau o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun.

Cais i gofrestru: penderfyniad

3.—(1) Pan fo cais cofrestru sy'n bodloni gofynion paragraff 2(3) yn dod i law'r sefydliad rheoli ernes, rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) cofrestru'r manwerthwr a gwmpesir mewn perthynas â'r fangre MDM y mae'n ofynnol i'r manwerthwr weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â hi, a

(b) hysbysu'r manwerthwr a gwmpesir yn ysgrifenedig fod y manwerthwr wedi ei gofrestru yn weithredwr man dychwelyd mandadol.

(2) Caiff y sefydliad rheoli ernes gofrestru'r manwerthwr a gwmpesir o dan is-baragraff (1) cyn 1 Hydref 2027.

Canslo cofrestriad

4.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) canslo cofrestriad manwerthwr a gwmpesir yn fan dychwelyd mandadol mewn perthynas ag unrhyw fangre MDM benodol, os yw—

(i) y manwerthwr a gwmpesir yn hysbysu'r sefydliad rheoli ernes nad yw bellach yn cyflenwi eitemau ernes yn y fangre honno a bod y sefydliad rheoli ernes wedi ei fodloni bod hynny'n wir, neu

(ii) y sefydliad rheoli ernes yn rhoi esemptiad man dychwelyd mewn cysylltiad â'r fangre honno;

(b) canslo cofrestriad person yn weithredwr man dychwelyd mandadol, os yw—

(i) y person yn hysbysu'r sefydliad rheoli ernes nad yw bellach yn fanwerthwr a gwmpesir a bod y sefydliad rheoli ernes wedi ei fodloni bod hynny'n wir, neu

(ii) y sefydliad rheoli ernes yn rhoi esemptiad man dychwelyd mewn cysylltiad â holl fangreoedd y manwerthwr a gwmpesir sy'n fangreoedd MDM.

(2) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn canslo cofrestriad person yn weithredwr man dychwelyd mandadol yn dilyn hysbysiad o dan is-baragraff (1), rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad datgofrestru i'r person.

(3) Rhaid i hysbysiad datgofrestru fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi bod cofrestriad y person yn weithredwr man dychwelyd mandadol wedi ei ganslo, a

(b) pennu'r dyddiad y mae'r canslo hwnnw yn cymryd effaith.

(4) Caiff y sefydliad rheoli ernes—

(a) canslo cofrestriad manwerthwr a gwmpesir yn weithredwr man dychwelyd mandadol mewn cysylltiad ag unrhyw fangre, heb i hysbysiad gael ei roi o dan is-baragraff (1)(a)(i), os yw wedi ei fodloni nad yw'r manwerthwr bellach yn cyflenwi eitemau ernes yn y fangre honno;

(b) canslo cofrestriad person yn weithredwr man dychwelyd mandadol, heb i hysbysiad gael ei roi o dan is-baragraff (1)(b)(i), os yw wedi ei fodloni nad yw'r person bellach yn fanwerthwr a gwmpesir.

(5) Cyn canslo cofrestriad person yn weithredwr man dychwelyd mandadol o dan is-baragraff (4), rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad cynnig i'r person hwnnw.

(6) Rhaid i hysbysiad cynnig fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi pam y mae'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig canslo cofrestriad person yn weithredwr man dychwelyd mandadol,

(b) pennu'r dyddiad y bydd canslo arfaethedig gofrestriad y person yn weithredwr man dychwelyd mandadol yn cymryd effaith,

(c) nodi y caiff y gweithredwr man dychwelyd mandadol gyflwyno sylwadau i'r sefydliad rheoli ernes ynghylch y cynnig, a

(d) pennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ac o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r hysbysiad cynnig yn dod i law'r person, y mae rhaid eu cyflwyno.

(7) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y gweithredwr man dychwelyd mandadol cyn y dyddiad canslo arfaethedig a bennir yn yr hysbysiad cynnig o dan is-baragraff (6)(b);

(b) caiff wrthod unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y person hwnnw ar ôl y dyddiad hwnnw.

(8) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â chanslo cofrestriad y person yn weithredwr man dychwelyd mandadol o dan is-baragraff (4), rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r person hwnnw yn ysgrifenedig am ei benderfyniad.

(9) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu bwrw ymlaen â chanslo cofrestriad y person yn weithredwr man dychwelyd mandadol o dan is-baragraff (4), rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad canslo i'r person hwnnw.

(10) Rhaid i hysbysiad canslo fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi bod cofrestriad y person yn weithredwr man dychwelyd mandadol yn cael ei ganslo a rhoi'r rhesymau pam,

(b) pennu'r dyddiad y mae canslo'r cofrestriad yn cymryd effaith, ac

(c) nodi bod gan y person hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu'r penderfyniad.

(11) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (10)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r hysbysiad canslo yn dod i law'r person.

(12) Os yw gweithredwr man dychwelyd mandadol yn arfer yr hawl o dan is-baragraff (10)(c), ni chaiff yr hysbysiad canslo gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

ATODLEN 3

Rheoliad 35(7)

Esemtiadau man dychwelyd

Dehongli Atodlen 3

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cais am adnewyddiad" ("*renewal application*") yw cais o dan baragraff 6(3);

ystyr "cais am esemptiad" ("*exemption application*") yw cais a wneir o dan baragraff 2(1);

ystyr "deiliad esemptiad" ("*exemption holder*"), mewn perthynas ag esemptiad man dychwelyd, yw manwerthwr a gwmpesir y mae'r esemptiad man dychwelyd wedi ei roi iddo;

ystyr "gwybodaeth y cais" ("*the application information*") yw—

(a) os gwneir cais am esemptiad ar sail agosrwydd—

(i) gwybodaeth am faint arwynebedd llawr y fangre;

(ii) gwybodaeth am nifer y cyflogeion neu bersonau eraill sy'n gweithio yn y fangre;

(iii) elw neu drosiant blynyddol busnes y ceisydd;

(iv) gwybodaeth am unrhyw fannau dychwelyd eraill a leolir yn rhesymol agos at y fangre;

(v) cadarnhad yr ymgynghorwyd â gweithredwr pob un o'r mannau dychwelyd hynny ynghylch cais am esemptiad y manwerthwr a gwmpesir, ac nad oes unrhyw un wedi gwrthwynebu'r cynnydd posibl yn nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd sy'n debygol o gael eu dychwelyd i fan dychwelyd penodol os caniateir yr esemptiad man dychwelyd;

(vi) unrhyw wybodaeth bellach y mae'r ceisydd yn ystyried y gallai fod yn berthnasol;

(b) os gwneir cais am esemptiad ar sail y fangre, gwybodaeth sy'n ddigonol i ddangos nad yw lleoliad, cynllun, maint, dyluniad neu adeiladwaith y fangre a bennir yn y cais yn caniatáu, nad yw'n caniatáu yn hawdd, neu na ellir ei addasu yn hawdd i ganiatáu, i fan dychwelyd gael ei weithredu yn y fangre honno;

ystyr "sail agosrwydd" ("*proximity grounds*") yw, mewn perthynas â chais am esemptiad, pan wneir y cais ar y sail—

(a) y lleolir un neu ragor o fannau dychwelyd eraill yn rhesymol agos at y fangre a bennir yn y cais, a

(b) pe bai'r esemptiad yn cael ei ganiatáu, na fyddai'n effeithio ar allu'r sefydliad rheoli ernes i gyrraedd y targedau casglu o dan reoliad 84;

ystyr "sail y fangre" ("*premises grounds*") yw, mewn perthynas â chais am esemptiad, pan wneir cais ar y sail nad yw lleoliad, cynllun, maint, dyluniad neu adeiladwaith mangre a bennir yn y cais yn caniatáu, nad yw'n caniatáu yn hawdd, neu na ellir ei addasu yn rhesymol i ganiatáu, i fan dychwelyd gael ei weithredu yn y fangre honno.

Cais am esemptiad man dychwelyd

2.—(1) Caiff manwerthwr a gwmpesir wneud cais i'r sefydliad rheoli ernes cyn neu ar ôl 1 Hydref 2027 am esemptiad man dychwelyd mewn cysylltiad â'r fangre a bennir yn y cais am esemptiad.

(2) Rhaid i gais am esemptiad gael ei wneud ar sail agosrwydd neu ar sail y fangre.

(3) Rhaid i gais am esemptiad—

(a) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes,

(b) cynnwys gwybodaeth y cais, a

(c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei chyfarwyddo.

Penderfyniad ar geisiadau am esemptiad man dychwelyd

3.—(1) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn cael cais am esemptiad gan fanwerthwr a gwmpesir ("y ceisydd"), rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) ystyried gwybodaeth y cais a ddarperir gan y ceisydd o dan baragraff 2(3), a

(b) rhoi sylw i'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys—

(i) nifer y ceisiadau am esemptiad a wnaed mewn cysylltiad â mangre a leolir yn agos at y fangre a bennir yn y cais;

(ii) y penderfyniadau a wnaed mewn cysylltiad â'r ceisiadau hynny;

(iii) unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd, neu gan grwpiau sy'n cynrychioli cyfrannau o'r cyhoedd, ynghylch esemptiadau o'r gofyniad i weithredu man dychwelyd.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes—

(a) penderfynu a ddylid caniatáu'r esemptiad man dychwelyd, a

(b) rhoi hysbysiad o'i benderfyniad i'r ceisydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (2) fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) os yw'r sefydliad rheoli ernes yn caniatáu'r esemptiad—

(i) pennu'r fangre y caniateir yr esemptiad mewn cysylltiad â hi,

(ii) pennu'r dyddiad y mae'r esemptiad yn cymryd effaith, a

(iii) cynnwys datganiad y bydd yr esemptiad, oni bai ei fod yn cael ei ddirymu neu ei adnewyddu, yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r esemptiad yn cymryd effaith;

(b) os yw'r sefydliad rheoli ernes yn gwrthod yr esemptiad—

(i) nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw,

(ii) pennu o ba ddyddiad y mae'n ofynnol i'r ceisydd weithredu man dychwelyd yn y fangre, a

(iii) nodi bod gan y ceisydd hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu ei benderfyniad.

(4) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (3)(b)(ii) fod cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r hysbysiad yn dod i law'r manwerthwr a gwmpesir.

(5) Os yw'r ceisydd yn arfer yr hawl o dan is-baragraff (3)(b)(iii), ni chaiff penderfyniad y sefydliad rheoli ernes gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

Effaith gwneud cais am esemptiad man dychwelyd: ceisiadau sy'n mynd rhagddynt ar 1 Hydref 2027

4.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) bo manwerthwr a gwmpesir yn gwneud cais am esemptiad cyn 1 Hydref 2027, a

(b) nad yw'r sefydliad rheoli ernes wedi penderfynu ar y cais hwnnw erbyn diwedd 30 Medi 2027.

(2) Ni waeth beth yw canlyniad terfynol y cais am esemptiad, nid yw'n ofynnol i'r manwerthwr a gwmpesir weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â'r fangre a bennir mewn cais am esemptiad yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau ag 1 Hydref 2027, a

(b) sy'n dod i ben—

(i) os caniateir yr esemptiad man dychwelyd, yn union cyn i'r esemptiad gymryd effaith;

(ii) os gwrthodir yr esemptiad man dychwelyd a bod y manwerthwr a gwmpesir yn arfer yr hawl o dan baragraff 3(3)(b)(iii), ar ddiwedd y cyfnod a nodir ym mharagraff 3(5);

(iii) os gwrthodir yr esemptiad man dychwelyd ac nad yw'r manwerthwr a gwmpesir yn arfer yr hawl o dan baragraff 3(3)(b)(iii) yna rhaid i'r manwerthwr a gwmpesir weithredu man dychwelyd, o'r dyddiad a bennir gan y sefydliad rheoli ernes o dan baragraff 3(3)(b)(ii).

Effaith gwneud cais am esemptiad man dychwelyd: person sy'n dod yn fanwerthwr nwyddau groser ar neu ar ôl 1 Hydref 2027

5.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo person sy'n dod yn fanwerthwr a gwmpesir ar neu ar ôl 1 Hydref 2027 ("manwerthwr newydd") yn gwneud ei gais am esemptiad cyntaf.

(2) Nid yw'n ofynnol i fanwerthwr newydd weithredu man dychwelyd mewn cysylltiad â'r fangre a bennir yn y cais am esemptiad yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y gwneir y cais am esemptiad, a

(b) sy'n dod i ben—

(i) os caniateir yr esemptiad man dychwelyd, yn union cyn i'r esemptiad gymryd effaith;

(ii) os gwrthodir yr esemptiad man dychwelyd a bod y manwerthwr newydd yn arfer yr hawl o dan baragraff 3(3)(b)(iii), ar ddiwedd y cyfnod a nodir ym mharagraff 3(5);

(iii) os gwrthodir yr esemptiad man dychwelyd ac nad yw'r manwerthwr newydd yn arfer yr hawl o dan baragraff 3(3)(b)(iii), rhaid i'r manwerthwr newydd

weithredu man dychwelyd o'r dyddiad a bennir gan y sefydliad rheoli ernes o dan baragraff 3(3)(b)(ii).

Hyd esemptiad man dychwelyd, a'i adnewyddu

6.—(1) Mewn perthynas ag esemptiad man dychwelyd—

(a) mae'n parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod a bennir o dan baragraff 3(3)(a)(ii);

(b) caniateir ei adnewyddu gan y sefydliad rheoli ernes ar un achlysur neu ragor.

(2) Ni chaniateir adnewyddu esemptiad man dychwelyd am gyfnod o fwy na 3 blynedd.

(3) Caiff deiliad esemptiad wneud cais i adnewyddu esemptiad man dychwelyd ar unrhyw adeg cyn i'r esemptiad ddod i ben.

(4) Caiff y sefydliad rheoli ernes adnewyddu esemptiad man dychwelyd—

(a) os yw'r deiliad esemptiad yn gwneud cais am adnewyddiad, a

(b) os yw'r sail y rhoddwyd yr esemptiad arni yn wreiddiol yn parhau i fod yn gymwys.

(5) Rhaid i gais am adnewyddiad—

(a) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes,

(b) cynnwys gwybodaeth am sail yr esemptiad, ac

(c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei chyfarwyddo.

(6) Yn is-baragraff (5) ystyr "gwybodaeth am sail yr esemptiad" yw—

(a) os caniatawyd yr esemptiad man dychwelyd ar y sail agosrwydd—

(i) gwybodaeth am unrhyw fannau dychwelyd eraill a leolir yn rhesymol agos at y fangre, a

(ii) cadarnhad yr ymgynghorwyd â gweithredwr pob un o'r mannau dychwelyd hynny ynghylch cais am adnewyddiad y manwerthwr a gwmpesir, a bod pob un o'r gweithredwyr hynny wedi cytuno i barhau i dderbyn eitemau y gellir eu dychwelyd y gellid bod wedi eu dychwelyd fel arall i'r manwerthwr sy'n gwneud y cais am adnewyddiad;

(b) os caniatawyd yr esemptiad man dychwelyd ar sail y fangre, gwybodaeth ddigonol i ddangos nad yw lleoliad, cynllun, maint, dyluniad neu adeiladwaith y fangre o hyd yn caniatáu, yn caniatáu yn hawdd, neu na ellir ei addasu yn hawdd i ganiatáu, i fan dychwelyd gael ei weithredu mewn cysylltiad â'r fangre honno.

(7) Pan fo cais am adnewyddiad yn dod i law'r sefydliad rheoli ernes, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) penderfynu a ddylid adnewyddu'r esemptiad man dychwelyd perthnasol, a

(b) hysbysu'r deiliad esemptiad drwy hysbysiad am ei benderfyniad.

(8) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (7)(b) fod yn ysgrifenedig ac—

(a) os yw'r sefydliad rheoli ernes yn adnewyddu'r esemptiad man dychwelyd—

(i) pennu'r cyfnod pellach y mae'r esemptiad yn parhau i fod mewn grym amdano, a

(ii) pennu'r dyddiad y bydd yr esemptiad man dychwelyd yn dod i ben ar ei ddiwedd, oni bai ei fod yn cael ei adnewyddu neu ei ddirymu;

(b) os yw'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu peidio ag adnewyddu'r esemptiad man dychwelyd—

(i) nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw,

(ii) pennu'r dyddiad y mae'n ofynnol i'r deiliad esemptiad weithredu man dychwelyd yn y fangre, a

(iii) nodi bod gan y deiliad esemptiad hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu'r penderfyniad.

(9) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (8)(b)(ii) fod cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth yr hysbysiad i law'r deiliad esemptiad.

(10) Os yw deiliad esemptiad yn arfer yr hawl o dan is-baragraff (8)(b)(iii), ni chaiff penderfyniad y sefydliad rheoli ernes gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

(11) Ond mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i baragraffau 8 a 9.

Dyletswydd i hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am newid mewn amgylchiadau perthnasol

7.—(1) Rhaid i ddeiliad esemptiad hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i'r sail y rhoddwyd neu yr adnewyddwyd esemptiad man dychwelyd arni.

(2) Rhaid rhoi hysbysiad o dan is-baragraff (1) i'r sefydliad rheoli ernes o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r newid yn digwydd.

Dirymu esemptiad man dychwelyd ar gais y deiliad esemptiad

8.—(1) Caiff deiliad esemptiad wneud cais i esemptiad man dychwelyd mewn cysylltiad â mangre benodedig gael ei ddirymu.

(2) Rhaid i gais o dan is-baragraff (1) gael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes.

(3) Pan fo cais o dan y paragraff hwn yn dod i law'r sefydliad rheoli ernes, rhaid iddo cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) dirymu'r esemptiad man dychwelyd perthnasol, a

(b) hysbysu'r deiliad esemptiad, yn ysgrifenedig, am y dyddiad y mae—

(i) dirymiad yr esemptiad man dychwelyd yn cymryd effaith, a

(ii) yn ofynnol i'r deiliad esemptiad weithredu man dychwelyd.

Dirymu esemptiad man dychwelyd ar ysgogiad y sefydliad rheoli ernes

9.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes ddirymu esemptiad man dychwelyd os yw wedi ei fodloni—

(a) y bu newid mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i'r sail y rhoddwyd yr esemptiad arni, neu

(b) os rhoddwyd yr esemptiad ar sail agosrwydd, y bydd gweithrediad parhaus yr esemptiad yn golygu bod yna dreulwyr nad oes ganddynt fynediad rhesymol at fan dychwelyd mwyach.

(2) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig dirymu esemptiad man dychwelyd o dan is-baragraff (1), rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad cynnig i'r deiliad esemptiad.

(3) Rhaid i hysbysiad cynnig fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi'r rhesymau pam y mae'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig dirymu'r esemptiad man dychwelyd,

(b) pennu'r dyddiad y mae—

(i) yr esemptiad man dychwelyd yn peidio â chael effaith, os cwblheir y cynnig, a

(ii) yn ofynnol i'r deiliad esemptiad weithredu man dychwelyd, ac

(c) pennu—

(i) ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau i'r sefydliad rheoli ernes ynghylch y cynnig, a

(ii) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau sy'n ddechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r hysbysiad cynnig yn dod i law'r person, y mae rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau.

(4) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo ar y ffurf benodedig ac yn y modd penodedig erbyn y dyddiad penodedig;

(b) caiff wrthod unrhyw sylwadau a gyflwynir ac eithrio ar y ffurf benodedig ac yn y modd penodedig neu ar ôl y dyddiad penodedig (neu'r ddau).

(5) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â dirymu'r esemptiad man dychwelyd arfaethedig rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r deiliad esemptiad yn ysgrifenedig am ei benderfyniad.

(6) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu bwrw ymlaen â dirymu'r esemptiad man dychwelyd, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad dirymu i'r deiliad esemptiad.

(7) Rhaid i hysbysiad dirymu fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi bod yr esemptiad man dychwelyd yn cael ei ddirymu, a rhoi'r rhesymau pam;

(b) pennu'r dyddiad—

(i) y bydd yr esemptiad man dychwelyd yn peidio â chael effaith, a

(ii) y mae'n ofynnol i'r deiliad esemptiad weithredu man dychwelyd;

(c) nodi bod gan y deiliad esemptiad yr hawl o dan reoliad 79 i ofyn i'r sefydliad rheoli ernes adolygu ei benderfyniad.

(8) Rhaid rhoi hysbysiad o dan is-baragraff (5) a hysbysiad dirymu o dan is-baragraff (6) cyn diwedd y cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r sefydliad rheoli ernes yn gwneud ei benderfyniad.

(9) Ni chaiff y dyddiadau o dan is-baragraff (7)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r hysbysiad dirymu yn dod i law'r deiliad esemptiad.

(10) Os yw deiliad esemptiad yn arfer yr hawl o dan is-baragraff (7)(c), ni chaniateir i'r hysbysiad dirymu gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

ATODLEN 4

Rheoliadau 38 a 41

Gweithredu mannau dychwelyd yn wirfoddol a darparu gwasanaethau cymryd yn ôl

RHAN 1

Rhagarweiniol

Dehongli Atodlen 4

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "gwybodaeth awdurdodi gwasanaeth cymryd yn ôl" ("*take-back service authorisation information*") yw gwybodaeth sy'n dangos—

(a) bod gan y manwerthwr cynllun sy'n gwneud cais am awdurdodiad ddigon o adnoddau i sefydlu a gweithredu'r gwasanaeth cymryd yn ôl arfaethedig am 12 mis o leiaf,

(b) nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd y mae'r manwerthwr cynllun yn amcangyfrif y byddant yn cael eu casglu bob mis, a'r sail ar gyfer yr amcangyfrif hwnnw, ac

(c) sut y mae'r manwerthwr cynllun yn bwriadu rheoli'r swmp disgwyliedig o eitemau y gellir eu dychwelyd a gesglir.

ystyr "gwybodaeth awdurdodi man dychwelyd" ("*return point authorisation information*") yw—

(a) cyfeiriad y fangre y cynigir gweithredu man dychwelyd ynddi,

(b) gwybodaeth am hygyrchedd y man dychwelyd arfaethedig, gan gynnwys—

(i) ei leoliad arfaethedig,

(ii) y llwybrau mynediad ato, a

(iii) yr oriau gweithredu arfaethedig,

(c) gwybodaeth ynghylch y math o fan dychwelyd y mae'r person sy'n gwneud y cais yn bwriadu ei weithredu, a

(d) gwybodaeth sy'n dangos—

(i) bod gan y person sy'n gwneud y cais ddigon o adnoddau i sefydlu a gweithredu'r man dychwelyd am gyfnod o 12 mis o leiaf,

(ii) nifer yr eitemau y gellir eu dychwelyd y mae'r person sy'n gwneud y cais yn amcangyfrif y byddant yn cael eu dychwelyd i'r man dychwelyd bob mis, a'r sail ar gyfer yr amcangyfrif hwnnw, a

(iii) sut y mae'r person sy'n gwneud y cais yn bwriadu rheoli'r swmp disgwyliedig o ddychweliadau eitemau y gellir eu dychwelyd;

ystyr "gwybodaeth y ceisydd" ("*applicant information*") yw—

(a) enw'r person sy'n gwneud y cais ac, os yw'n wahanol, ei enw busnes,

(b) y cyfeiriad a'r rhif ffôn ar gyfer swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r person,

(c) cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, os yw'n wahanol i'r cyfeiriad a grybwyllir ym mharagraff (b),

(d) pan fo'r person sy'n gwneud y cais yn gwmni, rhif cofrestru'r cwmni,

(e) pan fo'r person sy'n gwneud y cais yn bartneriaeth, enwau'r holl bartneriaid, ac

(f) enw a manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad e-bost pan fo ar gael) y person sydd wedi ei benodi'n bwynt cyswllt mewn cysylltiad â'r cais;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad ysgrifenedig.

RHAN 2

Ceisiadau am awdurdodiad i weithredu man dychwelyd

Cais am awdurdodiad i weithredu man dychwelyd mewn unrhyw fangre a gwmpesir

2.—(1) Caiff cyflenwr cynllun wneud cais i'r sefydliad rheoli ernes i weithredu man dychwelyd mewn mangre a gwmpesir.

(2) Rhaid i gais o dan y paragraff hwn—

(a) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes, a

(b) cynnwys—

(i) gwybodaeth y ceisydd,

(ii) yr wybodaeth awdurdodi man dychwelyd, a

(iii) unrhyw wybodaeth arall y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei chyfarwyddo.

(3) Pan fo'r cyflenwr cynllun yn bartneriaeth, rhaid i'r cais, os caiff ei wneud gan un partner yn unig, gael ei wneud gan y partner hwnnw ar ran yr holl bartneriaid.

Cais am awdurdodiad: manwerthwyr a gwmpesir bach

3.—(1) Caiff manwerthwr a gwmpesir sydd wedi ei eseptio rhag y gofyniad i weithredu man dychwelyd o dan reoliad 36(1) wneud cais i'r sefydliad rheoli ernes i weithredu man dychwelyd yn y fangre o dan sylw.

(2) Rhaid i gais o dan y paragraff hwn—

(a) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes, a

(b) cynnwys—

(i) gwybodaeth y ceisydd,

(ii) yr wybodaeth awdurdodi man dychwelyd, a

(iii) unrhyw wybodaeth arall y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei chyfarwyddo.

(3) Pan fo'r manwerthwr a gwmpesir yn bartneriaeth, rhaid i'r cais, os caiff ei wneud gan un partner yn unig, gael ei wneud gan y partner hwnnw ar ran yr holl bartneriaid.

Penderfyniad ar gais

4.—(1) Pan fo cais yn dod i law'r sefydliad rheoli ernes o dan baragraff 2 neu 3, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) penderfynu pa un ai i ganiatáu neu wrthod y cais, a

(b) hysbysu'r ceisydd am ei benderfyniad drwy hysbysiad.

(2) Caiff y sefydliad rheoli ernes ganiatáu neu wrthod y cais o dan is-baragraff (1)(a) cyn 1 Hydref 2027.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1)(b)—

(a) pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn caniatáu'r cais, bennu'r dyddiad y mae'r awdurdodiad yn cymryd effaith;

(b) pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn gwrthod y cais—

(i) nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, a

(ii) nodi bod gan y ceisydd hawl o dan reoliad 79 i wneud cais i'r sefydliad rheoli ernes i adolygu ei benderfyniad.

(4) Os yw'r person yn arfer yr hawl o dan is-baragraff (3)(b)(ii), ni chaniateir i'r penderfyniad gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

Hyd awdurdodiad person i weithredu man dychwelyd

5. Mae awdurdodiad person i weithredu man dychwelyd yn cael effaith hyd nes iddo gael ei ddirymu gan y sefydliad rheoli ernes.

RHAN 3

Awdurdodi manwerthwr cynllun yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl

Awdurdodi manwerthwr cynllun yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl

6.—(1) Caiff manwerthwr cynllun wneud cais i'r sefydliad rheoli ernes am awdurdodiad yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl.

(2) Pan fo'r manwerthwr cynllun yn bartneriaeth, rhaid i'r cais, os caiff ei wneud gan un partner yn unig, gael ei wneud gan y partner hwnnw ar ran yr holl bartneriaid.

(3) Rhaid i gais o dan y paragraff hwn—

(a) cael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a gyfarwyddir gan y sefydliad rheoli ernes, a

(b) cynnwys—

(i) gwybodaeth y ceisydd,

(ii) yr wybodaeth awdurdodi gwasanaeth cymryd yn ôl, a

(iii) unrhyw wybodaeth arall (os o gwbl) y mae'r sefydliad rheoli ernes yn ei chyfarwyddo.

Penderfyniad ar gais

7.—(1) Pan fo cais yn dod i law'r sefydliad rheoli ernes o dan baragraff 6, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) penderfynu pa un ai i ganiatáu neu wrthod y cais, a

(b) rhoi hysbysiad o'i benderfyniad i'r manwerthwr cynllun.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1)(b)—

(a) pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn caniatáu'r cais, bennu'r dyddiad y mae'r awdurdodiad yn cymryd effaith;

(b) pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn gwrthod y cais—

(i) nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, a

(ii) nodi bod gan y manwerthwr cynllun hawl o dan reoliad 79 i wneud cais i'r sefydliad rheoli ernes i adolygu ei benderfyniad.

(3) Os yw'r manwerthwr cynllun yn arfer yr hawl o dan is-baragraff (2)(b)(ii), ni chaiff y penderfyniad gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

Hyd awdurdodiad manwerthwr cynllun yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl

8. Mae awdurdodiad manwerthwr cynllun yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl yn cael effaith hyd nes iddo gael ei ddirymu gan y sefydliad rheoli ernes.

RHAN 4

Gwybodaeth

Dyletswydd i hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am newid yng ngwybodaeth y ceisydd, yr wybodaeth awdurdodi man dychwelyd neu'r wybodaeth awdurdodi gwasanaeth cymryd yn ôl

9.—(1) Rhaid i gyflenwr cynllun sydd wedi ei awdurdodi i weithredu man dychwelyd mewn mangre benodol hysbysu'r sefydliad rheoli ernes os oes unrhyw newid yng ngwybodaeth y ceisydd neu'r wybodaeth awdurdodi man dychwelyd a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag awdurdodiad y cyflenwr cynllun hwnnw.

(2) Rhaid i fanwerthwr cynllun sydd wedi ei awdurdodi i ddarparu gwasanaethau cymryd yn ôl hysbysu'r sefydliad rheoli ernes os oes unrhyw newid yng ngwybodaeth y ceisydd neu'r wybodaeth awdurdodi gwasanaeth cymryd yn ôl a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag awdurdodiad y manwerthwr cynllun hwnnw.

(3) Rhaid rhoi hysbysiad o dan y paragraff hwn o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r newid yn digwydd.

RHAN 5

Dirymu awdurdodiad

Dirymu awdurdodiad ar gais

10.—(1) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, os gofynnir iddo wneud hynny gan gyflenwr cynllun sydd wedi ei awdurdodi i weithredu man dychwelyd mewn mangre benodol, ddirymu awdurdodiad y cyflenwr cynllun i weithredu'r man dychwelyd hwnnw.

(2) Rhaid i'r sefydliad rheoli ernes, os gofynnir iddo wneud hynny gan fanwerthwr cynllun, ddirymu awdurdodiad y manwerthwr cynllun yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl.

(3) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn dirymu awdurdodiad person o dan y paragraff hwn, rhaid iddo roi hysbysiad i'r person sy'n pennu'r diwrnod y bydd yr awdurdodiad yn peidio â chael effaith ar ei ddiwedd.

Dirymu awdurdodiad ar ysgogiad y sefydliad rheoli ernes

11.—(1) Caiff y sefydliad rheoli ernes, ar ei ysgogiad ei hun, ddirymu—

(a) awdurdodiad cyflenwr cynllun i weithredu man dychwelyd mewn mangre benodol, neu

(b) awdurdodiad manwerthwr cynllun i ddarparu gwasanaethau cymryd yn ôl.

(2) Ond ni chaiff y sefydliad rheoli ernes ond dirymu awdurdodiad cyflenwr cynllun o dan is-baragraff (1)(a) ar un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—

(a) bod y cyflenwr cynllun wedi methu â chydymffurfio ag un neu ragor o'i rwymedigaethau yn weithredwr man dychwelyd o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun;

(b) y bu newid mewn amgylchiadau ers i'r awdurdodiad gael ei roi, gan gynnwys unrhyw newid sy'n golygu—

(i) na all lleoliad, cynllun, maint, dyluniad neu adeiladwaith y fangre ganiatáu gweithredu man dychwelyd mwyach, neu na all mwyach wneud hynny yn hawdd, ac ni ellir ei haddasu yn rhesymol i ganiatáu parhau i weithredu man dychwelyd;

(ii) nad yw gweithredu'r man dychwelyd yn hyfyw mwyach.

(3) Ni chaiff y sefydliad rheoli ernes ond dirymu awdurdodiad manwerthwr cynllun i ddarparu gwasanaethau cymryd yn ôl o dan is-baragraff (1)(b) ar un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—

(a) bod y manwerthwr cynllun wedi methu â chydymffurfio ag un neu ragor o'i rwymedigaethau yn ddarparwr gwasanaeth cymryd yn ôl o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun;

(b) y bu newid mewn amgylchiadau ers i'r awdurdodiad gael ei roi;

(c) nad yw gweithredu'r gwasanaeth cymryd yn ôl yn hyfyw mwyach.

(4) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig dirymu awdurdodiad o dan is-baragraff (1), rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad cynnig i'r person hwnnw.

(5) Rhaid i hysbysiad cynnig—

(a) nodi'r rhesymau pam y mae'r sefydliad rheoli ernes yn cynnig dirymu'r awdurdodiad,

(b) pennu'r diwrnod y bydd y dirymiad yn cymryd effaith ar ei ddiwedd, os cwblheir y cynnig, ac

(c) pennu ar ba ffurf ac ym mha fodd, ac o fewn pa gyfnod, y caiff y person perthnasol gyflwyno sylwadau i'r sefydliad rheoli ernes ynghylch y dirymiad arfaethedig, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad y mae'r hysbysiad cynnig yn dod i law'r person.

(6) Mewn perthynas â'r sefydliad rheoli ernes—

(a) rhaid iddo ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo ar y ffurf benodedig ac yn y modd penodedig ac erbyn y dyddiad penodedig;

(b) caiff ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir ac eithrio ar y ffurf benodedig neu yn y modd penodedig neu ar ôl y dyddiad penodedig.

(7) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â dirymiad arfaethedig awdurdodiad person, rhaid iddo hysbysu'r person yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(8) Pan fo'r sefydliad rheoli ernes yn penderfynu bwrw ymlaen â dirymu awdurdodiad person, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad dirymu i'r person.

(9) Rhaid i hysbysiad dirymu—

(a) nodi bod awdurdodiad y person yn cael ei ddirymu, a rhoi'r rhesymau pam,

(b) pennu'r diwrnod y bydd y dirymiad yn cymryd effaith ar ei ddiwedd, ac

(c) nodi bod gan y person hawl o dan reoliad 79 i wneud cais i'r sefydliad rheoli ernes i adolygu ei benderfyniad.

(10) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (9)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r hysbysiad dirymu yn dod i law'r person.

(11) Os yw'r person yn arfer yr hawl y cyfeirir ati yn is-baragraff (9)(c), ni chaiff yr hysbysiad dirymu gymryd effaith cyn diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 81(2).

ATODLEN 5

Rheoliadau 51, 52 a 82

Penodi etc. y sefydliad rheoli ernes

RHAN 1

Rhagarweiniol

Dehongli Atodlen 5

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cais penodiad SRhE" ("*DMO appointment application*") yw cais am benodiad yn SRhE;

ystyr "ceisydd SRhE" ("*DMO applicant*") yw person sy'n gwneud cais penodiad SRhE;

ystyr "corff corfforedig nid-er-elw" ("*not-for-profit body corporate*") yw corff corfforedig sy'n defnyddio arian a enillir gan y corff corfforedig hwnnw, neu a gyfrennir ato, i gyflawni ei amcanion yn unig ac nad yw'n dosbarthu incwm i'w aelodau, ei gyfarwyddwyr na'i swyddogion ac eithrio tâl rhesymol am nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r corff hwnnw;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad ysgrifenedig;

ystyr "penodedig" ("*specified*") yw wedi ei bennu mewn hysbysiad a roddir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "SRhE" ("*DMO*") yw sefydliad rheoli ernes.

RHAN 2

Penodi'r sefydliad rheoli ernes

Penderfyniad ar geisiadau penodiad SRhE

2.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) asesu pob cais penodiad SRhE a phenderfynu—

(i) pa geisydd SRhE i'w benodi'n SRhE, a

(ii) a ddylid gosod unrhyw amodau ynghlwm wrth y penodiad;

(b) hysbysu pob ceisydd SRhE am unrhyw benderfyniad a wneir mewn cysylltiad â'u cais penodiad SRhE cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond penodi ceisydd SRhE yn SRhE os ydynt wedi eu bodloni—

(a) bod y ceisydd SRhE yn gorff corfforedig nid-er-elw,

(b) nad yw'r ceisydd SRhE yn elusen, ac

(c) bod y ceisydd SRhE yn addas i'w benodi yn SRhE, gan roi sylw yn benodol i—

(i) lefel y gefnogaeth i benodi'r ceisydd SRhE yn SRhE ymysg cynhyrchwyr cynllun a chyflenwyr cynllun;

(ii) strategaeth gyllid arfaethedig y ceisydd SRhE, gan gynnwys yn benodol sut y mae'n bwriadu sicrhau bod y Cynllun yn dod yn hunangyllidol ac yn parhau i fod felly;

(iii) strategaeth arfaethedig y ceisydd SRhE ar gyfer sicrhau bod safbwyntiau'r holl gynhyrchwyr cynllun a'r cyflenwyr cynllun (ni waeth beth yw eu maint), a safbwyntiau treulwyr, yn cael eu casglu a'u hystyried wrth gyflawni'r swyddogaethau SRhE;

(iv) strategaeth arfaethedig y ceisydd SRhE ar gyfer lleihau i'r eithaf effaith amgylcheddol y Cynllun a hwyluso ailddefnyddio eitemau ad-daliad ac ailgylchu deunydd a gwmpesir;

(v) y trefniadau y mae'r ceisydd SRhE yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau cydweithrediad â gweinyddwyr cynllun eraill, yn benodol mewn cysylltiad â—

(aa) gweithrediad y Cynllun;

(bb) gweithrediad cynllun ernes Lloegr a Gogledd Iwerddon;

(cc) gweithrediad cynllun tramor;

(dd) gweithrediad cynllun ernes a dychwelyd yr Alban;

(ee) hwyluso a gwella rhwyddineb dychwelyd gan dreulwyr gynwysyddion diodydd sy'n cael eu prynu mewn un rhan o'r Deyrnas Unedig a'u dychwelyd mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig;

(ff) hwyluso a gwella'r broses gofrestru ar gyfer y rheini sy'n cynhyrchu, neu'n mewnforio, ddiodydd ar gyfer marchnad y Deyrnas Unedig;

(vi) strategaeth arfaethedig y ceisydd SRhE ar gyfer lleihau a dileu unrhyw dwyll yn y Cynllun;

(vii) at ba ddibenion y mae'r SRhE yn cynnig defnyddio unrhyw symiau y caniateir i'r SRhE eu cadw o dan y Cynllun, ond nad oes eu hangen i ariannu'r Cynllun ei hun.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1)(b)—

(a) os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu penodi'r ceisydd SRhE yn SRhE—

(i) nodi bod y cais wedi bod yn llwyddiannus,

(ii) pennu'r dyddiad y mae penodiad y ceisydd SRhE yn SRhE yn cymryd effaith, a

(iii) nodi unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y penodiad;

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cais penodiad SRhE y ceisydd SRhE—

(i) nodi'r rhesymau dros y penderfyniad, a

(ii) nodi y caiff y ceisydd SRhE apelio yn erbyn y penderfyniad, a chynnwys datganiad ynghylch sut y gellir dwyn apêl o'r fath.

(4) Pan fo dau neu ragor o geiswyr SRhE, ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (3)(a)(ii) fod cyn diwedd y cyfnod y caiff ceisydd SRhE ddwyn apêl ynddo yn erbyn penderfyniad i wrthod ei gais penodiad SRhE (gan ddiystyru unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw).

RHAN 3

Dirymu penodiad person yn SRhE

Dirymu penodiad person yn SRhE: yn sgil hysbysiad

3.—(1) Caiff y person a benodir yn SRhE ("yr SRhE sy'n ymddiswyddo") roi hysbysiad ("hysbysiad dirymu") i Weinidogion Cymru yn datgan ei fod yn dymuno peidio â bod yn SRhE.

(2) Os yw hysbysiad dirymu yn dod i law Gweinidogion Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) dirymu penodiad yr SRhE sy'n ymddiswyddo yn SRhE, a

(b) rhoi hysbysiad i'r SRhE sy'n ymddiswyddo sy'n pennu'r dyddiad y mae'r dirymiad yn cymryd effaith.

(3) Ni chaniateir i'r dyddiad a bennir o dan is-baragraff (2)(b) fod cyn diwedd y cyfnod o 18 mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r hysbysiad dirymu yn dod i law Gweinidogion Cymru.

Dirymu penodiad person yn SRhE: disgresiwn Gweinidogion Cymru

4.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu penodiad person yn SRhE—

(a) os yw'r person—

(i) wedi ei euogfarnu o drosedd yn ymwneud ag amhriodoldeb ariannol neu dwyll;

(ii) wedi mynd yn fethdalwr;

(iii) wedi dod yn ddarostyngedig i achos ansolfedd neu achos dirwyn i ben;

(iv) wedi bod ag asedau a wnaed yn ddarostyngedig i weinyddiad neu dderbynyddiad, gan gynnwys gan ddatodwr neu lys;

(v) wedi ymrwymo i drefniant gyda chredydwyr y person;

(vi) wedi dod yn ddarostyngedig i ddeiseb neu gais am unrhyw weithdrefnau neu drefniadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (ii) i (v);

(vii) wedi bod yn ddarostyngedig i weithdrefn neu gais, mewn unrhyw awdurdodaeth, sy'n cyfateb i unrhyw weithdrefn neu gais a grybwyllir yn is-baragraffau (ii) i (v);

(viii) wedi methu am o leiaf 3 blynedd â sicrhau bod y Cynllun, ynghyd ag unrhyw drefniadau ailgylchu cilyddol, yn cyrraedd y targedau casglu o dan reoliad 84;

(ix) wedi darparu gwybodaeth anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn cysylltiad â'i gais penodiad SRhE neu mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'i rwymedigaethau yn SRhE o dan y Cynllun neu mewn cysylltiad â'r Cynllun;

(x) wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad neu ddirwy a ddyroddwyd gan CNC;

(xi) wedi gwrthod talu neu fethu â thalu yn fynych gostau CNC ar ôl cael ei anfonebu am y costau hynny;

(xii) wedi methu â bodloni un neu ragor o amodau penodiad y person hwnnw, neu

(b) os yw'r person wedi hysbysu Gweinidogion Cymru am newid mewn amgylchiadau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn debygol o atal y person rhag cydymffurfio ag amodau penodiad y person hwnnw.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt ddirymu penodiad person yn SRhE os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod sail dros wahardd mandadol a nodir yn Atodlen 6 ("mandatory exclusion ground") i Ddeddf Caffael 2023(**17**) ("Deddf 2023"), yn gymwys i'r person hwnnw neu i berson cysylltiedig a—

(i) bod yr amgylchiadau sy'n arwain at gymhwyso'r sail dros wahardd mandadol yn parhau neu'n debygol o ddigwydd eto, neu

(ii) bod y person, neu berson cysylltiedig, ar y rhestr rhagwaharddiadau o dan adran 62 o Ddeddf 2023 yn rhinwedd sail dros wahardd mandadol;

(b) cânt ddirymu penodiad person yn SRhE os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod sail dros wahardd yn ôl disgresiwn a nodir yn Atodlen 7 i Ddeddf 2023 ("discretionary exclusion ground") yn gymwys i'r person hwnnw neu i berson cysylltiedig a—

(i) bod yr amgylchiadau sy'n arwain at gymhwyso'r sail dros wahardd yn ôl disgresiwn yn parhau neu'n debygol o ddigwydd eto, neu

(ii) bod y person, neu berson cysylltiedig, ar y rhestr rhagwaharddiadau o dan adran 62 o Ddeddf 2023 yn rhinwedd sail dros wahardd yn ôl disgresiwn.

(3) Yn y paragraff hwn, mae i "person cysylltiedig" yr un ystyr â "connected person" ym mharagraff 45 o Atodlen 6 i Ddeddf 2023 .

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn cynnig dirymu penodiad person yn SRhE rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad cynnig i'r person.

(5) Rhaid i hysbysiad cynnig—

(a) nodi bod Gweinidogion Cymru yn cynnig dirymu penodiad y person yn SRhE, a rhoi'r rhesymau pam,

(b) pennu'r dyddiad arfaethedig y mae'r dirymiad i gymryd effaith,

(c) nodi y caiff y person gyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â dirymiad arfaethedig ei benodiad yn SRhE, a

(d) pennu ar ba ffurf ac ym mha fodd, ac erbyn pa ddyddiad, y mae rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau o'r fath i Weinidogion Cymru.

(6) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (5)(b) fod cyn diwedd y cyfnod y caiff y person gyflwyno sylwadau ynddo mewn cysylltiad â dirymiad arfaethedig ei benodiad yn SRhE (gan ddiystyru unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw).

(7) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir ar y ffurf benodedig ac yn y modd penodedig, ac erbyn y dyddiad penodedig;

(**17**) 2023 p. 54, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) cânt anwybyddu unrhyw sylwadau nad ydynt yn cael eu cyflwyno ar y ffurf benodedig ac yn y modd penodedig neu a wneir ar ôl y dyddiad penodedig.

(8) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r dirymiad arfaethedig, rhaid iddynt hysbysu'r SRhE yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(9) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu bwrw ymlaen â'r dirymiad arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad dirymu i'r person hwnnw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(10) Rhaid i'r hysbysiad dirymu—

(a) nodi bod penodiad y person yn SRhE wedi ei ddirymu a rhoi'r rhesymau pam,

(b) pennu'r dyddiad y mae'r dirymiad yn cymryd effaith, ac

(c) nodi y caiff y person apelio yn erbyn y penderfyniad, a chynnwys datganiad ynghylch sut y gellir dwyn apêl o'r fath.

(11) Ni chaiff y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (10)(b) fod cyn diwedd y cyfnod y caiff person ddwyn apêl ynddo yn erbyn y penderfyniad i ddirymu ei benodiad yn SRhE (gan ddiystyru unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw).

Trosglwyddo asedau etc.

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru drosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwyddau perthnasol—

(a) y gweinyddwr cynllun interim i'r SRhE cyntaf a benodir gan Weinidogion Cymru;

(b) yr SRhE ymadawol i'r SRhE newydd, neu i'r gweinyddwr cynllun interim, o ganlyniad i'r ffaith bod yr SRhE ymadawol yn peidio â bod yn SRhE;

(c) y gweinyddwr cynllun interim i'r SRhE newydd, pan benodir yr SRE newydd yn ystod cyfnod pan fo'r gweinyddwr cynllun interim yn arfer swyddogaethau'r SRhE.

(2) Yr eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau perthnasol y caniateir eu trosglwyddo o dan is-baragraff (1) yw—

(a) data a grëwyd ac a gasglwyd yn benodol ar gyfer y Cynllun;

(b) asedau tir;

(c) eiddo deallusol, gan gynnwys brandio'r Cynllun;

(d) ernesau;

(e) systemau TG;

(f) contractau yr ymrwymwyd iddynt gan yr SRhE ymadawol neu'r gweinyddwr cynllun interim at ddiben y Cynllun;

(g) seilwaith casglu a phrosesu;

(h) systemau staff ac adnoddau dynol.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond trosglwyddo pa faint bynnag o'r eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau perthnasol a nodir yn is-baragraff (2) sy'n asedau gofynnol er mwyn cadw'r Cynllun yn weithredol ac i ddiogelu buddiannau treulwyr.

(4) Mae trosglwyddiad unrhyw eiddo, hawliau ac atebolrwyddau yn cael effaith ar ddyddiad y penodiad newydd.

(5) Mae'r eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau y caniateir eu trosglwyddo o dan y paragraff hwn yn cynnwys eiddo, hawliau ac atebolrwyddau na fyddent fel arall yn gallu cael eu trosglwyddo neu eu haseinio gan yr SRhE ymadawol neu'r gweinyddwr cynllun interim.

(6) Mae trosglwyddiad eiddo, hawliau ac atebolrwyddau o dan y paragraff hwn yn cymryd effaith er gwaethaf y ffaith nad oes unrhyw gydsyniad neu gytundeb gofynnol i'r trosglwyddiad neu â'r trosglwyddiad ac fel pe na bai—

(a) unrhyw atebolrwydd yn bodoli mewn cysylltiad â thor gofyniad am gydsyniad neu gytundeb a fyddai'n bodoli fel arall oherwydd unrhyw ddarpariaeth (pa un ai o dan unrhyw ddeddfiad neu gytundeb neu fel arall) sy'n cael effaith mewn perthynas â'r telerau y mae gan yr SRhE ymadawol neu'r gweinyddwr cynllun interim hawlogaeth i'r eiddo neu'r hawl arnynt, neu y mae'n ddarostyngedig i'r atebolrwydd o dan sylw arnynt, a

(b) unrhyw ymyrraeth ag unrhyw eiddo neu hawl a fyddai'n bodoli fel arall oherwydd unrhyw ddarpariaeth (pa un ai o dan unrhyw ddeddfiad neu gytundeb neu fel arall) sy'n cael effaith mewn perthynas â'r telerau y mae gan yr SRhE ymadawol neu'r gweinyddwr cynllun interim hawlogaeth i'r eiddo neu'r hawl arnynt, neu y mae'n ddarostyngedig i'r atebolrwydd o dan sylw arnynt.

(7) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw unrhyw eiddo, hawl neu atebolrwydd sydd gan yr SRhE ymadawol neu'r gweinyddwr cynllun interim yn eiddo perthnasol, yn hawl berthnasol neu'n atebolrwydd perthnasol oni chafodd ei gaffael neu ei chaffael gan yr SRhE ymadawol neu'r gweinyddwr cynllun interim, neu y daeth yn ddarostyngedig i'r hawl neu'r atebolrwydd, wrth arfer ei swyddogaethau fel yr SRhE o dan y Cynllun.

(8) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 6—

ystyr "dyddiad y penodiad newydd" ("*the new appointment date*") yw'r dyddiad, yn ôl y digwydd—

(a) y penodir yr SRhE cyntaf;

(b) y mae penodiad yr SRhE newydd yn cymryd effaith;

(c) y mae Gweinidogion Cymru yn dechrau cyflawni unrhyw swyddogaethau SRhE o dan reoliad 83(4)(a);

(d) y penodir person i gyflawni swyddogaethau SRhE o dan reoliad 83(4)(b);

ystyr "yr SRhE newydd" ("*the new DMO*") yw'r person a benodir nesaf yn SRhE yn dilyn dirymu penodiad yr SRhE ymadawol;

ystyr "yr SRhE ymadawol" ("*the outgoing DMO*") yw'r person y mae ei benodiad yn SRhE yn cael ei ddirymu o dan baragraff 3 neu 4.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â pharagraff 5

6.—(1) Mae unrhyw beth sydd—

(a) yn cael ei wneud (neu'n cael effaith fel pe bai'n cael ei wneud) gan y gweinyddwr cynllun interim neu mewn perthynas ag ef neu gan yr SRhE ymadawol neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo, hawl neu atebolrwydd a drosglwyddir i'r SRhE newydd neu'r gweinyddwr cynllun interim (yn ôl y digwydd) o dan baragraff 5, a

(b) yn cael effaith yn union cyn dyddiad y penodiad newydd,

i'w drin fel pe bai'n cael ei wneud gan yr SRhE newydd neu mewn perthynas ag ef.

(2) Caniateir i unrhyw beth (gan gynnwys achos cyfreithiol) gael ei barhau gan y gweinyddwr cynllun interim neu mewn perthynas ag ef neu gan yr SRhE newydd neu mewn perthynas ag ef (yn ôl y digwydd) sydd—

(a) yn ymwneud ag unrhyw eiddo, hawl neu atebolrwydd a drosglwyddir o dan baragraff 5, a

(b) yn y broses o gael ei wneud gan y gweinyddwr cynllun interim, ar ei ran, neu mewn perthynas ag ef neu gan yr SRhE ymadawol, ar ei ran, neu mewn perthynas ag ef (yn ôl y digwydd) yn union cyn dyddiad y penodiad newydd.

Parhad wrth arfer swyddogaethau SRhE

7.—(1) Mae unrhyw beth a wneir gan y gweinyddwr cynllun interim neu'r SRhE ymadawol (yn ôl y digwydd) mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r SRhE yn cael effaith fel pe bai'n cael ei wneud gan yr SRhE newydd neu'r gweinyddwr cynllun interim (yn ôl y digwydd).

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "yr SRhE newydd" yr un ystyr ag a roddir ym mharagraff 5(8).

RHAN 4

Apelau o dan Rannau 2 a 3

Yr hawl i apelio

8.—(1) Caiff ceisydd SRhE apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru o dan baragraff 2 i wrthod eu cais penodiad SRhE.

(2) Caiff person apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru o dan baragraff 4 i ddirymu ei benodiad yn SRhE.

(3) Mae apêl o dan is-baragraff (1) neu (2) yn apêl i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.

ATODLEN 6

Rheoliad 92

Sancsiynau Sifil

RHAN 1

Rhagarweiniol

Dehongli Atodlen 6

1. Yn yr Atodlen hon—

mae i "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 91;

ystyr "CAA" ("*VMP*") yw cosb ariannol amrywiadwy, sy'n gosb o unrhyw swm a bennir gan yr awdurdod gorfodi;

ystyr "CAB" ("*FMP*") yw cosb ariannol benodedig, sy'n ofyniad i dalu cosb i'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â gweithred neu dor gofyniad a grybwyllir yng ngholofn 1 o'r Tabl SS, sef y swm a ddangosir yn y Tabl SS am y weithred honno neu'r toriad hwnnw;

mae i "hysbysiad cydymffurfio" ("*compliance notice*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 14(1);

ystyr "Tabl SS" ("*CS Table*") yw'r Tabl Sancsiynau Sifil yn Rhan 2 o'r Atodlen hon;

ystyr “ymgymeriad gorfodi” (“*enforcement undertaking*”) yw ymgymeriad, yn ysgrifenedig, i gymryd y camau a bennir yn yr ymgymeriad hwnnw o fewn y cyfnod a bennir yn yr ymgymeriad hwnnw.

RHAN 2

Y tabl sancsiynau Sifil

Colofn 1	Colofn 2	Colofn 3	Colofn 4	Colofn 5
Gofyniad neu weithred	*CAB (swm)*	*CAA*	*hysbysiad cydymffurfio*	*ymgymeriad gorfodi*
Cynhyrchwyr cynllun				
Rheoliad 12 a Rhan 1 o Atodlen 1 (cofrestru)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 14(1)(a) neu (b) (gofyniad i wneud neu gadw cofnodion)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Darparu gwybodaeth mewn ymateb i gais gan SRhE am wybodaeth o dan reoliad 15, neu mewn cais i gofrestru o dan baragraff 2 o Atodlen 1, neu o dan baragraff 4 neu 5 o Atodlen 1, pan— (a) bo’r person sy’n darparu’r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anghywir, yn anwir neu’n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, (b) bo’r person sy’n ei darparu yn gwneud hynny’n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anghywir, yn anwir neu’n gamarweiniol mewn modd perthnasol, (c) bo’r person sy’n darparu’r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anghyflawn o ran manylyn perthnasol, neu (d) nad yw’r cynhyrchydd wedi hysbysu’r sefydliad rheoli ernes am newid i’r wybodaeth berthnasol.	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Darparu gwybodaeth mewn cais o dan reoliad 19 i gofrestru llinell gynhyrchion yn llinell swmp isel, pan fo— (a) y person sy’n darparu’r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu’n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu (b) y person sy’n ei darparu yn gwneud hynny’n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anwir neu’n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol.	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 22 (gofyniad i dalu ffi gofrestru cynhyrchydd cynllun cofrestredig)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 23 (gofyniad i dalu ernesau i’r sefydliad rheoli ernes)	Nac oes	Oes	Oes	Oes

Cyflenwyr cynllun				
Rheoliad 24 (gofyniad i gyflenwi eitemau gan gynhyrchwyr cynllun cofrestredig)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 25(1)(a) (gofyniad i eitem ernes ddangos y logo eitem sy'n ofynnol)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 25(1)(b) (gofyniad i eitem ernes ddangos cod dychwelyd cynllun)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 25(2) (gofyniad i becyn aml-gynnwys cynllun ddangos logo pecynwaith cynllun)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 26(1) (gofyniad i beidio â chyflenwi cynnyrch swmp isel cofrestredig sy'n dangos logo cynllun neu god dychwelyd cynllun)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 27(1) neu (6) (gofyniad i ddarparu neu arddangos, neu ddarparu i arddangos, yr wybodaeth cynllun)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 28(1) (gofyniad i ddarparu neu arddangos, neu ddarparu i arddangos, yr wybodaeth CSIC)	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 29(1) (gofyniad i gyflenwr cynllun godi ernes), pan fo'r cyflenwr cynllun yn fanwerthwr cynllun	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 29(1) (gofyniad i godi ernes), pan nad yw'r cyflenwr cynllun yn fanwerthwr cynllun	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 30(1) (gofyniad i arddangos gwybodaeth optio allan)	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Darparu gwybodaeth mewn ymateb i gais am wybodaeth SRhE o dan reoliad 31 pan fo— a) y person sy'n darparu'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anghywir, yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, (b) y person sy'n ei darparu yn gwneud hynny'n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anghywir, yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu (c) y person sy'n darparu'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anghyflawn o ran manylyn perthnasol.	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Dychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd				
Rheoliad 35(1) (gofyniad i weithredu man dychwelyd)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes

Rheoliad 35(5) ac Atodlen 2 (gofyniad i gofrestru, neu adnewyddu cofrestriad, â'r sefydliad rheoli ernes yn weithredwr man dychwelyd mandadol)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Darparu gwybodaeth o dan baragraff 2 neu 4 o Atodlen 2 pan fo— (a) y person sy'n darparu'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu (b) y person sy'n ei darparu yn gwneud hynny'n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol.	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Methu â darparu gwybodaeth o dan baragraff 7 o Atodlen 3 (esemptiad man dychwelyd: dyletswydd i hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am newid mewn amgylchiadau)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Darparu gwybodaeth o dan baragraff 2, 7 neu 9 o Atodlen 3 pan fo— (a) y person sy'n darparu'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu (b) y person sy'n ei darparu yn gwneud hynny'n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol.	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 37(1) (gofyniad i arddangos gwybodaeth pan na fo man dychwelyd yn cael ei weithredu)	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 40 (gofyniad i arddangos gwybodaeth mewn man dychwelyd)	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 41 (gofyniad i fod yn fanwerthwr cynllun ac yn gofrestredig â'r sefydliad rheoli ernes er mwyn darparu gwasanaeth cymryd yn ôl)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 42(1) neu (5) (gofyniad i ddarparu, arddangos neu ddarparu i arddangos, wybodaeth am wasanaeth cymryd yn ôl)	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Darparu gwybodaeth mewn cais o dan baragraff 2, 3 neu 6 o Atodlen 4, pan fo— (a) y person sy'n darparu'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu (b) y person sy'n ei darparu yn gwneud hynny'n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol.	Nac oes	Oes	Oes	Oes

Paragraff 9 o Atodlen 4 (dyletswydd i hysbysu'r sefydliad rheoli ernes am newid mewn gwybodaeth)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 47(1), (2) neu (3)(b) (gofynion o ran talu'r swm dychwelyd cyfan)	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 48(2) (gofyniad i hysbysu SRhE fod y swm dychwelyd cyfan i'w dalu gan yr SRhE i elusen)	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 49 (gofyniad i gadw eitemau y gellir eu dychwelyd)	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 50 (gofyniad i gadw neu ddychwelyd eitemau y gellir eu dychwelyd)	Oes (£1,000)	Oes	Oes	Oes
Y sefydliad rheoli ernes				
Rheoliad 48(3) (gofyniad i dalu swm sy'n cyfateb i'r swm dychwelyd cyfan i elusen)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 52(3) (gofyniad i gydymffurfio ag amodau penodiad)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 53(1) (gofyniad i weithredu yn unol â chynllun gweithredol)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 54(1) (gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 55(1) a (2) (gofyniad i sefydlu a chadw cronfa wrth gefn)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 56(1)(a) (logo cynllun: gofyniad i ddyroddi)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 57 (gofyniad i gyhoeddi logo cynllun a logo pecynwaith cynllun)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 58 (cod dychwelyd cynllun: gofynion cod)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 68(1) (gofyniad i gasglu eitemau y gellir eu dychwelyd o weithredwyr man dychwelyd etc.)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 68(2) a (3) (gofynion i dalu symiau am eitemau y gellir eu dychwelyd)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 70 (gofyniad i wneud trefniadau ar gyfer ailgylchu deunydd a gwmpesir sy'n dod o eitemau ad-daliad)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 71 (gofyniad i wneud trefniadau ar gyfer ailgylchu deunydd a gwmpesir sy'n dod o eitemau heblaw eitemau ad-daliad)	Nac oes	Oes	Oes	Oes

Rheoliad 73 (gofyniad i wneud trefniadau ar gyfer ailddefnyddio eitemau ad-daliad a ddychwelwyd)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 74 (gofyniad mewn perthynas â thaliadau i CNC)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 75 (gwybodaeth am ddata dychweliadau)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â'r rhwymedigaeth yn rheoliad 84 (targedau casglu)	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Materion sy'n gysylltiedig â gorfodi				
Rheoliad 87(3) (gofyniad i gydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth), pan fo'r hysbysiad yn cael ei roi gan awdurdod pwysau a mesurau lleol	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Darparu gwybodaeth i awdurdod pwysau a mesurau lleol mewn ymateb i hysbysiad gwybodaeth o dan reoliad 87 pan fo— (a) y person sy'n darparu'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu (b) y person sy'n ei darparu yn gwneud hynny'n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol	Oes (£500)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 87(3) (gofyniad i gydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth), pan fo'r hysbysiad yn cael ei roi gan CNC	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Darparu gwybodaeth i CNC o dan reoliad 87 pan fo— (a) y person sy'n darparu'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu (b) y person sy'n ei darparu yn gwneud hynny'n ddi-hid a bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol	Nac oes	Oes	Oes	Oes
Rheoliad 88(1) (rhwystro neu fethu â chynorthwyo person awdurdodedig), pan fo'r person awdurdodedig wedi ei benodi gan awdurdod pwysau a mesurau lleol	Oes (£1,000)	Nac oes	Oes	Nac oes
Rheoliad 88(1) (rhwystro neu fethu â chynorthwyo person awdurdodedig), pan fo'r person awdurdodedig wedi ei benodi gan CNC	Nac oes	Oes	Oes	Oes

RHAN 3

Cosbau ariannol penodedig

Pŵer i osod CAB

2.—(1) Pan fo'r Tabl SS yn dangos bod CAB ar gael ar gyfer gweithred neu dor gofyniad a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl, caiff awdurdod gorfodi, drwy hysbysiad, osod CAB ar berson mewn perthynas â'r weithred honno neu'r toriad hwnnw.

(2) Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod gorfodi fod wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd fod y person wedi gweithredu neu wedi torri'r gofyniad perthnasol fel y nodir yn y Tabl SS.

Hysbysiad o fwriad i osod CAB

3.—(1) Pan fo awdurdod gorfodi yn cynnig gosod CAB ar berson, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad i'r person hwnnw o'r hyn a gynigir.

(2) Cyfeirir at hysbysiad o dan is-baragraff (1) yn y Rhan hon fel "hysbysiad o fwriad".

(3) Rhaid i hysbysiad o fwriad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) datgan y sail dros osod CAB,

(b) datgan swm yr CAB arfaethedig, ac

(c) cynnwys gwybodaeth ynghylch yr hawl i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r hysbysiad yn dod i law'r person (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "y cyfnod o 28 o ddiwrnodau").

Cyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau

4. Caiff person y mae hysbysiad o fwriad yn dod i'w law, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, gyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau ysgrifenedig i'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r CAB arfaethedig.

Hysbysiad terfynol o benderfyniad i osod CAB

5.—(1) Rhaid i'r awdurdod gorfodi, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a gyflwynwyd o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, hysbysu'r person o dan sylw yn ysgrifenedig am ei benderfyniad.

(2) Pan fo'r awdurdod gorfodi yn penderfynu gosod yr CAB (gydag addasiadau i delerau gwreiddiol yr hysbysiad o fwriad neu hebddynt) rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad terfynol yn ysgrifenedig i'r person o dan sylw a chynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) swm yr CAB,

(b) y sail dros osod yr CAB,

(c) sut y mae'n rhaid talu'r CAB,

(d) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid talu, sef y diwrnod olaf o gyfnod o 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r hysbysiad terfynol yn dod i law,

(e) manylion unrhyw gosbau am dalu'n hwyr,

(f) gwybodaeth am yr hawl i apelio, ac

(g) canlyniadau peidio â thalu.

Apelio

6.—(1) Caiff y person sy'n cael hysbysiad terfynol apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol.

Methu â thalu ar ôl 56 o ddiwrnodau

7.—(1) Rhaid talu CAB o fewn y cyfnod o 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r hysbysiad terfynol yn dod i law, oni bai bod yr hysbysiad terfynol yn cael ei apelio ac os felly mae rheoliad 103 yn berthnasol.

(2) Os na thelir yr CAB o fewn y cyfnod hwnnw, y swm sy'n daladwy yw swm gwreiddiol yr CAB ynghyd â 50% o'r ffigur hwnnw.

(3) Pan fo hysbysiad terfynol yn cael ei apelio a bod yr apêl yn aflwyddiannus neu'n cael ei thynnu'n ôl—

(a) mae'r CAB yn daladwy o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y penderfynir yr apêl neu y'i tynnir yn ôl (yn ôl y digwydd), a

(b) os na thelir yr CAB o fewn y cyfnod hwnnw, y swm sy'n daladwy yw swm gwreiddiol yr CAB ynghyd â 50% o'r ffigur hwnnw.

RHAN 4

Cosb ariannol amrywiadwy

Pŵer i osod CAA

8.—(1) Pan fo'r Tabl SS yn dangos bod CAA ar gael ar gyfer gweithred neu dor gofyniad a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl, caiff awdurdod gorfodi, drwy hysbysiad, osod CAA ar berson mewn perthynas â'r weithred honno neu'r toriad hwnnw.

(2) Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod gorfodi fod wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd fod y person wedi gweithredu neu wedi torri'r gofyniad perthnasol fel y nodir yn y Tabl SS.

(3) Cyn cyflwyno hysbysiad yn ymwneud ag CAA am fethu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad gorfodi, caiff yr awdurdod gorfodi ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n rhesymol er mwyn cadarnhau swm unrhyw fudd sy'n deillio o'r methiant i gydymffurfio â'r hysbysiad cydymffurfio neu'r ymgymeriad gorfodi.

Hysbysiad o fwriad i ddyroddi CAA

9.—(1) Pan fo awdurdod gorfodi yn cynnig gosod CAA ar berson o dan y Rhan hon, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad i'r person o'r hyn a gynigir.

(2) Cyfeirir at hysbysiad o dan is-baragraff (1) yn y Rhan hon fel "hysbysiad o fwriad".

(3) Rhaid i hysbysiad o fwriad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys—

(a) y sail dros osod CAA,

(b) swm yr CAA, ac

(c) gwybodaeth ynghylch yr hawl i gyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r hysbysiad yn dod i law'r person (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "y cyfnod o 28 o ddiwrnodau").

Sylwadau a gwrthwynebiadau

10. Caiff person y mae hysbysiad o fwriad yn dod i'w law, o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r awdurdod gorfodi ynghylch yr CAA arfaethedig.

Hysbysiad terfynol o benderfyniad i osod CAA

11.—(1) Rhaid i'r awdurdod gorfodi, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a gyflwynwyd o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, hysbysu'r person o dan sylw am ei benderfyniad.

(2) Pan fo'r awdurdod gorfodi yn penderfynu gosod CAA (gydag addasiadau neu hebddynt), rhaid i'r awdurdod gorfodi roi hysbysiad (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "hysbysiad terfynol") i'r person perthnasol.

(3) Rhaid i'r hysbysiad terfynol fod yn ysgrifenedig.

Cynnwys hysbysiad terfynol

12. Rhaid i hysbysiad terfynol gynnwys—

(a) y sail dros osod yr CAA,

(b) swm yr CAA,

(c) sut y caniateir i'r taliad gael ei wneud,

(d) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn llai na 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad terfynol, y mae rhaid talu,

(e) gwybodaeth am yr hawl i apelio, ac

(f) gwybodaeth am ganlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Apelio yn erbyn hysbysiad terfynol

13.—(1) Caiff y person sy'n cael hysbysiad terfynol apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod swm yr CAA yn afresymol;

(d) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall.

RHAN 5

Hysbysiadau cydymffurfio

Dyroddi hysbysiad cydymffurfio

14.—(1) Caiff awdurdod gorfodi, drwy hysbysiad ("hysbysiad cydymffurfio"), ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn eu pennu—

(a) o fewn unrhyw gyfnod y mae'r awdurdod yn ei bennu, a

(b) i sicrhau nad yw gweithred neu dor gofyniad a restrir yng ngholofn 1 o'r Tabl SS yn parhau neu'n cael ei ailadrodd, os yw colofn 4 o'r Tabl SS yn nodi bod hysbysiad cydymffurfio ar gael mewn cysylltiad â'r weithred neu'r toriad.

(2) Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio, rhaid i'r awdurdod gorfodi fod wedi ei fodloni bod sail resymol dros ystyried bod y person wedi torri, neu y bydd yn torri, y gofyniad perthnasol yng ngholofn 1 o'r Tabl SS.

(3) Ni chaniateir gosod gofyniad mewn hysbysiad cydymffurfio ar berson ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu doriad oni bai bod y weithred neu'r toriad yn weithred neu'n doriad sy'n parhau.

(4) Ond nid yw is-baragraff (3) yn atal hysbysiad cydymffurfio rhag gosod gofyniad cyfatebol ar berson os yw unrhyw ofyniad cynharach a osodwyd ar y person hwnnw mewn hysbysiad cydymffurfio sy'n ymwneud â'r un weithred neu doriad wedi ei dynnu'n ôl.

Cynnwys hysbysiad cydymffurfio

15. Rhaid i hysbysiad cydymffurfio fod yn ysgrifenedig a chynnwys—

(a) y sail dros osod y camau a bennir yn yr hysbysiad,

(b) gwybodaeth am y camau cydymffurfio neu adfer sy'n ofynnol ac o fewn pa gyfnod y mae rhaid eu cwblhau,

(c) gwybodaeth ynghylch yr hawl i apelio, a

(d) gwybodaeth am ganlyniadau methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Apelio yn erbyn hysbysiad cydymffurfio

16.—(1) Caiff person sy'n cael hysbysiad cydymffurfio apelio yn ei erbyn.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod natur y gofyniad yn afresymol;

(d) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall.

RHAN 6

Ymgymeriad gorfodi

Pŵer i dderbyn ymgymeriad gorfodi

17. Caiff awdurdod gorfodi dderbyn ymgymeriad gorfodi pan fo colofn 5 o'r Tabl SS yn dangos bod ymgymeriad gorfodi ar gael mewn cysylltiad â gweithred neu dor gofyniad a restrir yng ngholofn 1 o'r tabl.

Ffurf a chynnwys ymgymeriad gorfodi

18.—(1) Rhaid i ymgymeriad gorfodi fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) pennu cam gweithredu perthnasol,

(b) pennu o fewn pa gyfnod y mae rhaid i'r cam gweithredu hwnnw gael ei gwblhau, ac

(c) cynnwys—

(i) datganiad bod yr ymgymeriad wedi ei wneud yn unol â'r Rhan hon,

(ii) telerau'r ymgymeriad, a

(iii) datganiad ynghylch sut a phryd yr ystyrir bod person sy'n rhoi'r ymgymeriad wedi cyflawni'r ymgymeriad.

(2) Caniateir amrywio ymgymeriad gorfodi, neu estyn y cyfnod y mae rhaid cwblhau cam gweithredu perthnasol ynddo, os yw'r awdurdod gorfodi a'r person a roddodd yr ymgymeriad gorfodi yn cytuno i hynny yn ysgrifenedig.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "cam gweithredu perthnasol" yw—

(a) cam gweithredu i sicrhau nad yw'r weithred neu'r tor gofyniad a grybwyllir yng ngholofn 1 o'r Tabl SS yn parhau neu nad yw'n digwydd eto,

(b) cam gweithredu i sicrhau bod y sefyllfa, i'r graddau y bo'n bosibl, yn cael ei hadfer i'r hyn y byddai wedi bod pe na bai'r weithred neu'r toriad wedi digwydd, neu

(c) cam gweithredu (gan gynnwys talu swm o arian) er budd neu er mwyn gwella'r amgylchedd, megis cam gweithredu i atal taflu sbwriel, i gynyddu ailgylchu deunydd a gwmpesir y gwneir cynwysyddion ohono, neu i gynyddu ailddefnyddio cynwysyddion.

Effaith derbyn ymgymeriad gorfodi

19.—(1) Os yw awdurdod gorfodi yn derbyn ymgymeriad gorfodi o dan baragraff 17(1), ni chaiff osod unrhyw sancsiwn sifil arall mewn cysylltiad â'r weithred neu'r toriad y mae'r ymgymeriad gorfodi yn ymwneud â hi neu ag ef.

(2) Ond mae is-baragraff (1) yn peidio â bod yn gymwys os yw'r person yn methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad gorfodi neu unrhyw ran ohono.

Cyhoeddi ymgymeriadau gorfodi

20. Rhaid i awdurdod gorfodi gyhoeddi pob ymgymeriad gorfodi y mae'n ei dderbyn yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol, at ddibenion ei ddwyn i sylw personau y gallai effeithio arnynt.

Cyflawni ymgymeriad gorfodi

21.—(1) Os yw awdurdod gorfodi wedi ei fodloni y cydymffurfiwyd ag ymgymeriad gorfodi, rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif ("tystysgrif gyflawni").

(2) Caiff awdurdod gorfodi ei gwneud yn ofynnol i berson sydd wedi rhoi ymgymeriad gorfodi ddarparu gwybodaeth ddigonol at ddibenion penderfynu a yw'r person wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad hwnnw.

(3) Caiff person sydd wedi rhoi ymgymeriad gorfodi wneud cais am dystysgrif gyflawni ar unrhyw adeg.

(4) Pan fo cais o dan is-baragraff (3) yn dod i law awdurdod gorfodi, rhaid i'r awdurdod o fewn y cyfnod perthnasol—

(a) penderfynu a ddylid dyroddi tystysgrif gyflawni, a

(b) hysbysu'r person sy'n gwneud cais am y penderfyniad hwnnw.

(5) Ystyr y "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r cais o dan sylw yn dod i law'r awdurdod gorfodi.

Yr hawl i apelio

22.—(1) Caiff person apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod gorfodi i beidio â dyroddi tystysgrif gyflawni.

(2) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol.

Gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu gamarweiniol

23.—(1) Mae person sy'n rhoi gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu gamarweiniol mewn perthynas ag ymgymeriad gorfodi i'w ystyried fel pe na bai wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad hwnnw.

(2) Caiff awdurdod gorfodi ddirymu tystysgrif gyflawni os y'i dyroddwyd ar sail gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu gamarweiniol.

Cydymffurfio'n rhannol ag ymgymeriad gorfodi

24. Os yw person wedi cydymffurfio'n rhannol ag ymgymeriad gorfodi, rhaid i'r awdurdod gorfodi ystyried hynny wrth osod unrhyw sancsiwn sifil arall.

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 103

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Deposit Scheme for Drinks Containers (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are the first to be made by the Welsh Ministers under section 54 of, and Schedule 8 to, the Environment Act 2021 (c. 30). They establish a deposit scheme in Wales for drinks containers, supporting an increase in reuse and recycling and a reduction in littering and fly-tipping. Closed bottles and cans made from polyethylene terephthalate ('PET') plastic, steel, glass or aluminium, which contain between 150ml and 3 litres of liquid, fall within the scope of the deposit scheme.

From 1 October 2027, anyone in Wales who is supplied with a drink in the types of container to which these Regulations apply must pay a deposit to the person who supplies the drink container. A person who returns an empty drink container to a collector will be entitled to a refund. Under the scheme it will also be possible to return and claim a refund for certain empty drink containers which were purchased outside Wales.

Part 1 of the Regulations contains introductory provisions and a transitional provision.

Part 2 contains provisions on interpretation.

Part 3 contains provisions for the establishment of a deposit scheme for drinks containers in Wales. Under the scheme, a person who is supplied with a deposit item pays a deposit, which will be refunded when the item is returned to a scheme collector. This Part also sets out the circumstances in which a person is not entitled to a refund for a returnable item.

Part 4, Chapter 1 contains provisions imposing registration requirements on scheme producers and an obligation on the deposit management organisation to keep a register of registered scheme producers. Registered scheme producers are required to keep records relating to the supply of drinks containers. The deposit management organisation is also given powers to obtain information from registered scheme producers, and powers

relating to the cancellation of a scheme producer's registration. Chapter 2 contains provisions relating to low volume lines. Chapter 3 contains provisions relating to payments by scheme producers to the deposit management organisation. Schedule 1 contains further provision about the registration of scheme producers.

Part 5 contains provisions relating to scheme suppliers, including a prohibition on the supply of relevant drinks containers manufactured, imported or filled by a scheme producer who is not registered, and provisions relating to the labelling of deposit items, scheme multipacks and registered low volume products. Part 5 also contains provisions requiring scheme suppliers to charge a deposit for each deposit item which the scheme supplier supplies to the customer, and to display information about the deposit scheme and registered low volume products. Part 5 also includes powers for the deposit management organisation to obtain information from scheme suppliers.

Part 6 contains provisions relating to the return of returnable items. Chapter 1 of Part 6 contains provisions on items subject to overseas schemes. Chapter 2 contains provisions relating to mandatory return points for drink containers, and Chapter 3 contains provisions relating to voluntary return points. Chapter 4 contains provisions on information to be provided at return points, and Chapter 5 contains provisions on take-back services and on the collection or acceptance of returnable items by the deposit management organisation. Chapter 6 contains provisions on the register of return points, the register of return point exemptions and the register of take-back service providers, and Chapter 7 contains provisions about the general obligations of scheme collectors to offer payment for returnable items and to retain those returnable items for collection. Schedule 2 contains further provision about registration as a mandatory return point operator and Schedule 3 contains further provision about return point exemptions. Schedule 4 contains further provision about authorisations to operate voluntary return points

